
Sefydliad Twristiaeth
Antur Cymru

WATO WALES ADVENTURE TOURISM ORGANISATION



# Astudiaeth Ddichonoldeb Gweithgareddau Arfordirol a Digwyddiad Arddangos Bro Morgannwg

## Adroddiad Terfynol

Hydref 2019


creative RURAL COMMUNITIES

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas

LEADER

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Crynodeb Gweithredol

Ym mis Awst 2018, gwahoddodd Cyngor Bro Morgannwg (BM), drwy ei dîm datblygu gwledig, Cymunedau Gwledig Creadigol (CGC), dendrau gan bartïon sydd â diddordeb mewn ymgymryd ag astudiaeth ddichonoldeb i benderfynu ar y math o 'Antur' sy'n briodol i'w 'Arfordir', ac i dynnu sylw at rai o'i ganfyddiadau drwy gyfrwng digwyddiad arddangos. Cafodd Sefydliad Twristiaeth Antur Cymru (WATO) gyfle i gyflwyno'r astudiaeth ddichonoldeb yn dilyn cyflwyniad llwyddiannus.

Roedd gan Gyngor BM ddiddordeb mewn cael gwybod am y mathau o weithgarwch a fyddai'n cael eu caniatáu ac yn briodol i'w arfordir. Byddai gweithgareddau o'r fath yn ystyried natur yr arfordir, y llanwau, mynediad a'r cyfleusterau ar bob safle, a'r caniatadau cysylltiedig, y trwyddedau a'r costau. Ar ôl penderfynu yn ei chylch, byddai'r astudiaeth o ganlyniad yn cael ei dosbarthu'n eang i ddangos beth allai fod yn ymarferol.




Mae Strategaeth Ddatblygu Leol y CGC yn nodi bod gan Fro Morgannwg ***"Asedau arfordirol naturiol rhagorol sy'n cael eu tanddefnyddio"***, ac amcan penodol o ***"Gynyddu potensial busnes a chyflogaeth yr arfordir"*****.**

Yn ystod yr astudiaeth ddichonoldeb aeth tîm WATO ati i wneud y canlynol:

i. Edrych ar fathau niferus o weithgarwch mewn lleoliadau amrywiol:
ii. Darparu Asesiad Effaith yn manylu pam fod, neu nad yw, gweithgareddau'n addas, gan ystyried natur yr arfordir (gan gynnwys diogelwch, daeareg a bioamrywiaeth), llanwau, mynediad, cyfleusterau ar bob safle, y caniatadau neu'r trwyddedau gofynnol ar gyfer pob gweithgaredd a safbwyntiau rhanddeiliaid;
iii. Ystyried y gweithgareddau sy'n ategu'r ddarpariaeth bresennol i ymwelwyr mewn lleoliadau, gan ystyried y gweithredwyr presennol i sicrhau nad oes unrhyw ddadleoli;

iv. Y gweithgareddau arfaethedig sy'n ategu profiad presennol yr ymwelwyr heb ddinistrio apêl gyffredinol yr arfordir fel lle heddychlon i'w fwynhau;
v. Darparu gweledigaeth ar gyfer yr ardal, gan gynnwys gweithgareddau arfaethedig ar safleoedd allweddol posib ac astudiaethau achos damcaniaethol sy'n dangos sut byddai'r rhain yn gweithredu.

Yn ystod yr ymgynghoriad, bu tîm WATO yn ymgysylltu'n helaeth â rhanddeiliaid, sef y canlynol:

- wardeiniaid a swyddogion hawliau tramwy;
- perchnogion a rheolwyr tir (gan gynnwys y tir uniongyrchol gysylltiedig â chynnal gweithgaredd, ac anuniongyrchol gysylltiedig e.e. tir lle gellir amharu ar eu golygfa, neu lle mae llygredd sŵn, gofid i dda byw ac ati yn debygol);
- cymdeithasau tir comin a Stad y Goron;
- gweithredwyr cyfleusterau, darparwyr gweithgareddau presennol a gweithwyr gweithgarwch antur proffesiynol;
- Cyfoeth Naturiol Cymru a chyrff cyhoeddus eraill perthnasol i fioamrywiaeth a threftadaeth;
- ymwelwyr presennol;
- partïon eraill perthnasol.

Roedd y broses ymgynghori'n cynnwys y canlynol:

i. Dau ddigwyddiad ymgynghori a gwahoddwyd rhanddeiliaid perthnasol iddynt. Roedd y digwyddiadau hyn yn canolbwyntio ar bynciau penodol fel perchnogaeth tir, bioamrywiaeth, darparwyr gweithgarwch ac ati;
ii. Sawl sesiwn ymgysylltu un i un pan oedd angen edrych yn fanylach ar adrannau o'r astudiaeth;
iii. Dau arolwg: un ar gyfer rhanddeiliaid er mwyn i ni ddeall mwy am y ddarpariaeth o weithgarwch ar hyd yr arfordir ac; un ar gyfer ymwelwyr/trigolion lleol yn rhoi adborth i ni o'r digwyddiad arddangos a gwybodaeth am eu barn ar dwristiaeth gweithgarwch yn yr ardal;
iv. Cyswllt parhaus â'r tîm CGC.

Mae tîm WATO, drwy ymgysylltu â phob parti sydd â diddordeb, wedi cwblhau ymchwiliad manwl i beth sy'n ymarferol mewn perthynas â'r ddarpariaeth antur (yr amrywiaeth o weithgareddau a chyfleoedd busnes) y gellir ei cynnal yn y Fro wledig, gan gynnwys ar hyd arfordir Bro Morgannwg. Mae'r astudiaeth yn nodi amrywiaeth o argymhellion clir fesul cam (tymor byr, canolig a hir) i dîm Cymunedau Gwledig Creadigol (CGC) Bro Morgannwg ystyried sut a phryd i'w gweithredu yn unol â'u Strategaeth Ddatblygu Leol gyfredol. Mae'r argymhellion wedi'u strwythuro mewn ffordd a fydd yn galluogi i CGC flaenoriaethu ei raglen waith yn ystod y 5 mlynedd nesaf.

## Tabl Cynnwys

*i. Crynodeb gweithredol 2*

*ii. Tabl Cynnwys 4*

1. Cyflwyniad 5
2. Asesiad lleoliad effaith gychwynnol 7
3. Ymgysylltu i ymgynghori 29
4. Digwyddiad arddangos 41
5. Arolwg ymwelwyr Antur Untro 59
6. SWOT ac asesiad lleoliad ôl effaith 62
7. Argymhellion 83
8. Persbectif 89
9. Costau dynodol 94
10. Canlyniadau hyd yma 95
11. Cyfleoedd cyllido 96
12. Casgliad 100

# 1. Cyflwyniad

Mae twristiaeth antur yn farchnad arbenigol gynyddol yn y DU, sy'n cynnwys profiadau archwilio a theithio, a bydd angen sgiliau, gwybodaeth ac arbenigedd ychwanegol efallai. Mae trigolion lleol ac ymwelwyr fel ei gilydd yn chwilio am brofiadau 'llai cyffredin' neu 'ffyrdd y teithiwyd llai arnynt'. Yn ôl y Gymdeithas Masnach Teithio Antur, gall teithio antur fod yn unrhyw weithgaredd twristaidd sy'n cynnwys gweithgarwch corfforol, cyfnewid diwylliannol a chyswllt â byd natur.

Efallai y bydd twristiaid antur eisiau camu y tu allan i'r hyn sy'n gyfforddus iddynt a phrofi diwylliannau newydd neu gymryd rhan mewn gweithgarwch a all gynnwys rhywfaint o risg, real neu ymddangosiadol. Gall hyn gynnwys gweithgareddau fel mynydda, cerdded mynyddoedd, beicio mynydd, syrffio, rafftio, caiacio, gwifren wib, paragleidio, archwilio, arforgampau, rhwyf-fyrddio yn sefyll a dringo creigiau, ond gweithgarwch twristiaeth araf hefyd, fel archwilio pyllau creigiog a theithiau natur.

Diffinnir y **"Gweithgareddau"** fel campau antur a gallant gynnwys, ymhlith pethau eraill, dringo creigiau, arforgampau, canŵio, caiacio, gwyntsyrffio, syrffio, rhwyf-fyrddio yn sefyll, hwylio, pysgota, barcud-syrffio, deifio a snorcelu. Byddant yn cynnwys y canlynol:

- gweithgareddau y gellir cymryd rhan ynddynt fel hamdden yn unigol; a
- gweithgareddau grŵp y gellir eu cyflwyno fel menter fasnachol.

Diffinnir **"Yr Arfordir"** at bwrpas yr astudiaeth hon fel traethau, clogwyni a'r môr, gydag ystyriaeth i'r lleoliad ehangach wrth benderfynu ynghylch pa mor ymarferol neu apelgar yw gweithgaredd, e.e. maes parcio, toiledau, ystafelloedd newid, caffis a llefydd o ddiddordeb. Mae'r arfordir sy'n rhan o'r gwaith hwn yn ymestyn o Aberogwr i Drwyn Larnog ym Mro Morgannwg, ond yn eithrio arfordir y Barri a Phenarth.

Hefyd, o ran eglurder, mae'n werth tynnu sylw at ambell derm arall sydd i'w gweld yn yr adroddiad:

**"Parcio a Chwarae"** – safle gweithgaredd sengl gyda mynediad hwylus a maes parcio addas

**"Cysyniad Hwb Gweithgarwch/Hwb Antur a Sbardun(au)"** – yr Hwb fyddai'r pwynt canolog lle mae llawer o'r seilwaith yn bodoli, os nad y cyfan – lleoliad cyfarfod a chyfarch gyda chaffi/bwyty, toiledau, cawodydd a chyfleusterau newid ac ati, a'r Sbardun(au) fyddai'r lleoliadau lloeren lle mae seilwaith cyfyngedig yn bodoli ond byddai'n lleoliad delfrydol ar gyfer cynnal gweithgaredd(au).

Mae Strategaeth Ddatblygu Leol y CGC yn nodi bod gan Fro Morgannwg ***"Asedau arfordirol naturiol rhagorol sy'n cael eu tanddefnyddio"***, ac amcan penodol o ***"Gynyddu potensial busnes a chyflogaeth yr arfordir"***.



Southerndown

Pwrpas yr astudiaeth hon a'r digwyddiad arddangos yw dangos beth sy'n ymarferol mewn perthynas ag amrywiaeth eang o weithgareddau a chyfleoedd busnes y gellir eu cynnal ar hyd yr arfordir, yn bennaf i ddenu darparwyr gweithgarwch i'r ardal.

Dyfarnwyd cyfle i Sefydliad Twristiaeth Antur Cymru (WATO) gyflwyno'r astudiaeth ddichonoldeb yn dilyn cyflwyniad llwyddiannus. Mae WATO yn fforwm cenedlaethol sydd wedi'i sefydlu i gysylltu sefydliadau'r sector awyr agored yng Nghymru, gyda'r nod o rannu arferion gorau ar draws y sector addysg agored yng Nghymru. Mae WATO yn gweithredu'n rhanbarthol drwy dri sefydliad aelodaeth craidd, Eryri Bywiol, Grŵp Darparwyr Gweithgarwch Awyr Agored De Cymru a Fforwm Arfordirol Sir Benfro, ac fe'i cydlynir gan ei Gadeirydd, Paul Donovan. Hefyd, mae gan WATO sawl aelod arsylwi, gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), Chwaraeon Cymru a sefydliad Croeso Cymru.

Amcan cyffredinol WATO yw cefnogi datblygiad cynaliadwy'r sector gweithgarwch antur ledled Cymru. Hamdden gynaliadwy yw'r glud sy'n cysylltu'r tri grŵp ac mae gan bob un Siarter Amgylcheddol, dogfen sy'n hybu hamdden awyr agored gyfrifol y mae'r darparwyr gweithgarwch awyr agored yn y tair ardal yn cael eu hannog i ymrwymo iddi. Drwy gyfrwng y Siarter Amgylcheddol, mae gan bob ardal fecanwaith i weithio'n uniongyrchol gyda darparwyr gweithgarwch awyr agored drwy gynnig llwyfan ar gyfer hyfforddiant y sector, digwyddiadau, fforwm ar gyfer codi unrhyw broblemau yn y sector a monitro lleoliadau gweithgarwch awyr agored; y cyfan i sicrhau bod gweithgareddau awyr agored yn cael eu datblygu'n gynaliadwy ledled Cymru. Mae WATO yn bwynt mynediad i'r sector awyr agored gan gyrraedd mwy na 1000 o fusnesau gweithgarwch awyr agored a hyfforddwyr awyr agored llawrydd ledled Cymru.

Mae profiad a gwybodaeth fanwl y tri grŵp yn rhoi hyder i'r prosiect y bydd y gweithgareddau sydd wedi'u datgan fel rhai priodol ar hyd Bro Morgannwg yn cael eu datblygu mewn harmoni gyda'r

dirwedd ac yn parchu'r defnyddwyr a'r gweithrediadau eraill sydd ar waith ar hyn o bryd ar hyd yr arfordir.

# 2. Asesiad Lleoliad Effaith Gychwynnol

Yn dilyn y cyfarfod cyntaf ar 2il Hydref 2018, cwblhawyd archwiliad lleoliadau pen desg er mwyn gweld pa leoliadau ar hyd arfordir y Fro wledig oedd yn cynnal gweithgareddau antur ar y pryd a pha leoliadau eraill fyddai'n briodol ar gyfer gweithgareddau o'r fath. Ystyriodd yr archwiliad pen desg sawl lleoliad ar hyd yr arfordir ac yn y Fro wledig i ddechrau. Fodd bynnag, wrth weithredu'r meini prawf cytunedig (natur yr arfordir [gan gynnwys diogelwch, daeareg a bioamrywiaeth], effaith lanwol, mynediad, cyfleusterau/seilwaith, y caniatadau, trwyddedau gofynnol), cafodd y lleoliadau eu didol i 16, gan ystyried Llwybr Arfordir Cymru, sy'n rhedeg ar hyd Bro Morgannwg gyfan, a Llynnoedd a Pharc Gwledig Cosmeston, sydd â'u maes parcio, eu canolfan ymwelwyr a'r Pentref Canoloesol i gyd yn rhan o'r Fro wledig, a'r Barri, gan fod ei dociau wedi'u datgan fel yr unig fynedfa/allanfa bosib ar gyfer RIBs a chychod tebyg.

Nodir fod Bro Morgannwg yn pennu ei hun fel cyrchfan newydd ar gyfer 'twristiaeth araf', sy'n cynrychioli sector twf posib. Er y bydd yr astudiaeth ddichonoldeb hon yn ystyried y ddarpariaeth bosib o weithgarwch antur a pha mor gyflym y gall rhywun gael profiad o gyrchfan, gall y gweithgareddau sy'n cael eu hystyried fel rhai adrenalin uchel efallai ddarparu cyfleoedd ar gyfer twristiaeth araf. Mae arforgampau fel esiampl yn cynnwys dringo, sgramblo a neidio i'r môr. Mae hefyd yn cynnig cyfle i weld yr arfordir yn agos a phrofi bywyd gwyllt, daeareg a hanes yr amgylchedd arfordirol.



Syrffio yn y Fro

### 2.1 Y Lleoliadau a Ystyriwyd

Dyma'r 16 o safleoedd a ystyriwyd:

2.1.1 Llwybr Arfordir Cymru – Arfordir Treftadaeth – yn eiddo rhannol i Stad Dunraven

2.1.2 Afon Ewenni / Afon Ogwr – tir yn eiddo i Stad Dunraven

2.1.3 Aberogwr – rhai ardaloedd yn eiddo i Stad Dunraven

2.1.4 Pant y Cwteri, Pant Norton a Phant Mari Flanders

2.1.5 Chwarel Pont Alun a Chwarel Pant

2.1.6 Pant y Slade a Choed Slade – yn eiddo i Stad Dunraven

2.1.7 Bae a Pharc Dunraven (Southerndown) – yn eiddo i Stad Dunraven

2.1.8 Yr As Fawr a Chwm As

2.1.9 Trwyn yr As a Chae'r Eglwys

2.1.10 Sant Donat (Coleg Iwerydd)

2.1.11 (a a b) Traeth Llanilltud Fawr a Chwm Colhuw a Thref Llanilltud Fawr

2.1.12 Y Leys – Bae Limpet, Gorllewin a Dwyrain Aberddawan

2.1.13 Trwyn y Rhws

2.1.14 Y Barri, Ynys y Barri a Dociau'r Barri

2.1.15 Trwyn Larnog i Drwyn Hayes – Bae Sili, Ynys Sili a Bae Ffynnon y Santes Fair

2.1.16 Llynnoedd a Pharc Gwledig Cosmeston

**DS.** Gall y lleoliadau a ystyrir fod yn destun caniatadau perchnogion tir a thrwyddedau Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC).

Ystyriodd yr asesiad effaith o bob lleoliad y canlynol:

- ➢ Gweithgareddau presennol;
- ➢ Gweithgareddau/cyfleoedd posib;
- ➢ Mynediad a gwybodaeth berthnasol arall.

Roedd canfyddiadau'r asesiad effaith yn sail i ymgysylltu yn y dyfodol drwy ymgynghoriadau, arolygon a'r digwyddiad arddangos, ac felly nid ydynt yn cynnwys unrhyw wybodaeth a gasglwyd ar ôl yr asesiad.

### 2.1.1 Llwybr Arfordir Cymru – Arfordir Treftadaeth





**Disgrifiad**

Mae Llwybr Arfordir Cymru yn rhedeg ar hyd yr ardal dan sylw i gyd ac yn darparu mynedfeydd ac allanfeydd i lawer o leoliadau diddorol.

**Gweithgareddau Presennol**

Mae'n ymddangos mai gweithgareddau **cerdded** a **rhedeg** yw'r prif weithgareddau antur, gyda **physgota** hefyd yn digwydd mewn sawl lleoliad ar hyd y llwybr hwn. Mae'n ymddangos bod nifer bach o weithredwyr, gan gynnwys darparwyr llety, yn cynnig codi a gollwng twristiaid/ymwelwyr a/neu eu bagiau mewn lleoliadau y cytunwyd arnynt.

**Gweithgareddau/Cyfleoedd Posib**

Mae'n ymddangos bod cyfle gwych i wella'r ddarpariaeth bresennol, i gynnwys teithiau cerdded/rhedeg tywys/hunan-dywys, yn gysylltiedig â darpariaeth fwy gweladwy o godi a gollwng, yn ogystal â sefydlu gwell trafnidiaeth gyhoeddus. Gall y rhain gael eu gwella ymhellach drwy gysylltu â'r amrywiaeth o ddarparwyr llety ar hyd yr arfordir – Gwely a Brecwast, Gwestai, safleoedd Glampio/Gwersylla ac ati i gwblhau'r pecyn.

Yn ychwanegol at y cyfleoedd sydd wedi'u nodi ar hyd y llwybr syth hwn, gall arfordir Bro Morgannwg elwa hefyd o welliannau i'w seilwaith ar gyfer llwybrau cylch gyda llwybrau/traciau sy'n cael eu cynnal a'u cadw'n well a gydag arwyddion gwell, fel bod ymwelwyr yn gallu ystyried effaith amgylcheddol cyfleoedd trafnidiaeth ychwanegol. Mae gwefan Ymweld â'r Fro yn cyfeirio at Fro Morgannwg fel *'lle gwych i fynd i gerdded':* https://www.visitthevale.com/en/Be-Inspired/Walking/Vale-Trails/Walking-in-the-Vale.aspx

**Mynediad/Gwybodaeth Arall**

Ceir sawl pwynt mynediad cyhoeddus ar hyd y llwybr syth hwn, gyda pharcio addas.

## 2.1.2 Afon Ewenni / Afon Ogwr





**Disgrifiad**

Mae Afon Ewenni yn llifo drwy Ogwr ac yn ymuno ag Afon Ogwr tua 400m i'r de-orllewin o Gastell Ogwr a thua 500m i'r gogledd-ddwyrain o'r Gwaith Carthffosiaeth, gan lifo yn y diwedd i'r môr yn Aberogwr tua 2.5km i lawr yr afon. Dylanwedir ar yr afonydd gan lanwau y tu hwnt i Gastell Ogwr, sy'n darparu cyfle a her.

**Gweithgareddau Presennol**

Mae gweithgareddau **chwaraeon rhwyfo** (**caiacio, canŵio agored, rhwyf-fyrddio yn sefyll** [**SUP**]) yn cael eu cynnal yma ond heb unrhyw drefniadau ffurfiol gyda pherchennog y tir.

**Gweithgareddau/Cyfleoedd Posib**

Mae'r afon yn elwa o amrediad llanw Môr Hafren sy'n ymestyn y tu hwnt i Gastell Ogwr ac sydd â photensial gwych ar gyfer gwella a ffurfioli'r gweithgareddau chwaraeon rhwyfo rhwng Castell Ogwr ac Aberogwr (yn amodol ar ei amrediad llanw dyddiol a'r caniatadau angenrheidiol gan berchnogion tir). Pe bai modd creu mwy o ddyfnder i'r darn o'r afon wrth Gastell Ogwr, byddai mwy o hyblygrwydd ar gyfer ei ddefnydd, yn enwedig ar lanw isel, gan roi cyfle am safle 'parcio a chwarae' ar gyfer datblygu sgiliau dŵr gwastad. Hefyd mae'r castell yn cynnig elfen hanesyddol/ ddiwylliannol i'r defnyddwyr rhwng y sesiynau gweithgarwch.

**Mynediad/Gwybodaeth Arall**

Mynedfa/Allanfa i ac o Afon Ewenni ym maes parcio Castell Ogwr (yn amodol ar lifogydd, yr amrediad llanw dyddiol a chaniatadau perchennog y tir).

Mynedfa/Allanfa i ac o Afon Ogwr yn bosib hefyd ym maes parcio Tŷ Portobello (yn amodol ar ganiatadau perchennog y tir).

Gallai Mynedfa/Allanfa yn y ddau leoliad yma alluogi gweithgareddau chwaraeon rhwyfo i ac o'r môr a'r traeth yn Aberogwr.

### 2.1.3 Aberogwr





**Disgrifiad**

Mae Aberogwr i'r dwyrain o Afon Ogwr ac ym mhen gorllewinol Arfordir Treftadaeth Morgannwg. Mae'r traeth yn dywodlyd ar lanw isel, gyda rhai cerrig mân a chlogwyni isel o galchfaen carbonifferaidd yn gefn iddo.

**Gweithgareddau Presennol**

**Syrffio, caiacio, arforgampau, dringo creigiau, SUP, cerdded, archwilio pyllau creigiog.**
Mae clwb achub bywyd syrff yn gweithredu ar draeth Aberogwr ar hyn o bryd.
Ymhellach i'r de-ddwyrain yn West Farm mae dechrau safle dringo creigiau hamdden. Mae cofnod da am yr ardal yma yn holl Ganllawiau Dringo Creigiau De Ddwyrain Cymru fel *'un o'r clogwyni môr pwysicaf ym Mhrydain. Gwyllt, serth, cyffrous ac yn cael ei danbrisio'n ddifrifol,'* ond nid yw'n lleoliad addas ar gyfer unrhyw ddarparwr gweithgarwch masnachol arferol.

**Gweithgareddau/Cyfleoedd Posib**

Mae'n ymddangos bod y clwb achub bywyd syrff angen datblygu ei gyfleusterau presennol. Gallai datblygiadau o'r fath wella'r ddarpariaeth bresennol o weithgarwch ymhellach. Mae lleoliad traeth o'r fath yn addas ar gyfer **syrffio bwrdd, byrddio corff, yr holl weithgareddau chwaraeon rhwyfo – caiacio môr, gan gynnwys caiacio eistedd-ar-y-top, caiacio syrff a SUP** a gallai fod yn gyfle delfrydol i fusnesau antur gynnig gweithgareddau o'r fath a/neu ddarparu offer i'w logi i ymwelwyr.
Ym mhen deheuol y traeth ym Mwlch y Gro a'r Creigiau Duon, efallai bod cyfleoedd am weithgareddau **Bowldro** ac **Arforgampau**. Gallai cyfuno gweithgareddau o'r fath gynnig dyddiau antur **Teithio ar Lefel y Môr** 'unigol' ar lanw isel. Mae gan y lleoliad botensial i fod yn **Hwb** gweithgarwch gwych.

**Mynediad/Gwybodaeth Arall**

Mae maes parcio ar gael (am bris). Ceir mynediad i'r traeth ac i Afon Ogwr drwy'r maes parcio. Er nad oes cyfyngiadau ar fynediad y cyhoedd, mae unrhyw ddarpariaeth o weithgarwch masnachol yn amodol ar ganiatadau perchennog y tir. Y gweithgareddau'n amodol ar yr amrediad llanw dyddiol.

## 2.1.4 Pant y Cwteri, Pant Norton a Phant Mari Flanders



**Disgrifiad**

I'r de-ddwyrain o Dŷ Portobello mae llwybr marchogaeth sy'n arwain i'r comin a'r tir pantiog ym Mhant y Cwteri, Pant Norton a Phant Mari Flanders, a'r tu hwnt i'r ardal yma mae Saint-y-brid.

**Gweithgareddau Presennol**

Fel llwybr marchogaeth, mae'r ardal hon yn galluogi mynediad ar gyfer gweithgareddau **cerddwyr, beicwyr** a **marchogaeth ceffylau**. Mae rhywfaint o weithgarwch **beicio mynydd** ar lefel isel yn digwydd yma. Mae dwy stabl geffylau gerllaw ac mae'n ymddangos eu bod yn defnyddio'r ardal hon, a cherddwyr hamdden hefyd.

**Gweithgareddau/Cyfleoedd Posib**

Byddai'r mynediad ymddangosiadol hwylus i'r lleoliad hwn, ynghyd â'r matrics o lwybrau, yn awgrymu bod potensial i wella'r ddarpariaeth bresennol a datblygu'r llwybrau amrywiol ac ati ymhellach ('arwyddbyst' clir a 'graddio' llwybrau), gan roi gwell darpariaeth ar gyfer hyfforddiant a datblygiad beicio mynydd, yn ogystal â chyfrwng i symud rhwng safleoedd/lleoliadau gweithgarwch antur ar hyd yr arfordir. Byddai hyn yn ei dro'n darparu mwy o gyfleoedd ar gyfer y stablau marchogaeth ceffylau yn lleol, yn ogystal â chyfleoedd cerdded.

**Mynediad/Gwybodaeth Arall**

Mae lle parcio ym Maes Parcio Tŷ Portobello, gyda mynediad uniongyrchol gyferbyn. Gellid cael cyfleoedd eraill ar gyfer mynediad o Saint-y-brid, Aberogwr a Southerndown.

## 2.1.5 Chwarel Pont Alun a Chwarel Pant









**Disgrifiad**

Wedi'u lleoli ar hyd y B4265 rhwng Ogwr a Saint-y-brid, mae'r ddau leoliad yma'n eiddo preifat ar hyn o bryd.

**Gweithgareddau Presennol**

Ar hyn o bryd nid oes unrhyw weithgareddau'n cael eu cynnal yn yr un o'r ddau leoliad yma gan eu bod wedi'u rhestru fel safleoedd chwarelu gweithredol sy'n cael eu defnyddio at ddibenion diwydiannol amrywiol.

**Gweithgareddau/Cyfleoedd Posib**

Yn ôl canllaw dringo De Ddwyrain Cymru, yn Chwarel Pant *'mae'r brif wal ar y dde yn un o'r haenau fertigol mwyaf trawiadol o galchfaen yn y wlad … Mae'n graig ddanheddog naturiol yn bennaf'.* Yn ôl Clwb Mynydda De Cymru, '*mae llawer o gwmpas ar gyfer datblygu os sicrheir mynediad ryw dro yn y dyfodol'.* Hefyd, mae gan y safleoedd hyn botensial mawr ar gyfer gweithgarwch **dringo creigiau**, gallai gweithgareddau cysylltiedig fod yn bosib, a hefyd mae gan y safle botensial i ddod yn **'Hwb Gweithgarwch'** neu **'Sbardun'.**

**Mynediad/Gwybodaeth Arall**

Er bod y ddau safle wedi'u rhestru fel safleoedd chwarelu gweithredol, rydym yn deall nad oes chwarelu'n digwydd mwyach ond maent yn eiddo preifat o hyd. Hefyd rydym yn deall bod Cyngor Mynydda Prydain (BMC) wedi mynegi diddordeb yn y chwareli hyn yn y gorffennol wrth berchnogion y chwareli, gyda'r bwriad o'u prynu. Os daw hyn yn opsiwn ryw dro, mae gan y cwmpas ar gyfer eu datblygu botensial i fod yn 'berl fechan' y Fro ar gyfer **dringo creigiau** a gweithgareddau **'via ferrata'**.

### 2.1.6 Pant y Slade a Choed Slade





**Disgrifiad**

Y cwm sy'n rhedeg i'r gogledd-ddwyrain o Ganolfan Dreftadaeth yr Arfordir ym Mae Dunraven a Choed Slade

**Gweithgareddau Presennol**

Mae 'cyfeirbost' yn pwyntio i fyny at y cwm felly mae arwydd bod llwybr yn bodoli, ond nid ydym yn gwybod faint o ddefnydd sy'n cael ei wneud o'r llwybr. Mae sawl un o 'Lwybrau'r Fro' yn mynd heibio i Fae Dunraven a Chanolfan Dreftadaeth yr Arfordir, yn benodol Tair Taith Dunraven sy'n digwydd ym Mhant y Slade a Choed Slade gyda theithiau cylch mwy.

**Gweithgareddau/Cyfleoedd Posib**

Yn agos at Ganolfan Dreftadaeth yr Arfordir, mae'r coed yn ymddangos yn addas iawn ar gyfer **llwybrau natur tywys a hunan-arwain** lle gellid cynnwys gweithgareddau fel **crefft y gwyllt** ac **ysgolion y fforest**. Gallai datblygu llwybr/trac cylch llai gan gynnwys gweithgareddau ychwanegol wella darpariaeth Canolfan Dreftadaeth yr Arfordir ymhellach i ysgolion BM ac ymwelwyr fel ei gilydd. Mae gwefan Ymweld â'r Fro yn cyfeirio at Fro Morgannwg fel *'lle gwych i gerdded'* ac mae'n cyfeirio at yr ardal yma fel rhan o Lwybrau'r Fro:
https://www.visitthevale.com/en/Be-Inspired/Walking/Vale-Trails/Walking-in-the-Vale.aspx

**Mynediad/Gwybodaeth Arall**

Mae maes parcio ar gael ym Mae Dunraven (am bris) a/neu yng Nghanolfan Dreftadaeth yr Arfordir. Efallai y bydd mynediad i'r cyhoedd ar gyfer taith gylch yn amodol ar ganiatadau perchennog y tir.

## 2.1.7 Bae a Pharc Dunraven (Southerndown)





**Disgrifiad**

Stad breifat sy'n cael ei rheoli gan asiant ar ran perchnogion y tir. Mae Bro Morgannwg yn denantiaid yng Nghanolfan Dreftadaeth yr Arfordir ym Mharc Dunraven, sydd â cyfleusterau toiled a chawod, yn ogystal â chyfleusterau/ ystafelloedd dan do a 4 'safle dan glo' ar gyfer eu defnyddio gan fusnesau posib (ffioedd yn berthnasol). Dugiaeth Lancaster sy'n rheoli'r blaendraeth ar ran y 'Goron'.

**Gweithgareddau Presennol**

O ran hamdden, mae'n ymddangos bod gweithgareddau **syrffio, chwaraeon rhwyfo, dringo creigiau, pysgota** ac **archwilio pyllau creigiog** yn cael eu cynnal yma. Hefyd mae'r traeth/clogwyni i'r gorllewin o'r Bae yn cynnig cyfleoedd i wella gwybodaeth ddaearegol ymwelwyr. Yn fasnachol, mae'n ymddangos bod darparwyr gweithgarwch yn defnyddio'r lleoliad ar gyfer **syrffio, chwaraeon rhwyfo** a **dringo creigiau**, er nad ydynt yn gweithredu eu busnes yn uniongyrchol o'r lleoliad.

**Gweithgareddau/Cyfleoedd Posib**

Gallai'r 'safleoedd dan glo' yng Nghanolfan Dreftadaeth yr Arfordir alluogi busnesau (darparwyr gweithgarwch **syrffio/chwaraeon rhwyfo/dringo creigiau** a/neu fusnesau llogi) sefydlu yma, er byddai'n rhaid cael caniatadau perchnogion y tir. Mae'r llithrfa newydd yn cynnig gwell mynediad i'r traeth a'r môr ar gyfer cychod mwy (RIBs), yn amodol ar gyflwr ac amrediad y llanw yn ddyddiol a chaniatadau perchnogion y tir.

Gellid datblygu cyfleoedd **Dringo Creigiau** yn Nhrwyn y Gwrachod. Mae'n llanwol ac yn amodol ar yr amrediad llanw dyddiol. Fe'i nodir yng Nghanllaw De Ddwyrain Cymru fel *'un o glogwyni chwaraeon mwyaf nodedig yr ardal'.*

Yn ôl Clwb Esgyn De Ddwyrain Cymru, dyma leoliad unigryw ar gyfer **Paragleidio**, ond nid yw'r caniatadau wedi'u dyfarnu ar hyn o bryd gan y perchnogion tir. Safle o ddiddordeb daearegol gyda llawer o gyfle i gael sylw pellach.

**Mynediad/Gwybodaeth Arall**

Mae lle parcio ym Mae Dunraven (am bris) a/neu Ganolfan Dreftadaeth yr Arfordir. Gyda'r cyfleusterau sydd ar gael yn y Ganolfan Dreftadaeth, gallai hwn fod yn 'Sbardun' antur addas iawn ar gyfer gweithgareddau antur, yn amodol ar ganiatadau perchnogion tir.

## 2.1.8 Yr As Fawr a Chwm As





**Disgrifiad**

Mae Yr As Fawr yn llecyn hamdden enwog i syrffwyr. Mae Cwm As yn llwybr natur/ daearegol rhagorol i ac o'r llyfndiroedd tonnau.

**Gweithgareddau Presennol**

Ar hyn o bryd mae gweithgareddau **syrffio** a **physgota** hamdden yn cael eu cynnal yn y lleoliad hwn. Hefyd, mae llawer o ymwelwyr yn defnyddio ac yn mwynhau teithiau natur hunan-dywys ar hyd Cwm As i'r llyfndiroedd tonnau lle mae **archwilio pyllau creigiog** yn digwydd.

**Gweithgareddau/Cyfleoedd Posib**

Nid yw Cwm As a'r As Fawr yn lleoliadau eithriadol hygyrch ac mae ganddynt draeth trawiadol ond diarffordd sy'n unigryw o ran ei ddarpariaeth natur/ddaearegol. Gall y potensial twristiaeth araf yma elwa o'r adnoddau sydd ar gael sy'n cynorthwyo ymwelwyr i fanteisio ar elfennau unigryw y lleoliad h.y. ffosilau a daeareg: https://www.valeofglamorgan.gov.uk/en/enjoying/Coast-and-Countryside/Heritage-Coast/Fossils-and-Geology.aspx .

**Mynediad/Gwybodaeth Arall**

Mae'r lle parcio ym Maes Parcio Traeth Yr As Fawr (am bris). Hefyd mae Maes Gwersylla'r Arfordir Treftadaeth yn lleoliad gwych ar gyfer cael mynediad i Gwm As.

## 2.1.9 Trwyn yr As a Chae'r Eglwys





**Disgrifiad**

Mae'n ymddangos bod perchnogaeth y tir yn y fan yma'n amwys ond mae'n ymddangos bod y ddarpariaeth o faes parcio a gwersylla'n cael ei reoli gan reolwr tir. Mae ystafell de a thoiledau ar gael yma. Y tu hwnt i Drwyn yr As mae Goleudy Trwyn yr As ac ochr yn ochr â hwn mae unedau llety hunanarlwyo, sy'n cael eu cynnig gan Trinity House.

**Gweithgareddau Presennol**

Ar hyn o bryd, mae gweithgareddau **cerdded, archwilio pyllau creigiog**, **gwylio'r machlud** a **syllu ar y sêr** yn digwydd yma.

**Gweithgareddau/Cyfleoedd Posib**

Mae'n ymddangos bod y llwybr i fyny ac i lawr Nant Marcross yn cynnig cyfle gwych am **lwybr natur** (https://naturedetectives.woodlandtrust.org.uk/naturedetectives/), tra bo'r ardal o amgylch Trwyn yr As a Chae'r Eglwys yn cynnig diddordeb **hanesyddol** (daearwaith a chaer - https://www.visitthevale.com/Documents/More-to-the-Vale-Guides/A-Potted-History.pdf) a **daearegol**. (https://www.valeofglamorgan.gov.uk/en/enjoying/Coast-and-Countryside/Heritage-Coast/Fossils-and-Geology.aspx).

Yn ôl pob sôn, dyma un o'r lleoliadau gorau ym Mro Morgannwg i **eistedd, gwylio a thynnu llun y machlud** (https://improvephotography.com/45331/sunset-photography-camera-settings-beginners/) felly cyfle gwych i arddangos yr arfordir nes ei bod yn tywyllu. Efallai mai dyma'r ardal orau o ran y lefel isaf o lygredd ar hyd yr arfordir, felly gellid ei hybu fel lleoliad **awyr dywyll** (https://www.nightblight.cpre.org.uk/resources).

**Mynediad/Gwybodaeth Arall**

Mae lonydd culion yn arwain at faes parcio mawr iawn (ffioedd yn berthnasol). Gall faniau gwersylla a chartrefi ar olwynion barcio yma dros nos (ffioedd yn berthnasol).

## 2.1.10 Sant Donat (Coleg Iwerydd)





**Disgrifiad**

Mae gan bentrefan Sant Donat hawl dramwy gyhoeddus (PRoW) i lwybr yr arfordir ar ei ochr orllewinol a PRoW ar yr ochr ddwyreiniol i'r eglwys. Nid oes mynediad cyhoeddus o Sant Donat, y tu hwnt i'r eglwys, i ac o lan y môr drwy Goleg Iwerydd.

**Gweithgareddau Presennol**

Mae Coleg Iwerydd, drwy Awyr Agored Iwerydd, yn cynnig amrywiaeth lawn o weithgareddau antur, yn bennaf ar gyfer ei fyfyrwyr, gyda llawer ohonynt yn digwydd o'i lithrfa. Hefyd, mae Coleg Iwerydd yn darparu gwersylloedd haf i grwpiau'n ymweld.

**Gweithgareddau/Cyfleoedd Posib**

Efallai y bydd Coleg Iwerydd yn fodlon ystyried gweithio mewn partneriaeth â Bro Morgannwg i greu llwybr cylch hygyrch rhwng Sant Donat a Llanilltud Fawr, gyda mynediad cytunedig drwy dir Coleg Iwerydd (ar lwybr penodol). Byddai hwn yn sicr yn cysylltu coetir naturiol â'r amgylchedd arfordirol ac yn cynnwys hanes Eglwys Sant Donat. Gyda'i leoliad a'r adnoddau/cyfleusterau sydd ar gael, gallai Coleg Iwerydd fod yn lleoliad gwych ar gyfer Hwb gweithgarwch antur canolog hefyd.

**Mynediad/Gwybodaeth Arall**

Mae mynediad i dir Coleg Iwerydd yn amodol ar ganiatadau yn unig.

Mae lle parcio cyfyngedig ar ochr y ffordd a dim cyfleusterau ar wahân i'r rhai yng Ngholeg Iwerydd.

## 2.1.11 a. Traeth Llanilltud Fawr a Chwm Colhuw





**Disgrifiad**

Mae'r traeth yn Llanilltud Fawr tua 2km o ganol y dref. Mae'n cynnig mynediad hwylus i'r traeth a llwybr yr arfordir o'r maes parcio ar lan y môr (am ddim). Mae yma gaffi, toiledau a chanolfan y clwb achub bywyd.

**Gweithgareddau Presennol**

Mae'r traeth yn lleoliad hamdden enwog i syrffwyr. Hefyd, mae yma gyfleoedd **pysgota, archwilio pyllau creigiog, nofio dŵr agored** a **cherdded** i ddefnyddwyr hamdden. Mae nifer o 'Lwybrau'r Fro' yn cynnwys traeth a thref Llanilltud Fawr.

**Gweithgareddau/Cyfleoedd Posib**

Mae ymestyn y chwaraeon dŵr yma'n ymddangos yn gyfyngedig, o ystyried y math o syrffio, er bod llithrfa i gynorthwyo gyda mynediad.
Ar wahân i'r ddarpariaeth hamdden, mae gan y lleoliad botensial i wella a datblygu ymhellach y **llwybr natur/daearegol** diolch i'r clogwyni a'r llyfndiroedd tonnau a'r cwm sy'n arwain at y traeth. Gallai datblygiad posib gwell cysylltiadau rhwng y dref a'r traeth (llwybr troed/beicio hygyrch), heb orfod mynd ar hyd lonydd culion, yn ogystal â datblygu'r seilwaith glan y môr a'i ymddangosiad h.y. maes parcio, caffi, cawodydd a thoiledau, wella profiad yr ymwelwyr ymhellach. Gallai defnyddio adnoddau gan fudiadau fel Coed Cadw: https://naturedetectives.woodlandtrust.org.uk/naturedetectives/ ac Ysgolion y Fforest / Traeth: https://www.forestschools.com/products/beach-schools-leader-training?variant=17353755852851 helpu i ddod â'r lleoliad yn fyw.

**Mynediad/Gwybodaeth Arall**

Mae maes parcio ar lan y môr (am ddim).
Ceir mynediad i lan y môr ar hyd llwybr troed cyhoeddus naill ai gan ddefnyddio Llwybr Arfordir Cymru o'r dwyrain i'r gorllewin, neu'r llwybrau troed sy'n cysylltu'r traeth â'r dref, ond gall dod o hyd i'r llwybr fod yn heriol mewn mannau.

### 2.1.11 b. Tref Llanilltud Fawr








**Disgrifiad**

Mae tref Llanilltud Fawr mewn lleoliad canolog ar hyd arfordir Bro Morgannwg ac mae ganddi seilwaith ffordd a rheilffordd da.

**Gweithgareddau Presennol**

Dim.

**Gweithgareddau/Cyfleoedd Posib**

Oherwydd ei lleoliad canolog yn y Fro a'i chysylltiadau ffordd/rheilffordd da, gallai Llanilltud Fawr gynnig **Hwb Gweithgarwch Antur** canolog ar gyfer cynnig yr holl weithgareddau, yn amodol ar sicrhau bod adeilad/lleoliad priodol ar gael. Gallai hwn ddarparu'r canlynol: gweinyddu canolog; cyfleusterau newid, toiledau a chawodydd, caffi ac ati. Hefyd gellid cludo ymwelwyr i **'Sbardunau'** gweithgarwch lle byddent yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cyn cael eu cludo'n ôl ar ddiwedd y sesiynau, gan liniaru unrhyw bwysau ychwanegol yn y lleoliadau **'Sbardun'**. Gyda dim mwy na thua 20 milltir o waith teithio, gallai cludiant o'r fath fod yn ffocws cynaliadwyedd amgylcheddol hefyd.

**Mynediad/Gwybodaeth Arall**

Mae'n hawdd cyrraedd tref Llanilltud Fawr ar ffordd a rheilffordd ac mae'n ymddangos bod digon o le parcio yma, a fyddai felly'n helpu i osgoi tagfeydd a'r effaith ychwanegol mewn **'Sbardunau' gweithgarwch** amrywiol.

## 2.1.12 Y Leys – Bae Limpet, Gorllewin a Dwyrain Aberddawan





**Disgrifiad**

Mae Bae Limpet yng Ngorllewin Aberddawan, tua 2km i'r de o Silstwn a Sain Tathan, yn agos at Orsaf Bŵer Aberddawan. Mae traeth o gerrig mân yma ac mae'n fan syrffio enwog gyda maes parcio ar lan y môr a mynediad uniongyrchol i'r môr a Llwybr Arfordir Cymru.

**Gweithgareddau Presennol**

Ar hyn o bryd, mae **syrffio** a **physgota** hamdden yn cael eu cynnal yn y lleoliad hwn, a hefyd **archwilio pyllau creigiog** a **cherdded y llwybr arfordirol/natur.**

**Gweithgareddau/Cyfleoedd Posib**

Gallai datblygu llithrfa yma gynnig cyfle am fynediad RIB i Fôr Hafren ar gyfer profiadau Reidiau RIB, ond byddai angen cofio am amrediad llanw Môr Hafren.
Mae'r Leys, ac yn arbennig Afon Ddawan yn llifo i'r môr, yn cynnig potensial ar gyfer mynediad cysgodol i'r môr mewn RIB gyda'r fornant ddofn, ond mae'n ymddangos bod hon yn fasach ar Lanw'r Gwanwyn.
Gallai'r Warchodfa Natur a'r pyllau yn Nwyrain Aberddawan gynnig safle dŵr gwastad ar gyfer gweithgareddau chwaraeon rhwyfo, ond nid oes seilwaith yn y lleoliad hwn a byddai'r mynediad yn amodol ar ganiatadau perchnogion tir. Er bod adeilad ffwrnais diffaith mawr ar y safle, byddai ei ddatblygu'n costio gormod mae'n ymddangos, ond mae'n lleoliad gwych ac yn adeilad gyda photensial enfawr.

**Mynediad/Gwybodaeth Arall**

Mae lle parcio ym Mae Limpet gyda lle parcio cyfyngedig ar ochr y ffordd ar gyfer y Warchodfa Natur yn agos at bentref Dwyrain Aberddawan. Mae mynediad ar lwybr troed i Afon Ddawan ar hyd Llwybr Arfordir Cymru o'r dwyrain neu'r gorllewin.

## 2.1.13 Trwyn y Rhws





**Disgrifiad**

Mae gan Drwyn y Rhws chwarel segur yn wynebu Môr Hafren a gyda thri llyn bach.

**Gweithgareddau Presennol**

Ar hyn o bryd, mae'n ymddangos mai dim ond **pysgota** sy'n cael ei gynnal yn y lleoliad yma, er bod yr arwyddion sy'n cael eu harddangos yn y lleoliad yn dynodi na chaniateir unrhyw weithgareddau, gan gynnwys pysgota.

**Gweithgareddau/Cyfleoedd Posib**

Er bod gan y safle botensial ar gyfer datblygu gweithgarwch antur cyffrous, fel gwarchodfa natur, mae'n ymddangos bod nifer o gyfyngiadau o ran ei ddatblygu, a all fod yn heriol eu goresgyn. Mae tri llyn bach yma, a byddai un yn ddelfrydol ar gyfer gweithgareddau chwaraeon rhwyfo (gan adael y ddau arall ar gyfer defnyddiau eraill); tir eang y gellid ei ddatblygu fel cylched datblygu sgiliau beicio mynydd, yn ogystal â maes parcio; wynebau clogwyni y gellid eu sefydlogi ar gyfer gweithgarwch dringo creigiau ac abseilu; mynediad i'r môr pan fo'r amodau'n briodol ar gyfer cynnydd mewn sgiliau chwaraeon rhwyfo. Hefyd, gall fod yn ymarferol datblygu cyfleuster rhaffau uchel a gwifren wib a darpariaeth llety.
Er bod gan y lleoliad botensial i fod yn **Hwb** gweithgarwch gwych, wedi'i gysgodi rhag y tywydd gwaethaf sy'n taro arfordir Bro Morgannwg, nid yw'r cyfyngiadau presennol yn caniatáu ar gyfer ystyried unrhyw ddatblygiadau yma.

**Mynediad/Gwybodaeth Arall**

Ar hyn o bryd mae'r lle parcio ar ochr y ffordd yn gyfyngedig. Mae'n hawdd cael mynediad i'r lleoliad a dim ond 5 munud ydyw o'r briffordd, o Orsaf Drenau'r Rhws ac o Faes Awyr Rhyngwladol Caerdydd.

## 2.1.14 Y Barri, Ynys y Barri a Dociau'r Barri





**Disgrifiad**

Mae tref y Barri (y fwyaf yng Nghymru) a'r ardal o amgylch wedi'u heithrio o'r astudiaeth ddichonoldeb hon am ei bod yn ardal drefol, ond maent yn werth eu nodi gan eu bod yn agos at yr holl leoliadau eraill a ystyrir a'r gweithgareddau sy'n cael eu cynnal yma ar hyn o bryd. Mae dociau'r Barri yn gartref i fad achub yr RNLI a Chlwb Iotio'r Barri.

**Gweithgareddau Presennol**

Mae dau fae yn y Barri (Bae Whitmore a Bae Jacksons) lle cynigir **nofio dŵr agored**, hyfforddiant a digwyddiadau **triathlon** a **chwaraeon rhwyfo**. Mae'n lleoliad rheolaidd ar gyfer nofwyr, triathletwyr a rhwyf-fyrddwyr lleol a chynhaliwyd y Triathlon cyntaf yma yn 2018. Mae **hwylio** a **chwaraeon rhwyfo** yn cael eu cynnal yn Nociau'r Barri hefyd.

**Gweithgareddau/Cyfleoedd Posib**

Mae'n ymddangos mai Dociau'r Barri yw'r unig leoliad ar hyd arfordir BM ar gyfer sicrhau mynediad i gychod mwy (RIBs) i arfordir y Fro. Mae sgyrsiau gyda Harbwrfeistr y Barri wedi dynodi y gallai fod yn bosib i fusnes fel **Reidiau RIB** weithredu yma (yn amodol ar amodau, caniatadau a ffioedd).

**Mynediad/Gwybodaeth Arall**

Mae Dociau'r Barri yn eiddo i Associated British Ports ac mae'r mynediad yn amodol ar ganiatadau.

Mae digon o le parcio yn y baeau ar Ynys y Barri (ffioedd yn berthnasol).

**2.1.15 Trwyn Larnog i Drwyn Hayes – Bae Sili, Ynys Sili a Bae Ffynnon y Santes Fair**



**Disgrifiad**

Mae gan Sili ei Glwb Hwylio ei hun gyda llithrfa. Ceir goferydd llanwol yn Nhrwyn Larnog ac mae rasys llanwol cryf rhwng yr arfordir ac Ynys Sili ar lanw uchel.

**Gweithgareddau Presennol**

Ar hyn o bryd, mae **pysgota, hwylio** ac **archwilio pyllau creigiog** yn digwydd yn y lleoliadau yma.

**Gweithgareddau/Cyfleoedd Posib**

Gallai'r lleoliadau hyn fod yn rhan yn sicr o ddarpariaeth bosib o **brofiad Reidiau RIB**. O ychwanegu profiad arfordir cyflawn at hyn, ac ymweld efallai ag ynysoedd Steep Holm (a reolir gan Gyngor Dinas Bryste) ac Echni (a reolir gan Gyngor Sir Caerdydd), byddai hwn yn brofiad bythgofiadwy yn sicr ac yn ffordd unigryw o archwilio'r arfordir yma. Mae profiadau o'r fath yn cael eu cynnig eisoes o Fae Caerdydd.

Ar lanw isel, byddai'n bosib cynnig **'antur arfordirol'** o amgylch Ynys Sili (a reolir gan Gyngor BM) gan fod sarn y gellir ei cherdded, i gyrraedd yr ynys (bydd cyfyngiadau llanwol yn berthnasol). Mae rhai pwyntiau hanesyddol o ddiddordeb ar yr ynys (gweddillion hen gaer) a rhai cyfleoedd **sgramblo/bowldro** ar ochr ddeheuol yr ynys.

**Mynediad/Gwybodaeth Arall**

Mae lle parcio ym maes parcio Ynys Sili (gall ffioedd/amodau fod yn berthnasol).

## 2.1.16 Llynnoedd a Pharc Gwledig Cosmeston



**Disgrifiad**

Er nad yw Llynnoedd Cosmeston yn rhan o gwmpas yr astudiaeth ddichonoldeb hon, mae eu maes parcio, y ganolfan ymwelwyr a'r pentref canoloesol yn rhan o'r Fro wledig, felly maent yn werth eu crybwyll yn sicr. Pyllau graean segur yw'r Llynnoedd sydd wedi cael eu hawlio'n ôl ac maent yn cael eu rheoli gan Fro Morgannwg. Mae un o'r llynnoedd yn warchodfa natur felly nid oes unrhyw weithgarwch yn digwydd yn y warchodfa natur.

**Gweithgareddau Presennol**


Ar hyn o bryd mae cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau **chwaraeon dŵr**, **cerdded**, **beicio** a **physgota**. Mae'r gweithgareddau sy'n cael eu cynnal ar/yn y llyn h.y. chwaraeon rhwyfo, hwylio, nofio dŵr agored (triathlon) ar gyfer grwpiau gwirfoddol neu fasnachol a reolir yn unig.

**Gweithgareddau/Cyfleoedd Posib**

Er bod y lleoliad yn denu llawer o ymwelwyr ar hyn o bryd, yn ystod misoedd yr haf yn bennaf, am resymau amrywiol, mae'r ddarpariaeth o weithgarwch antur yn gyfyngedig i grwpiau a reolir/trefnus. Byddai presenoldeb darparwr gweithgarwch a/neu fusnes llogi yn gwella'r ddarpariaeth yn sicr i'r ymwelwyr niferus â'r parc. Byddai datblygu cawodydd ac ystafelloedd newid yn ategu darpariaeth weithgarwch Llynnoedd Cosmeston ac yn ei gwneud yn ddarpariaeth fwy atyniadol.

**Mynediad/Gwybodaeth Arall**

Mae'r lle parcio am ddim ac mae cyfleusterau toiled ar gael hefyd, yn ogystal â chaffi a chanolfan ymwelwyr.


Legend
Vale of Glamorgan boundary
Potential venues & activities
Activity HUB.
Activity HUB: Accessible Nature Trails.
Activity HUB: Board Surfing, Body Boarding, Paddlesport, including SUP, Sea Kayaking, sit-on-top Kayaking, Surf Kayaking, Coasteering & Sea Level Traversing, Rock Climbing & Bouldering, Rock Pooling.
Activity HUB: Board Surfing, Body Boarding, Paddlesport, including SUP, Sea Kayaking, sit-on-top Kayaking, Surf Kayaking, Rock Climbing & Bouldering, Rock Pooling, Paragliding.
Activity HUB: Paddlesport, including SUP, Sea Kayaking, sit-on-top Kayaking, Rock Climbing, Abseiling & Bouldering, Rock Pooling, Zip Lines & High Ropes, Mountain Biking.
Activity HUB: Paddlesports, Sailing, Windsurfing, Walking, Cycling, Fishing.
Activity HUB: Rock Climbing & Bouldering, Via Feratta, Zip Lines & High Ropes.
Coastal Adventures (Scrambling & Bouldering), Padlesport, Rib Rides (combining Sully Island, Flat Holm & Steep Holm.
Mountain Biking, Horse Riding, Walking, Running, Orienteering.
Nature Trails, Bushcraft & Forest Schools, Walking, Running.
Paddlesport (Kayaking, Open Canoeing, Stand Up Paddleboarding (SUP).
Rock Pooling, Nature Trails, Geological Trails, Sunset Watching, Star Gazing.
Surfing, Nature Trails, Geological Trails, Rock Pooling, RIB Ride.
Surfing, Nature Trails, Geological Trails, Rock Pooling.
Triathlons, Paddlesport, Sailing, Rib Rides
Walking, Running, Swimming, Fishing.
N
Afon Ogwr (Ogmore Castle & Portobella House)
Pant y Cwteri, Pant Norton and Pant Mari Flanders
Afon Ewenni (Ogmore Castle & Portobella House)
Pont Alun Quarry
Pant Quarry
Ogmore by Sea
Pant y Slade & Slade Wood (Heritage Centre)
Dunraven Bay & Park (Southerndown)
Monknash & Cwm Nash
Nash Point & Cae'r Eglwys
St. Donat's (Atlantic College)
Llantwit Major Town
Llantwit Major Beach & Cwm Colhuw
Limpet Bay (The Leys)
West Aberthaw (The Leys)
East Aberthaw (The Leys)
Rhoose Point
Barry, Barry Island & Barry Dock
Hayes Point
Lavernock Point
Cosmeston Lakes & Country Park
Cardiff
Penarth
Barry
VALE OF GLAMORGAN
Service Layer Credits: Sources: Esri, HERE, Garmin, Intermap, increment P Corp., GEBCO, USGS, FAO, NPS, NRCAN, GeoBase, IGN, Kadaster NL, Ordnance
Kilometres
0
2.5
5
10

## 2.2 Adborth Asesiad Effaith

Mae'n ymddangos bod gan arfordir Bro Morgannwg (BM) yn ei gyfanrwydd lawer o gyfleoedd ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau antur a photensial am sefydlu *Hwb Gweithgarwch Antur* a dull *Sbardun* o weithredu. Byddai datblygu'r ddarpariaeth gweithgarwch antur ar hyd arfordir BM yn helpu yn sicr gydag arddangos yr Arfordir Treftadaeth – y cyntaf i gael ei sefydlu yn y DU.

## 2.3 Crynodeb o'r Asesiad Effaith Cychwynnol

i. Mae gan Fro Morgannwg botensial i sefydlu Hwb Gweithgarwch Antur a dull Sbardun o weithredu gyda'i ddarpariaeth antur, gyda sylw i nifer o'r lleoliadau a ystyrir: Llanilltud Fawr am ei lleoliad canolog a chysylltiadau ffordd/rheilffordd da; Aberogwr am ei allu i gynnig llawer o weithgareddau agos a datblygiad adeiladu seilwaith posib (yn amodol ar y caniatadau a'r cyllid angenrheidiol); Coleg Iwerydd am ei leoliad a'i gyfleusterau/adnoddau presennol; Pant Chwarel gydag '*un o'r haenau fertigol mwyaf nodedig o galchfaen yn y wlad'* ar gyfer dringo creigiau (er fel chwarel yn gweithio, mae unrhyw ddatblygiadau'n hynod annhebygol); Canolfan Dreftadaeth yr Arfordir am ei lleoliad a'i seilwaith presennol h.y. cawodydd, toiledau, ystafelloedd cyfarfod a 'safleoedd dan glo'; Trwyn y Rhws am ei lynnoedd, y tir cysylltiedig a mynediad posib i Fôr Hafren (ond mae'n ymddangos bod cyfyngiadau ei warchodfa natur yn golygu bod rhaid diystyru'r lleoliad hwn; Llynnoedd a Pharc Gwledig Cosmeston am eu cyfleusterau presennol a'r cyfleoedd ar gyfer datblygu cyfleusterau h.y. cawodydd ac ystafelloedd newid;

ii. Gallai pob un o'r lleoliadau sy'n cael eu hystyried barhau i weithredu dan ymreolaeth heb ddibynnu ar Hwb Gweithgarwch Antur canolog ac elwa o'u helfennau unigol a natur y gweithgareddau antur a nodir fel rhai presennol a phosib;

iii. Gweithgareddau antur sy'n bodoli ar hyn o bryd neu sydd â photensial i fodoli, yn seiliedig ar elfennau unigryw pob lleoliad a ystyrir. Mae'r gwahaniaeth rhwng y ddarpariaeth hamdden a masnachol yn bwysig tynnu sylw ati gan fod llawer o'r lleoliadau a ystyrir yn debygol o fod yn amodol ar ganiatadau perchnogion tir ar gyfer gweithgarwch masnachol. Hefyd efallai y bydd angen caniatadau perchnogion tir ar gyfer defnydd hamdden;

iv. Gallai nifer o weithgareddau antur gael eu cyflwyno mewn lleoliad neu ehangu arnynt, sef Chwaraeon Rhwyfo – Rhwyf-fyrddio Yn Sefyll (SUP), Caiacio Môr a Chaiacio Mewndirol (gan gynnwys defnyddio caiacs eistedd-ar-y-top); Syrffio – Syrffio Bwrdd a Byrddio Corff; Nofio Dŵr Agored: Paragleidio; Dringo Creigiau a Via Ferrata mewn safleoedd mewndirol yn ogystal â safleoedd arfordirol; Beicio Mynydd mewn amgylchedd naturiol a chyfleuster o wneuthuriad

dyn; Profiadau Reidiau RIB; Arforgampau, Teithio Ar Lefel y Môr a Dyddiau Antur Arfordirol; Cerdded – Llwybrau Hygyrch, Llwybrau Natur; Rhedeg; a Physgota. Bydd tueddiadau'n penderfynu ar raddfa datblygiadau o'r fath fodd bynnag – mae SUP a Nofio Dŵr Agored yn ddau weithgaredd sy'n boblogaidd iawn ar hyn o bryd;

v. Nifer o leoliadau a ystyrir sy'n cyfeirio at y ddarpariaeth Twristiaeth Araf a gwelliannau posib: Yr As Fawr a Chwm As am eu helfennau daearegol unigryw a; Trwyn yr As a Chae'r Eglwys am lecyn i wylio'r machlud a'r posibiliadau awyr dywyll;

vi. Nifer o ystyriaethau datblygu seilwaith penodol i leoliad i wella a chefnogi cyflwyno ac ehangu'r gweithgareddau antur arfaethedig.



Antur arfordirol yn Aberogwr

# 3. Ymgysylltu i Ymgynghori

## 3.1 Arolwg Rhanddeiliaid – Canfyddiadau

I gael gwybodaeth am lefel y gweithgarwch sy'n digwydd ar hyn o bryd ym Mro Morgannwg ac am safbwyntiau rhanddeiliaid am weithgareddau awyr agored arfordirol yn yr ardal, ym mis Ionawr 2019, anfonwyd arolwg at 140 o randdeiliaid penodol ynghyd â gwahoddiad i un o ddau ddigwyddiad ymgynghori. Roedd y rhain yn cynnwys 53 o fusnesau/unigolion ar restr Grŵp Darparwyr Gweithgarwch Awyr Agored De Cymru a oedd wedi dweud bod ganddynt ddiddordeb mewn derbyn gwybodaeth am y prosiect; 38 cyswllt ar restr rhanddeiliaid Cyngor Bro Morgannwg oedd yn cynnwys wardeiniaid, staff y Cyngor a busnesau lleol; a 49 o randdeiliaid ychwanegol a ddewiswyd drwy ymchwil desg – roedd y rhain yn cynnwys cymysgedd o fusnesau, clybiau a sefydliadau eraill gyda diddordebau twristiaeth/hamdden awyr agored. Derbyniwyd 81 o ymatebion, cyfradd ymateb o 59%.

Isod rydym yn crynhoi ymatebion y rhanddeiliaid ac yn darparu naratif i esbonio perthnasedd y canfyddiadau a sut maent wedi dylanwadu ar argymhellion yr astudiaeth. Gwelir cyfres lawn o ymatebion yn Atodiad A.

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr i'r arolwg yn ddarparwyr awyr agored neu ddefnyddwyr hamdden. Mae'r ymatebwyr eraill yn cynnwys yr Awdurdod Lleol, perchnogion busnes lleol a chyrff eraill y sector cyhoeddus, fel Cyfoeth Naturiol Cymru.

Roedd 31% o'r ymatebwyr yn cynnig gweithgareddau ym Mro Morgannwg. Dywedodd 68% o'r ymatebwyr y gallent gynnig mwy o weithgareddau felly mae dyhead clir ymhlith busnesau a sefydliadau i gynnig mwy.

Edrychodd yr arolwg ar y gweithgareddau mae'r darparwyr yn eu cynnig a hefyd ym mha leoliadau. Aethom ati hefyd i holi am y rhwystrau sy'n atal cynnig mwy o weithgareddau a syniadau ar gyfer datblygiad pellach.

Y gweithgaredd mwyaf poblogaidd sy'n cael ei gynnig yn y Fro yw teithiau cerdded trefnus ac wedyn gweithgareddau dŵr fel rhwyf-fyrddio yn sefyll, nofio dŵr agored a syrffio. Mae nofio dŵr agored a SUP yn ddau weithgaredd sydd wedi profi twf sylweddol mewn cyfranogiad yn ystod y degawd diwethaf[1]. Mae disgwyl i'r ddau weithgaredd dyfu ymhellach mewn poblogrwydd oherwydd eu lefel sgiliau isel ymddangosiadol a gwirioneddol o gymharu â gweithgareddau awyr agored eraill fel syrffio a dringo. Mae'r gweithgareddau yma'n faes y gallai fod yn syniad da i'r Fro fuddsoddi ynddynt.

Roedd y rhan fwyaf o'r lleoliadau'n cynnig amrywiaeth o weithgareddau. Rydym wedi defnyddio'r rhestr o weithgareddau a luniwyd ym mhob lleoliad i helpu i lenwi'r matrics gweithgarwch/lleoliad (adran 6.2).

Datgelodd Aberogwr a Southerndown eu bod y cyrchfannau mwyaf poblogaidd ar gyfer gweithgareddau awyr agored, hyd yn oed o'u cymharu â Phorthcawl. Dewiswyd cynnwys Porthcawl

[1] https://www.swimming.org/openwater/year-review-2018/

yn y cwestiwn hwn gennym i weld sut oedd yn cymharu â chyrchfannau eraill o ran poblogrwydd. O ystyried eu poblogrwydd, gallai Aberogwr a Southerndown fod yn ddewisiadau ymarferol ar gyfer lleoliadau gweithgarwch hwb lloeren o ystyried ehangder y gweithgareddau sydd ar gael yn y lleoliadau yma. Mae'r lleoliadau eraill yn cynnwys y Barri, Parc Porthceri a Phenarth – roeddem wedi dewis hepgor y rhain yn benodol o'r cwestiwn am nad ydynt yn ardal astudiaeth y prosiect. Fodd bynnag, mae'n werth nodi eu poblogrwydd fel cyrchfannau gweithgarwch.

Rhoddwyd rhai ymatebion defnyddiol i'r cwestiynau ynghylch pam nad oes mwy o weithgareddau'n cael eu cynnig ar hyn o bryd ledled y Fro.

Dyma grynodeb o'r atebion a roddwyd i'r cwestiwn hwn.

**Problemau lleoliad**

*'Traeth cerrig mân, llethrau serth, amrediad llanw mawr, clogwyni ansefydlog, ansawdd dŵr, amodau ymchwydd yn gallu cyfyngu'.*
*'Gwella pwyntiau dringo sefydlog gyda dur gwrthstaen gradd forol gwydn gan gynyddu nifer y dringiadau a gwneud y rhai sydd wedi'u sefydlu'n fwy diogel'.*

**Problemau mynediad**

*'Galw'*
*'Angen mwy o gwsmeriaid – Yn eithaf aml mae cleientiaid/y farchnad bosib yn "mynd heibio" y Fro ac yn mynd i Benrhyn Gŵyr neu Orllewin Cymru'.*
*'Pe bai'r cynnyrch ar gael, gallem hybu wedyn'.*
*'Rydyn ni'n gyrchfan i sefydliadau trydydd parti'.*

**Problemau sector**

*'Diffyg arian'.*
*'Hyfforddiant, offer ac amser'.*
*'Diffyg hyfforddwyr cymwys ar hyn o bryd yn dilyn newid mawr i'r strwythur hyfforddi canŵio sydd wedi atal llawer rhag gwneud cynnydd'.*

**Rhesymau personol penodol**

*'Dim ond yn cynnal gweithgarwch achub bywyd syrff gan mai clwb achub bywyd syrff yw e'.*
*'Ar hyn o bryd rydw i'n gweithio allan o Gymru ond fe fyddwn i'n hoffi canolbwyntio ar ardal De Cymru. Mynediad a phellter o'n prif leoliad os nad oes niferoedd i fynd allan'.*

Bydd y pwyntiau a godwyd yn y cwestiwn yma'n helpu fel sail i addasrwydd datblygu gweithgareddau a lleoliadau ac maent wedi'u cynnwys yn y matrics lleoliadau. Gyda rhai o'r pwyntiau sydd wedi'u codi, nid oes modd gwneud llawer i wella'r sefyllfa, er enghraifft, traeth cerrig mân ac amrediad llanw mawr. Fodd bynnag, gall y pwyntiau hyn fod o help fel sail i addasrwydd gweithgareddau penodol a helpu i ganolbwyntio ar ble i gyfeirio ymdrechion yn y dyfodol. Ond gyda phwyntiau eraill sydd wedi'u codi, fel diffyg cyllid, hyfforddwyr, galw gan gwsmeriaid, mae'r rhain yn bethau y gellir eu gwella drwy ymyriadau priodol.

Pan ofynnwyd pa weithgareddau oedd yr ymatebwyr yn teimlo y dylid eu datblygu, mae'n ymddangos bod cyfeiriad clir o ran datblygu gweithgareddau dŵr yn y Fro, yn bennaf nofio, syrffio a SUP.

Rydym wedi dewis sampl o resymau dros ddatblygu rhai gweithgareddau penodol sy'n rhoi'r cyfiawnhad a'r esboniad gorau.

*"Mae'r tonnau yn yr ardal yn wych ac fe hoffwn i weld hyn yn cael ei hybu yn fwy. Mae gennym ni gymaint o safleoedd hanesyddol yn yr ardal a allai gael eu hybu yn fwy hefyd, a theithiau natur gan fod cymaint o lwybrau cerdded hardd ar hyd ein harfordir ni, gyda chymaint o fywyd gwyllt i ddysgu amdano"*

*"Rydyn ni'n glwb sydd â ffocws ar SUP ac rydyn ni eisiau datblygu'r sgiliau yma ar gyfer y gymuned yn BM"*

*"Does dim ysgol syrffio benodol yn Ogwr sy'n un o'r prif draethau syrffio. Yr un peth am SUP. Mae'r bobl leol yn ei wneud e drwy'r amser yn Ogwr ond dim cyfleuster llogi i ymwelwyr. Mae posib cymryd rhan mewn sesiynau archwilio pyllau creigiog ond angen datblygu mwy ar gyfer ymwelwyr, i hunan-arwain y sesiynau yma a sesiynau teulu untro yn ystod tymor yr haf"*

*"Dim lleoliadau dringo addas gyda mynediad heb fod yn llanwol. Darpariaeth beicio mynydd anhysbys"*

*"Dylai pawb gael rhyw fath o brofiad nofio dŵr agored wrth ymweld â thraeth, i wella diogelwch"*

*"Ar hyn o bryd mae SUP yn un o'r campau sy'n tyfu gyflymaf ac mae gan Gymru arfordir anhygoel i'w archwilio. Mae posib mwynhau'r tonnau hefyd gyda SUP ac mae'n fwy hygyrch i bawb ddysgu. Nid yw nofio dŵr agored yn gofyn am lawer o offer na pharatoi ac mae lefel y canlyniadau positif posib yn uchel*

*"Mae gan yr ardal lawer o afonydd hardd ond mae'r ansicrwydd ynghylch mynediad cyfreithiol yn atal clybiau rhag eu defnyddio. Mae'r arfordir yn cynnig llawer o gyfleoedd ar gyfer syrffio (gan gynnwys syrffio caiac/canŵio) a byddai gwell anogaeth i'r rhain yn cynyddu cyfranogiad lleol a chan dwristiaid"*

*"SUP – mwy o hygyrchedd i bob lefel o gleientiaid. Ar hyn o bryd mae ganddo ffocws mawr iawn. Mae arfordir y Fro yn heriol i ddechreuwyr SUP ond byddai'n darparu antur dda iawn i lefel ganolraddol (gellid darparu ar gyfer dechreuwyr SUP hefyd wrth gwrs). Mae'r arfordir yma ymhlith y gorau yn y DU – mae'n lleoliad naturiol ar gyfer y gamp yma. Yn Ardal y Barri yn sicr – marchnad gynyddol i Driathlon a nofio dŵr agored yn gyffredinol. Ymdrochi diogel ym Maeau Whitmore a Jacksons"*

*"Ardal darged fawr, nofio dŵr agored yw un o'r gweithgareddau sy'n tyfu gyflymaf"*

*"Mae SUP yn weithgaredd cyflym a hwyliog y gellir ei addasu a'i newid i gyd-fynd ag anghenion a galluoedd unrhyw gyfranogwyr. Mae gan Fro Morgannwg leoliadau niferus ar gyfer gwahanol*

*alluoedd, gyda defnydd o'r môr a gall y gweithgareddau afon fod yn eithaf amrywiol. Mae cael lleoliadau niferus gerllaw yn ei gwneud yn haws pan nad yw'r tywydd yn rhy ffafriol – gallu symud y sesiwn i leoliad diogelach yn lle canslo"*

*"Arforgampau – Gallai hwn fod yn lleoliad delfrydol ar gyfer arforgampau – gallai clogwyni mawr a digon o ogofâu a pherlau cudd ar hyd yr arfordir ei wneud yn ddiddorol. Y peth anoddaf i'r gweithgaredd yw'r diffyg allanfeydd mewn argyfwng oherwydd y clogwyni uchel, a rhydd weithiau, ond nid yw hyn yn amhosib gydag asesiad risg da a gwybodaeth leol am yr ardal"*

*"Dringo – Mae hwn yn weithgarwch arall y gellir ei sefydlu'n rhwydd gyda digon o leoliadau grŵp yn bresennol eisoes ym Mro Morgannwg. Byddai hwn yn weithgaredd hawdd a phoblogaidd addas ar gyfer pob gallu"*

Er bod amrywiaeth fawr o weithgareddau ar gael ledled y Fro, efallai nad yw'n briodol nac yn fuddiol ceisio datblygu'r holl weithgareddau ar hyd yr arfordir. Mae ffactorau amrywiol yn effeithio ar a fyddem yn argymell datblygu a hybu gweithgarwch yn yr ardal. Mae'r rhain yn cynnwys rhai o'r ffactorau gafodd sylw yn yr Asesiad Effaith, fel llanwau, mynediad a natur yr arfordir; a safbwyntiau'r rhai sy'n gweithredu yn y sector. Mae'r safbwyntiau hyn fel y nodir uchod yn datgelu bod rhwyf-fyrddio yn sefyll a nofio dŵr agored yn weithgareddau ffafriol i ganolbwyntio arnynt fel gweithgareddau twf oherwydd eu hygyrchedd i gleientiaid ar bob lefel a'u poblogrwydd yn gyffredinol. Roedd cerdded yn ymddangos yn ddewis poblogaidd i'w ddatblygu ymhlith yr ymatebwyr oherwydd harddwch ac argaeledd y dirwedd. Hefyd cafodd syrffio bleidlais uchel fel gweithgaredd poblogaidd i'w ddatblygu. Crybwyllodd rhai ymatebwyr y posibilrwydd o wella'r cyfleusterau presennol yn Aberogwr.

Nodwyd ymatebion gwybodus i awgrymu camau gweithredu penodol gofynnol i ddatblygu gweithgareddau antur ym Mro Morgannwg. Rydym wedi rhoi crynodeb o'r camau gweithredu a ddarparwyd o dan y rhai y cafwyd ymatebion ganddynt.

**<u>Awdurdod Lleol</u>**

- Ehangu hawliau llwybr marchogaeth a gwaith ategol i ddarparu sail ar gyfer marchogaeth ceffylau a beicio mynydd
- Gwneud parcio i fysiau mini yn haws
- Lleoliad priodol/buddsoddiad preifat/cefnogaeth awdurdod lleol
- Caniatadau perchnogion tir ac ymrwymiad gan berchnogion tir yn hanfodol
- Rhaid i gyfleusterau ar yr arfordir ar gyfer twristiaeth gael eu gwella - h.y darpariaeth llety, parcio, cyfleusterau toiled, caffis gwell

**Darparwr gweithgarwch**

- Cyllid
- Marchnata
- Datblygu llwybrau troed a llwybrau marchogaeth
- Hyfforddiant ymwybyddiaeth amgylcheddol i ddarparwyr gweithgarwch
- Gwell parcio / am ddim
- Hwb archebu canolog
- Mynediad i chwareli ar gyfer dringo
- Gwell llwybrau beicio
- Gwell mynediad
- Diwrnod gweithgarwch agored/am ddim i arddangos gweithgareddau
- Meithrin perthnasoedd â pherchnogion tir

**Clwb/sefydliad awyr agored cymunedol**

- Mwy o grantiau chwaraeon cymunedol
- Cyllid ar gyfer datblygu, twf, hyfforddiant ac offer
- Eglurder cyfreithiol o ran mynediad i'r afon
- Marchnata
- Strategaeth ar gyfer twf gweithgarwch awyr agored
- Cyfle i fusnesau gydweithio
- Cefnogaeth gan y sector cyhoeddus

**Sector cyhoeddus arall**

- Sicrhau bod galw am weithgarwch drwy ofyn i'r cymunedau
- Gwell trafnidiaeth
- Gwell cyfleusterau
- Gwell presenoldeb ar y we
- Dysgu oddi wrth ddarparwyr gweithgarwch llwyddiannus

**Sector preifat arall**

- Ymgyrchoedd marchnata
- Cyfryngau cymdeithasol
- Digwyddiadau
- Mwy o bresenoldeb ar-lein

**Defnyddiwr hamdden**

- Staff wedi ymrwymo i hybu twristiaeth a gweithgareddau antur
- Gwell defnydd o Ganolfan Dreftadaeth yr Arfordir
- Adnewyddu adeilad yr achubwyr bywyd yn Ogwr fel lle i weithgareddau a'u hybu
- Atal rhagor o ddatblygiadau tai
- Eglurder ynghylch mynediad i'r afon
- Nawdd a marchnata

Mae'r ymatebion hyn wedi bod yn sail i'r argymhellion ar gyfer twf y ddarpariaeth o weithgareddau awyr agored yn y Fro yn y dyfodol.

Roedd C11 yn gofyn i ymatebwyr ddarparu unrhyw awgrymiadau neu sylwadau eraill y dylid eu hystyried wrth ddatblygu gweithgareddau antur pellach ym Mro Morgannwg. Rydym wedi rhoi crynodeb o gamau gweithredu o dan y rhai y cafwyd ymatebion ganddynt.

**Awdurdod Lleol**

- Angen cysylltiadau â Dinas Caerdydd
- Edrych ar ddefnydd amgen o gwrs golff Porthceri sydd â mynediad uniongyrchol i'r traeth
- Annog llety addas

**Darparwr gweithgarwch**

- Angen edrych ar ddatblygu gweithgareddau mewndir hefyd
- Mwy o lety gan gynnwys hosteli neu dai bync
- Mae safleoedd gwersylla'n llenwi'n hawdd iawn yn yr haf
- Clogwyni ansefydlog
- Ystyried marchnadoedd targed
- Sicrhau twf cynaliadwy'r gweithgareddau
- Ystyried hwylio fel gweithgaredd twf

**Clwb/sefydliad awyr agored cymunedol**

- Creu Cyfeirlyfr y Fro
- Mae beicio mynydd yn digwydd ar Lwybr Arfordir Cymru ar hyn o bryd, sy'n anghyfreithlon, yn achosi erydiad ac yn beryglus i gerddwyr
- Mae sgowtiaid yn cynnig gweithgareddau i'r gymuned

**Sector cyhoeddus arall**

Cynnal fforwm blynyddol ar gyfer darparwyr

**Sector preifat arall**

- Ystyried pwysigrwydd daearegol
- Ystyried twristiaeth 'araf' yn y Fro

**Defnyddiwr hamdden**

- Iechyd a diogelwch gweithgareddau
- Effaith ar yr amgylchedd
- Gweithio gyda CNC i sicrhau cefnogaeth i ganŵio

Mae'r ymatebion wedi bod yn sail ar gyfer yr argymhellion ar gyfer twf darpariaeth gweithgarwch awyr agored y Fro yn y dyfodol.

## 3.2 Crynodeb a Chasgliad Arolygon y Rhanddeiliaid

Mae canlyniadau arolygon y rhanddeiliaid yn datgelu gwybodaeth ddefnyddiol fel sail bellach i'r broses astudio ac yn rhoi gwybod i ni am gyfeiriad posib ein hargymhellion. Yn nodedig:

i. Yr angen am godi ymwybyddiaeth o'r amrywiaeth o weithgareddau sydd ar gael ar draws y Fro;
ii. Cydnabod anawsterau rhwng rhanddeiliaid o ran cael mynediad a chaniatadau i roi gweithredoedd masnachol ar waith;
iii. Yr angen am gefnogaeth allanol i helpu i wella'r ddarpariaeth i ymwelwyr a marchnata;
iv. Problemau seilwaith, gyda chyfle i wella rhai, ond nid eraill – mae'r canfyddiadau hyn wedi bod o help fel sail i fatrics gweithgarwch/lleoliadau. Mae'r matrics (adran 6.2) yn tynnu sylw at y gweithgareddau sydd ar gael ar hyn o bryd mewn lleoliadau penodol, y rhai sydd ar gael yn fasnachol a'r cyfleoedd posib;
v. Diddordeb penodol mewn SUP, syrffio a nofio wedi'u nodi yn yr arolwg hwn a gellid canolbwyntio arnynt fel gweithgareddau twf yn yr ardal;
vi. Dyhead clir gan yr holl randdeiliaid i gefnogi twf gweithgareddau awyr agored yn yr ardal y gellid ei hwyluso drwy sefydlu rhwydwaith gweithgarwch awyr agored y Fro a fyddai'n annog gwell gwaith partneriaeth.

## 3.3. Digwyddiadau Ymgynghori

Cynhaliwyd dau ddigwyddiad ymgynghori gennym fel rhan o'r astudiaeth ddichonoldeb hon, gyda'r nod o gyflwyno cwmpas yr astudiaeth, rhannu rhai canfyddiadau o'r arolwg a gynhaliwyd, rhannu ein meddyliau am beth oedd wedi'i nodi hyd yma a chasglu gwybodaeth leol ychwanegol gan y busnesau cysylltiedig eang ac amrywiol sy'n gweithredu ar hyn o bryd ym Mro Morgannwg.

Roedd y digwyddiadau, un a gynhaliwyd yng Nghanolfan Dreftadaeth yr Arfordir yn Southerndown ar 12$^{fed}$ Chwefror 2018 ac un a gynhaliwyd yng Ngholeg Iwerydd yn Sant Donat ar 21$^{ain}$ Chwefror

2019, yn gyfle i dîm y prosiect sgwrsio gyda 45 o unigolion ac roeddent i gyd yn gefnogol i'r hyn roedd yr astudiaeth yn ei ystyried ac yn awyddus iawn i gymryd rhan. Ar ôl cyflwyniad i'r astudiaeth a throsolwg byr o ganfyddiadau'r arolwg, gofynnwyd i'r rhai oedd yn bresennol fynd i grwpiau a chanolbwyntio ar: cysyniad/syniad; y cyfleoedd y gallai eu cynnig; y rhwystrau posib; beth fyddai ei angen i wireddu'r cysyniad/syniad; pwy ddylai chwarae eu rhan; a'r camau nesaf.

Rhwyf-fyrddio yn sefyll



Mae'r canlynol yn benllanw meddyliau'r rhai a fu yn y ddau ddigwyddiad. Defnyddiwyd sawl dull o weithredu gan y grwpiau unigol; canolbwyntiodd rhai ar sylwadau cyffredinol; roedd eraill yn fwy penodol; arweiniodd y dulliau hyn at gynnwys gwerthfawr:

### 3.3.1 Adborth

Drwy nodi Pwynt Gwerthu Unigryw (PGU) Bro Morgannwg, cafwyd trafodaeth iach gan fod gan yr ardal gymaint o 'berlau' bychain, ac roedd y rhai a oedd yn bresennol yn teimlo'n angerddol amdanynt yn eu hardal.

### 3.3.2 Cysyniadau/Syniadau Cyffredinol a Chyfleoedd

Beth bynnag oedd y cysyniad/syniad, roedd teimlad ymhlith y gynulleidfa bod angen gweithio gyda'r boblogaeth leol fel eu bod yn gefnogol i unrhyw ddatblygiadau. Mae'r tabl sy'n dilyn yn adlewyrchu cyfraniad uniongyrchol gan ein cynulleidfaoedd ynghylch amrywiaeth o syniadau cyffredinol, y cyfleoedd sydd ar gael, pwy ddylai gymryd rhan a beth sydd ei angen i wireddu'r syniadau:

| Cysyniadau | | |
|---|---|---|
| Datblygu'r gweithlu – sicrhau bod beth bynnag a gynigir yn cael ei gyfateb gyda sgiliau/gweithlu sy'n gallu ei gyflwyno, gan sicrhau, os oes angen hyfforddiant, bod cyfleoedd ar gael ar gyfer hynny. | Datblygu gwefan gweithgareddau yn unig neu adran ar wefan Bro Morgannwg (Ymweld â'r Fro) sy'n arddangos y ddarpariaeth gweithgarwch antur a'r darparwyr achrededig perthnasol. | Sefydlu safleoedd wi-fi cyhoeddus – gallai rhwydwaith 4G y Fro fod yn well a gellid ei wella hefyd drwy lecynnau wi-fi cyhoeddus fel pyrth allweddol y lleoliadau penodol ledled y Fro. |
| Sefydlu cysylltiadau â Nodau Iechyd a Lles, gan elwa ar agendâu cysylltiedig ag iechyd. | Sefydlu rhwydwaith rhithiol o ddarparwyr gweithgarwch a busnesau twristiaeth. | Denu busnesau llogi h.y. llogi beiciau, llogi caiacs eistedd-ar-y-top, llogi byrddau syrffio, llogi SUP ac ati |
| Creu map sy'n arddangos y gweithgareddau y gellid eu cynnal ledled y Fro a chynnwys gwybodaeth am ddarparwyr gweithgarwch a hefyd gwybodaeth ddiogelwch berthnasol h.y. llif llanwol, cau allan a pheryglon eraill, ble mae cael gwybodaeth am y llanw ac ati. | Datblygu bas data/porthol ar-lein ar gyfer darparwyr awyr agored. I ddechrau, cyfleuster i ddarparwyr rwydweithio, cael a rhannu gwybodaeth h.y. cysylltiadau perchnogion tir ac ati, ond hefyd, dros amser, datblygu porthol ar gyfer ymwelwyr yn debyg i borthol ymweliadau ysgolion, gyda 'rhestr siopa' o ofynion i ddewis o'u plith. | Ymestyn y ddarpariaeth bresennol o gyfleusterau yn y Fro h.y. ardaloedd penodol ar gyfer Crefft y Gwyllt. Gallai'r rhain fod â byrddau gwybodaeth i dynnu sylw at beth a ganiateir / na chaniateir. |
| | Swyddog Cyswllt i reoli'r holl drafodaethau rhwng Cyngor Bro Morgannwg a pherchnogion tir. | |
| **Cyfleoedd** | | |
| Mae cenedlaethau'r dyfodol y Fro yn ysgolion y Fro. Dyma gyfle gwych i fynd i'r ysgolion yn lleol i'w hatgoffa bod asedau'r Fro yn helaeth ac y byddent yn sicr yn cyflawni gofynion y cwricwlwm cenedlaethol. | Mae ffyrdd y Fro'n denu beicwyr ffordd. Mae hwn yn gyfle gwych i elwa ar hyn a gwneud defnydd o'r clybiau beicio ffordd i'w hatgoffa, tra maent yn y Fro, i ymweld â chaffi penodol ac ati. | Mae'r ardal yn ymddangos yn addas iawn i deuluoedd ond, yn bennaf, o bersbectif hunan-dywys. Mae cyfleoedd i ehangu'r ddarpariaeth hon i roi lle i grwpiau un rhyw neu ryw cymysg mwy, a/neu grwpiau mawr o blant, fel grwpiau sgowtiaid neu ysgolion. |
| Elwa ar agosrwydd y Fro at Gaerdydd i ddenu mwy o ymwelwyr. | | Mae dyhead o bersbectif y Fro i helpu pobl sy'n dymuno sefydlu eu busnesau yn y Fro. |
| **Pwy ddylai chwarae eu rhan?** | | |
| Darparwyr cyfleusterau/adnoddau. | Darparwyr bwyd. | Adwerthwyr. |
| Darparwyr llety. | Darparwyr gweithgarwch antur. | Llogwyr offer. |
| Cyngor Bro Morgannwg. | Cyfoeth Naturiol Cymru. | Perchnogion / Rheolwyr Tir. |
| **Beth sydd ei angen i wireddu'r cysyniad/syniad?** | | |
| Awdurdod Lleol yn gweithio i helpu i hyfforddi athrawon a chael ysgolion i gymryd rhan. | Newidiadau i seilwaith yr awdurdod lleol – trafnidiaeth gyhoeddus a'u llwybrau, cyfleusterau. | Gwell darpariaeth 4G. |
| Defnydd o grantiau, help, pecynnau adnoddau. | Caffis/bwytai cyfeillgar i feicio. | Hybu gweithgareddau â'u ffocws ar deuluoedd. |
| Marchnata – llawer i'w wneud ond a yw pobl yn gwybod? Nid dim ond clogwyni ac arfordir, ond cefn gwlad hefyd. | Mynediad i dir. | HWB Canolog ar wefan y Fro – HWB rhithiol yn rhestru'r holl ddarparwyr gweithgarwch a thrafnidiaeth. |

Tabl 1. Cysyniadau/Syniadau Cyffredinol a Chyfleoedd

### 3.3.3 Nodau Tymor Byr, Canolig a Hir Penodol

Roedd ein cynulleidfaoedd yn glir iawn o ran beth bynnag a gâi ei ddatblygu ei bod yn bwysig bod y Fro yn gwarchod ei hapêl ar hyn o bryd. Wrth ystyried yr amserlenni ar gyfer cysyniad/syniad, canolbwyntiodd un o'r grwpiau ar nodau Tymor Byr, Canolig a Hir penodol, gan arwain at y tabl isod, gan nodi pawb sydd wedi'u crybwyll yn 'pwy ddylai chwarae eu rhan' uchod ynghyd â'r camau nesaf yn canolbwyntio ar y 'nod tymor byr' i ddechrau.

| Cysyniad/Syniad | Cyfleoedd | Rhwystrau | Beth sydd ei angen i wireddu'r cysyniad/ syniad |
|---|---|---|---|
| **Tymor Byr** – Cyfeirlyfr llwyfan digidol o ddarparwyr gweithgarwch. Ar wefan Ymweld â'r Fro efallai. Llysgennad Gweithgarwch – gallai ymuno â rhaglen llysgenhadon ehangach y Fro. Croesi drosodd manwl rhwng dymunoldeb i ymwelwyr a chyfleoedd hamdden preswyl. | Siop un stop yn cynnwys PAWB – angen mapio. Angen amodau h.y. trwyddedau yn eu lle i sicrhau IaD. Darparwyr y tu allan i'r Fro'n cael eu hannog i ddefnyddio'r Fro fel lleoliad / cyrchfan. | Gall ddyddio yn gyflym iawn.<br>Angen rhywun/ sefydliad i sbarduno a diweddaru hyn. | Llwyfan digidol – angen ei ddiweddaru'n gyson. |
| **Tymor Canolig** – Cryfhau'r cysylltiadau rhwng darparwyr gweithgarwch a llety. | Rhwydweithio<br>Marchnata ar y Cyd<br>Pecynnu pwrpasol rhwng darparwyr llety / gweithgarwch – gwell cydweithredu. | Diffyg llwyfan digidol. Rhywun yn sbarduno hyn. | Llwyfan digidol – angen ei ddiweddaru'n gyson. |
| **Tymor Hir** – HWB Corfforol – nid oes raid iddo gael ei leoli ar yr arfordir. Byddai lleoliad yn nes i mewn am y tir yn cael ei ffafrio, heb ddioddef o'r un mewnlif yn ystod amseroedd brig. | Disgwyliadau uchel ymwelwyr. Byddai disgwyl gwasanaeth o ansawdd uchel gyda darpariaeth logistaidd ddigonol gan unrhyw hwb. Cysylltiadau gwych â chyflogaeth.<br>Gwneud mwy o'r ymwelwyr sydd yma eisoes. Nid targedu marchnad newydd yn benodol oherwydd efallai bod y Fro eisoes yn llawn. Gwell targedu'r rhai sydd yma eisoes i'w cael i aros am gyfnod hirach. | Cyllid.<br>Rheolaeth ar HWB. | Cyllid.<br>Strwythur rheoli ar gyfer HWB. |

Tabl 2. Nodau Tymor Byr, Canolig a Hir Penodol

### 3.3.4 Esiamplau o Gysyniadau/Syniadau Penodol

Canolbwyntiodd nifer o'r grwpiau ar gysyniadau/syniadau penodol, gan arwain at y tablau isod:

**Cysyniad 1: Digwyddiad Arddangos Her Ffitrwydd Llwybr yr Arfordir**

| Cyfleoedd | Rhwystrau | Beth sydd ei angen | Pwy ddylai chwarae eu rhan | Camau Nesaf |
|---|---|---|---|---|
| Byddai'r digwyddiad yn cynnwys lleoliadau niferus ar hyd yr arfordir a gallai arddangos cyfleoedd a safleoedd.<br>Byddai'n denu pobl i'r ardal. | Mynediad – HTC<br>Cefnogaeth gan leoliadau a safleoedd.<br>Diogelwch digwyddiadau.<br>IaD. | Sgyrsiau gyda pherchnogion tir, darparwyr, lleoliadau ac ati<br>Gweithdrefnau a gwaith asesu risg da.<br>Caniatadau digwyddiadau.<br>Cyllid. | Perchnogion tir.<br>BM.<br>Perchnogion / rheolwyr lleoliadau.<br>Darparwyr posib. | |

**Cysyniad 2: Hwb Antur Traeth Silstwn**

| Cyfleoedd | Rhwystrau | Beth sydd ei angen | Pwy ddylai chwarae eu rhan | Camau Nesaf |
|---|---|---|---|---|
| 'Adeilad' presennol a allai gael ei ddefnyddio fel cyfleusterau neu storfa ar gyfer offer.<br>Dim ond un perchennog tir.<br>Parcio da.<br>Mynediad da i'r traeth.<br>Mynediad i Warchodfa Natur yn yr orsaf bŵer.<br>Ar hyn o bryd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer pysgota, archwilio pyllau creigiog, syrffio a mynediad i lwybr yr arfordir. | Yr adeilad presennol angen llawer o waith.<br>Ffordd trac sengl.<br>Drwy bentref Silstwn.<br>Cyllid.<br>Nid yw'n lleoliad i ddechreuwyr. | Cyllid.<br>Cynllunio.<br>Marchnata.<br>Ymchwiliadau gweithgarwch. | Perchennog Tir – John Thomas.<br>Cyngor BM.<br>Gorsaf Bŵer Aberddawan – RWE NPower.<br>Darparwyr gweithgarwch lleol. | Trafodaethau â pherchnogion tir a chyllidwyr posib. |

**Cysyniad 3: Sioe Awyr Agored y Fro, gan gynnwys dysgu am fod yn ddiogel ar y môr.**

| Cyfleoedd | Rhwystrau | Beth sydd ei angen | Pwy ddylai chwarae eu rhan | Camau Nesaf |
|---|---|---|---|---|
| Defnyddio grwpiau cymunedol presennol i hybu gweithgareddau<br>Defnyddio eiddo gwag<br>Ymestyn y Fro wledig i Borthceri<br>Llynnoedd yn Nhrwyn y Rhws<br>Man cyfarfod – creu hwb – darparwyr | Canfod safle(oedd) priodol<br>Mynediad i draethau tywodlyd a môr<br>Amodau – llanwau<br>Dyddiad a chefnogaeth gan bartneriaid | Cyllidwyr<br>Digon o Le Parcio<br>Marchnata a Hysbysebu | Darparwyr Gweithgarwch<br>Darparwyr Llety<br>Tafarndai<br>Clybiau Lleol<br>Darparwyr Trafnidiaeth<br>BM | Canfod cynulleidfa<br>Lleoliad<br>Yswiriant<br>Costau a Ffioedd<br>Amseriad |

### Cysyniad 4: Creu Hwb Antur

| Cyfleoedd | Rhwystrau | Beth sydd ei angen | Pwy ddylai chwarae eu rhan | Camau Nesaf |
|---|---|---|---|---|
| Safle chwarel yn Ewenni<br>Hen westy yn Southerndown<br>Trwyn y Rhws<br>Hen Safle Clwb Bechgyn a Merched – Sain Tathan<br>Canolfan Hyfforddi Aston Martin<br>Canolfan Addysg yr Orsaf Bŵer – mornant ddofn ar gyfer mynediad i'r môr<br>Adeiladau gwledig gwag | Canfod safle priodol<br>Perchnogaeth tir<br>Costau<br>Mynediad i'r Arfordir<br>Mynediad i Leoliad<br>Trafnidiaeth gyhoeddus gyfyngedig | Dylunio cynaliadwy – cynllunio; twristiaeth eilaidd<br>Cyllid – Croeso Cymru gydag arweinydd BM<br>Prisio gweithgareddau<br>Diffinio'r gynulleidfa | BM<br>Perchnogion tir preifat<br>Darparwyr gweithgarwch<br>Y gymuned leol | Dewis lleoliad<br>Canfod cyllid |

### Cysyniad 5: Paragleidio – Southerndown i Oleudy Trwyn yr As

| Cyfleoedd | Rhwystrau | Beth sydd ei angen | Pwy ddylai chwarae eu rhan | Camau Nesaf |
|---|---|---|---|---|
| Byddai effaith bositif ar berchnogion tir/busnesau lleol<br>Hedfan tandem/hedfan proffesiynol<br>Talu ffi trwydded i berchennog tir<br>Gwyntoedd De Orllewinol – byddai pobl yn teithio i hedfan mewn amodau ac amgylchedd mor unigryw. Angen i'r seilwaith fod yn addas fel bod posib rheoli'r effaith.<br>Gwersylla | Pryderon yr asiant tir am fwy o bobl<br>Dryswch ynghylch perchnogaeth y tir<br>Gorchmynion cadwraeth<br>SoDdGA – Daearegol/ Botanegol<br>RSPB – adar yn nythu / brain coesgoch | Mwy o 'adnoddau dynol' gan BM<br>Pwysau ar yr asiant tir | AS lleol i frwydro dros hyn<br>Cyrff Rheoli Cenedlaethol (CRhC) | Astudiaethau achos i ddysgu oddi wrthynt<br>Dysgu oddi wrth Sir Benfro: mynediad y Weinyddiaeth Amddiffyn<br>Cytundebau Arforgampau'r YG |

### Cysyniad 6: Hwylio Antur – marchnata, mapio datblygiad taith. Map – 2 ochr (1. Trigolion Lleol/Clybiau; 2. Ymwelwyr)

| Cyfleoedd | Rhwystrau | Beth sydd ei angen | Pwy ddylai chwarae eu rhan | Camau Nesaf |
|---|---|---|---|---|
| Cynnig dyddiau aml-weithgarwch | Rhywun i berchnogi'r map/ei ddiweddaru'n gyson/gadw'n gywir<br>Argraffu – drud<br>Digidol – mynediad wi-fi | Amlygrwydd ar-lein ac o bersbectif ymwelydd<br>Gwell wi-fi<br>Darparwyr gweithgarwch i weld gwerth a bod yn barod i dalu am fod ar y rhestr<br>Cyllid | Ymweld â'r Fro<br>Croeso Cymru<br>Darparwyr gweithgarwch<br>Perchnogion tir<br>Grwpiau cadwraeth | Dechrau gyda'r bobl iawn o amgylch y bwrdd |

### 3.3.5 Crynodeb o ddigwyddiadau ymgynghori

Er bod y cyfleoedd y tynnwyd sylw atynt yn amrywio ar gyfer pob un o'r cysyniadau, mae'n glir bod tebygrwydd gyda'r rhwystrau, oedd yn cynnwys: mynediad, cyfyngiadau (SoDdGA'oedd), perchnogaeth tir a chaniatadau perchnogion tir, wi-fi cyhoeddus, cyllid/costau, trafnidiaeth gyhoeddus gyfyngedig, iechyd a diogelwch, safle priodol, amrediad llanw. Mae'r un peth yn wir am beth sydd ei angen a phwy ddylai chwarae eu rhan, gan mai dim ond rhoi sylw mae'r rhain i sut gellid/ddylid goresgyn y rhwystrau y tynnwyd sylw atynt er mwyn galluogi beth sy'n digwydd nesaf.

# 4. Digwyddiad arddangos

## 4.1 Trafodaethau rhagbrofol

Gyda'r archwiliad lleoliadau/gweithgarwch a'r digwyddiadau ymgynghori'n darparu gwybodaeth dda am beth sydd ar gael ar hyn o bryd, beth allai fod yn bosib a syniadau ynghylch sut i gyflawni hynny, rhoddwyd sylw wedyn i'r digwyddiad arddangos. Gan ystyried yr wybodaeth o'r archwiliad, yr adborth o'r ymgynghoriadau a manyleb y tendr, aethom ati i ystyried ein hopsiynau i drefnu a chyflwyno un digwyddiad arloesol a fyddai'n rhoi cyfle i bobl brofi amrywiaeth o weithgareddau anturus, gan gynnwys rhwyf-fyrddio yn sefyll, canŵio/caiacio, arforgampau a syrffio, ar hyd arfordir Bro Morgannwg.

Drwy drafodaethau gyda Choleg Iwerydd, un o'r rhanddeiliaid allweddol, roedd cyfle i ni ystyried ac, yn y diwedd, cytuno ar un digwyddiad effaith uchel nodedig a fyddai'n defnyddio Coleg Iwerydd fel Hwb ar gyfer cyfeirio gweithgareddau anturus i leoliadau allweddol ar hyd yr arfordir, yn ogystal â chael eu cynnal ar y safle. Daeth aelodau craidd WATO i gytundeb y byddai brand presennol, yn eiddo i Eryri Bywiol (un o'i aelodau craidd), yn cael ei ddefnyddio i gynorthwyo gyda phroffil y digwyddiad. Felly 'Antur Untro' fyddai'r brand ar gyfer marchnata'r digwyddiad arddangos hwn a byddai'n gweithredu ar y cyd â Ffair Haf Coleg Iwerydd ar ddydd Sul 9fed Gorffennaf 2019. Mae Antur Untro yn ymwneud â rhoi cyfle i bobl roi cynnig ar brofiadau newydd ac ysbrydoli antur newydd, yn cyd-fynd ag amcan y digwyddiad arddangos. Hefyd, darparodd frand parod i'r prosiect i helpu i farchnata'r digwyddiad arddangos a rhoi hunaniaeth iddo, gan ddarparu gwerth am arian.

## 4.2 Gweithgareddau a lleoliadau

Cytunodd Coleg Iwerydd i drosglwyddo ardal o'i diroedd (edrychwch ar Fap y Ffair Haf a'r Digwyddiad Antur Untro) i Antur Untro ar gyfer y digwyddiad, gan roi cwmpas ar unwaith ar gyfer y ddarpariaeth ar y safle a ystyriwyd, a oedd yn cynnwys y canlynol:

i. Cyfleuster awyr agored yn safle i arddangoswyr – darparwyr gweithgarwch, darparwyr llety ac ati – arddangos eu hoffer;

ii. Cyfleuster dan do, pe bai'r tywydd yn heriol;
iii. Wal ddringo bwrpasol a chwrs rhaffau uchel;
iv. Coetir ar gyfer llwybr natur/taith dywys;
v. Ardal glan y môr gyda phwll nofio awyr agored ar gyfer arddangosfeydd;
vi. Traeth ar gyfer hela ffosilau a gweithgareddau traeth, yn amodol ar amodau llanwol dyddiol;
vii. Mynediad i Fôr Hafren, yn amodol ar lanw dyddiol a'r tywydd;
viii. Tiroedd/Gerddi ar gyfer sesiynau ffitrwydd teuluol yn yr awyr agored.

Gan fod hwn yn mynd i fod yn ddigwyddiad unigol arloesol, roeddem yn awyddus i ddewis lleoliadau a gweithgareddau a fyddai'n gweithio ar y dydd, heb ystyried y tywydd. Roedd yr archwiliad o'r lleoliadau oddi ar y safle a'r gweithgareddau oedd ar gael ar y pryd ar hyd yr arfordir o gymorth i ni nodi'r canlynol ar gyfer eu hystyried:

i. Traeth Southerndown ar gyfer gweithgareddau syrffio, gan ddefnyddio'r cyfleusterau yng Nghanolfan Dreftadaeth yr Arfordir, gan gynnwys toiledau, cawodydd a'r unedau storio;
ii. Meysydd parcio Southerndown a Thrwyn yr As fel safleoedd codi a glanio ar gyfer gweithgareddau paragleidio;
iii. Yr arfordir rhwng traethau Southerndown ac Ogwr ar gyfer gweithgareddau arforgampau;
iv. Afonydd Ewenni ac Ogwr ar gyfer rhwyf-fyrddio yn sefyll (SUP);
v. Llynnoedd Trwyn y Rhws ar gyfer SUP, canŵio a chaiacio agored;
vi. Llynnoedd a Pharc Gwledig Cosmeston ar gyfer SUP, canŵio a chaiacio agored.

Galluogodd nodi lleoliadau ar ac oddi ar y safle drafodaethau gyda darparwyr gweithgarwch antur a chawsant wahoddiad i ddarparu gweithgareddau.

## 4.3 Darparwyr Gweithgarwch Antur

Anfonwyd cais drwy rwydwaith WATO at yr holl ddarparwyr gweithgarwch antur posib o fewn radiws o 50 milltir i Fro Morgannwg, gan dargedu llawer o aelodau Grŵp Darparwyr Gweithgarwch Awyr Agored De Cymru (SWOAPG), yn ogystal â'r darparwyr gweithgarwch antur hynny a fynychodd y digwyddiadau ymgynghori. Er gwaethaf cyfeirio arwyddocaol at beth oedd yn cael ei gynllunio, roedd yr ymateb yn syndod o isel (rhywbeth i'w ystyried yn yr adborth efallai). Wedi dweud hynny, roedd modd i'r darparwyr a ddangosodd ddiddordeb ddarparu'r gweithgareddau a nodwyd yn y lleoliadau a awgrymwyd. Cadarnhawyd y darparwyr fel:

i. Awyr Agored Iwerydd – yr adran awyr agored yng Ngholeg Iwerydd;
ii. Brawd/Anturio – darparwr SUP lleol;
iii. Ysgol Syrffio Southerndown;

iv. Sgowtiaid Tir a Môr;
v. Geo Deithiau;
vi. Canolfan Dreftadaeth yr Arfordir;
vii. Beach Academy Cymru;
viii. Island SUP.

## 4.4 Yr Anawsterau / Rhwystrau / Pryderon

Nid oedd trefnu a darparu Digwyddiad Arddangos Antur Untro yn ddigwyddiad heb anawsterau, rhwystrau a phryderon, sef:

### 4.4.1 Addasrwydd Afon Ewenni ac Afon Ogwr ar gyfer y cyfranogwyr tebygol

Dynododd y darparwr gweithgarwch antur ar gyfer gweithgareddau SUP bod Afon Ewenni ac Afon Ogwr yn lleoliadau gwych er mwyn gallu teithio ar SUP i ac o aber yr afon yn nhraeth Ogwr, ond roedd llif yr afon a'r llanw'n debygol o greu amodau y tu hwnt i allu'r cyfranogwyr tebygol.

➢ Y canlyniad felly oedd diystyru'r lleoliadau hyn ar gyfer y digwyddiad yma.

### 4.4.2 Y defnydd o'r arfordir rhwng Southerndown ac Ogwr, gan gynnwys Afon Ewenni ac Afon Ogwr

Mae'r lleoliadau hyn yn eiddo preifat i Stad Dunraven ac yn cael eu rheoli gan asiant tir. Mae angen caniatâd ar gyfer cael mynediad i'r safleoedd hyn ar gyfer gweithgarwch masnachol a/neu hamdden. Trefnodd Cymunedau Gwledig Creadigol gyfarfod rhwng WATO a'r asiant tir ac yn y cyfarfod hwn gwnaed y ceisiadau canlynol:

➢ Am ddyfarnu caniatâd i Awyr Agored Iwerydd gyflwyno gweithgareddau arforgampau rhwng West Farm (GR.SS875738 a GR.SS860755);
➢ Am ddyfarnu caniatâd i Ysgol Syrffio Southerndown gyflwyno gweithgareddau syrffio ar Draeth Southerndown (GR.SS884731);
➢ Am ddyfarnu caniatâd i Glwb Esgyn De Orllewin Cymru (Paragleidio) gynnal gweithgareddau paragleidio ar gyfer Aelodau'r Clwb yn unig o Faes Parcio Southerndown (GR.SS881735) ar gyfer y digwyddiad unigol hwn;
➢ Dyfarnodd Stad Dunraven ganiatadau ar gyfer gweithgareddau Arforgampau a Syrffio i'r darparwyr a enwyd (yn amodol ar Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn caniatáu mynediad i'w Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA'oedd) ond gwrthododd ganiatadau ar gyfer unrhyw weithgarwch paragleidio.

### 4.4.3 Mae gan yr arfordir sydd wedi'i nodi uchod nifer o SoDdGA'oedd sydd wedi'u dynodi gan CNC

Cysylltodd WATO â'r Swyddog yn CNC sy'n gyfrifol am yr ardal sydd wedi'i nodi o'r arfordir a gwnaeth y cais canlynol:

- Am ddyfarnu caniatâd i Awyr Agored Iwerydd gyflwyno gweithgareddau arforgampau rhwng West Farm (GR.SS875738 a GR.SS860755);
- Cytunodd CNC i roi caniatâd i Awyr Agored Iwerydd gyflwyno gweithgareddau Arforgampau ar hyd yr arfordir a nodir, yn amodol ar amrywio eu llwybrau ar y tir i leihau'r effaith.

### 4.4.4 Defnyddio Trwyn y Rhws ar gyfer gweithgareddau SUP a chanŵio a chaiacio agored

Nododd archwiliad y lleoliad bod Trwyn y Rhws yn lleoliad delfrydol ar gyfer gweithgarwch chwaraeon rhwyfo, yn amodol ar ddatblygu seilwaith. Chwarel segur yw'r safle gyda chyfres o dri llyn, gydag un yn faint delfrydol i ddatblygu gweithgareddau chwaraeon rhwyfo. Gwnaeth yr adran Cymunedau Gwledig Creadigol, ar ran WATO, y cais canlynol i Wasanaethau Gweladwy a Thrafnidiaeth Bro Morgannwg (BM):

- Am ddyfarnu caniatâd i Brawd/Anturio ac Awyr Agored Iwerydd gyflwyno gweithgareddau chwaraeon rhwyfo ar Lyn Trwyn y Rhws (GR.ST066657).
- Darparodd Gwasanaethau Gweladwy a Thrafnidiaeth BM yr ymateb canlynol: *'Nid ydym yn caniatáu cychod ar ddŵr Trwyn y Rhws*'. Cafodd cais pellach am '*fwy o fanylion am y rhesymeg oherwydd y byddai o help i'w chynnwys yn ein hastudiaeth ddichonoldeb am leoliadau gweithgarwch posib yn y Fro*' yr ymateb canlynol: *'…… pan gafodd y safle ei adeiladu nid oedd yn caniatáu unrhyw chwaraeon na nofio ar y llynnoedd; nid ydynt chwaith yn caniatáu pysgota oherwydd mae i fod yn warchodfa natur;* a bod *'digon o arwyddion o amgylch yr ardal yn nodi hyn'.*
- Gwrthododd Gwasanaethau Gweladwy a Thrafnidiaeth BM ganiatadau ar gyfer unrhyw weithgareddau chwaraeon rhwyfo.

### 4.4.5 Darparwr gweithgarwch antur wedi rhoi'r gorau i ddarparu gweithgareddau yn ystod y digwyddiad

Ar ôl cytuno i gyflwyno gweithgareddau syrffio, rhoddodd y darparwr gweithgarwch y gorau i fod yn rhan o'r cytundeb i gyflwyno gweithgareddau syrffio ar gyfer y digwyddiad. Cysylltodd WATO ag Ysgol Syrffio Porthcawl gan wneud y cais canlynol:

- I Ysgol Syrffio Porthcawl ystyried darparu gweithgareddau syrffio ar gyfer y digwyddiad Antur Untro ac fe wnaethant hynny.

#### 4.4.6 Achredu darparwr gweithgarwch antur

Un o'r meini prawf ar gyfer denu darparwyr gweithgarwch antur i gyflwyno rhai gweithgareddau (arforgampau, SUP, canŵio agored, syrffio) ar gyfer y digwyddiad yma oedd iddynt fod wedi'u hachredu gan drydydd parti ar gyfer y gweithgarwch y byddant yn ei gyflwyno. Nododd WATO bod rhaid i'r achrediad trydydd parti gynnwys ymweliad archwilio gan y trydydd parti a chynnwys archwiliad rheoli diogelwch ac arsylwi gweithgarwch fel isafswm, yn unol ag 'arfer da'. Hefyd, efallai y bydd Rheoliadau Trwyddedu Gweithgareddau Antur y Gweithgor Iechyd a Diogelwch (HSE) eisiau i Ddarparwr Gweithgarwch Antur fod â thrwydded statudol yr Awdurdod Trwyddedu Gweithgareddau Antur (AALA), yn amodol ar ddarpariaeth y darparwyr gweithgarwch yn dod oddi mewn i gwmpas yr AALR. O ran 'diwydrwydd dyladwy', gwnaeth WATO y cais canlynol gan y darparwyr gweithgarwch antur a nodwyd:

- I'r holl ddarparwyr gweithgarwch antur ddarparu tystiolaeth o archwiliad llwyddiannus gan gynllun achredu trydydd parti, a all gynnwys dal Trwydded AALA, yn amodol ar yr AALR. Darparwyd tystiolaeth o hyn gan y darparwyr dan sylw;
- Nid yw natur lefel isel y gweithgareddau sy'n weddill yn gofyn i ddarparwyr gweithgarwch gael eu harchwilio gan gynllun achredu trydydd parti.

## 4.5 Ymgysylltu â'r sector ehangach

Nodwyd o'r dechrau y byddai digwyddiad o'r fath yn elwa'n sylweddol o wahodd y sector twristiaeth ehangach i fod yn rhan ohono, i arddangos ei ddarpariaeth a dangos cyswllt rhwng yr agweddau niferus ar y sector. Gwahoddodd WATO:

- Pawb a oedd wedi dangos diddordeb mewn dod i'r digwyddiadau ymgynghori cychwynnol, os oeddent yn bresennol ai peidio;
- Y busnesau sy'n weddill yn y sector twristiaeth y mae Gwasanaethau Twristiaeth BM yn gwybod amdanynt.

Galluogodd canlyniad y gwahoddiadau hyn WATO i ymwneud yn uniongyrchol â'r busnesau unigol hynny oedd â diddordeb ac arweiniodd at y busnesau/sefydliadau canlynol yn cytuno i arddangos/hybu eu hunain yn ystod y digwyddiad:

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Twristiaeth BM | Cymunedau Gwledig Creadigol | Gwasanaeth Cefn Gwlad | | Canolfan Dreftadaeth yr Arfordir | |
| Awyr Agored Iwerydd | Ysgol Syrffio Porthcawl | Sgowtiaid Tir a Môr | Geo Deithiau | Atlantic Pacific | RNLI |
| Brawd / Ms Fit | Beach Academy Cymru | Dylans Tours | Valeways | Her Cymru | Anturio |
| Ramblers Cymru, gan gynnwys CNC a Llwybr Arfordir Cymru | | AdventureSmart | | Up & Under Outdoor Gear | |

Tabl 3. Wider sector engagement

## 4.6 Y rhaglen Antur Untro

Yn gysyniadol, dechreuodd y rhaglen fel 'rhestr ddymuniadau' o bosibiliadau ac roedd yn cynnwys y canlynol:

| Gweithgareddau Oddi ar y Safle | | | |
|---|---|---|---|
| Gweithgareddau Syrffio | Caiacio | Canŵio Agored | Nofio Gwyllt |
| Dringo Creigiau | Arforgampau | Paragleidio | Gweithgareddau Achub Bywyd |
| Gweithgareddau Traeth | Teithiau Daeareg a Llwybrau Natur | Rhwyf-fyrddio yn Sefyll | Crefft y Gwyllt ac Ysgolion y Fforest |
| **Gweithgareddau Ar y Safle** | | | |
| Dringo | Rhaffau Uchel | Caiacio | Achub Bywyd |
| Gweithgareddau Traeth | Teithiau Diwylliannol Castle & Vale | Creu Helyg | Gweithdai Little Teepee |
| Adwerthwyr Awyr Agored | Ffilm Antur | Sgyrsiau | Saethyddiaeth |

Tabl 4. 'Rhestr ddymuniadau' Antur Untro

Ond yn y pen draw penderfynwyd ar y rhaglen gan y canlynol:

- Hyd y digwyddiad – diwrnod sengl, dyddiau niferus ac ati;
- Lleoliad(au) y digwyddiadau – hwb sengl, hwb a sbardun ac ati;
- Argaeledd partneriaid/rhanddeiliaid allweddol – hwb (hybiau), darparwyr gweithgarwch, sector ehangach.

Wrth i'r sgyrsiau ddatblygu ac wrth i gytundeb gael ei ffurfio gyda Choleg Iwerydd ar gyfer cynnal y digwyddiad Antur Untro mewn partneriaeth â'i Ffair Haf, oedd wedi'i threfnu ar gyfer dydd Sul 9fed Mehefin 2019, dechreuodd y 'rhestr ddymuniadau' siapio, gan arwain at y rhaglen derfynol isod:

<table>
<tr><th colspan="3">Antur Untro ar y safle</th><th colspan="2">Antur Untro oddi ar y safle</th></tr>
<tr><td>Taflu Bwyell</td><td colspan="2">Cae Ymryson<br>11:00-16:00</td><td rowspan="2">Rhwyf-fyrddio yn Sefyll (Angen archebu ymlaen llaw)</td><td rowspan="2">Llynnoedd Cosmeston<br>10:00-12:00<br>14:00-16:00</td></tr>
<tr><td>Wal Ddringo</td><td colspan="2">Parth Antur<br>11:00-12:30<br>13:30-16:00</td></tr>
<tr><td>Rhaffau Uchel</td><td colspan="2">Parth Antur<br>11:00-12:30<br>13:30-16:00</td><td rowspan="3">Canŵio Agored (Angen archebu ymlaen llaw)</td><td rowspan="3">Llynnoedd Cosmeston<br>10:00-12:00<br>14:00-16:00</td></tr>
<tr><td>Hela Ffosilau i bobl fwy Anturus</td><td rowspan="3">Ardal y Traeth</td><td>14:00-15:30</td></tr>
<tr><td>Helfa Ffosilau i Deuluoedd</td><td>16:00-17:30</td></tr>
<tr><td>Crwydro Pyllau Creigiog</td><td>15:00-17:30</td><td rowspan="3">Arforgampau (Angen archebu ymlaen llaw)</td><td rowspan="3">Cyfarfod yn y Parth Antur @ 10:00<br>Southerndown i Ogwr<br>Dychwelyd erbyn 14:00</td></tr>
<tr><td>Taith Natur</td><td colspan="2">Ardal Coetir<br>12:00-13:00<br>16:00-17:00</td></tr>
<tr><td>Sesiwn Ffitrwydd yn yr Awyr Agored i Deuluoedd</td><td colspan="2">Cae Ymryson<br>14:00-14:45</td></tr>
<tr><td>Sesiwn Ioga yn yr Awyr Agored i Deuluoedd</td><td colspan="2">Gerddi Glas<br>15:00-16:00</td><td rowspan="3">Cyflwyniad i Syrffio (Angen archebu ymlaen llaw)</td><td rowspan="3">Canolfan Dreftadaeth yr Arfordir<br>Southerndown<br>13:00-13:30</td></tr>
<tr><td>Arddangosfa Cwrwgl</td><td colspan="2">Pwll Nofio Awyr Agored – Glan y Môr<br>11:30-12:00<br>14:30-15:00</td></tr>
<tr><td>Gweithdy a Chwchdy</td><td colspan="2">Glan y Môr<br>11:00-16:00</td></tr>
</table>

Tabl 5. Rhaglen Derfynol Antur Untro

## 4.7 Cynllun Marchnata'r Antur Untro

Er mwyn marchnata'r digwyddiad, lluniwyd cynllun marchnata gennym a'i rannu gyda'r holl bartneriaid. Oherwydd rhywfaint o anawsterau gyda dewis y gweithgareddau'n derfynol, roedd oedi gyda gallu cymeradwyo'r daflen a'r datganiad i'r wasg, ac felly pump wythnos oedd y cyfnod

paratoi ar gyfer marchnata. Cyn hyn, roeddem wedi dechrau rhannu manylion am y digwyddiad ond nes bod y rhaglen o weithgareddau'n derfynol, ni wnaethom ryddhau'r wybodaeth na thocynnau drwy Ticket Source. Rhoddwyd y camau gweithredu canlynol ar waith i farchnata'r digwyddiad:

- ➢ Marchnata ar y cyd rhwng WATO, Cyngor Bro Morgannwg a Choleg Iwerydd;
- ➢ Rhestru gweithgareddau i'w harchebu ar Ticket Source, oedd hefyd yn cynnwys gwybodaeth a dolenni at y Ffair Haf;
- ➢ Cysylltu â thri phapur newydd lleol ac anfon y daflen ddigidol a'r datganiad i'r wasg atynt: Barry District, The Gem a South Wales Argus;
- ➢ Rhestrwyd y digwyddiad ar 11 safle rhestru digwyddiadau lleol, fel Penarth View a Cowbridge Guide;
- ➢ Cysylltu â thua 5 dylanwadwr lleol ac ymatebodd rhai i ddweud nad oedd ganddynt ddiddordeb am eu bod yn brysur. Ymatebodd *100 Things to Do in Wales* gyda diddordeb a rhoddwyd dau docyn iddynt i roi cynnig ar ganŵio i ddiolch am neges Instagram cyn ac ar ôl y digwyddiad, a stori ar Instagram cyn ac ar ôl y digwyddiad. Dim ond micro-ddylanwadwr yw *100 Things to Do in Wales* gyda dilyniant o 5.5k, ond mae ei dilynwyr yn byw yng Nghaerdydd ac yn ymddiddori mewn antur, gan alluogi i ni gyrraedd ein demograffig targed. O ganlyniad, dywedodd llawer o bobl eu bod wedi mynychu'r digwyddiad ar ôl gweld y negeseuon;







Stori *100 Things to do in Wales* ar Instagram i hybu'r digwyddiad arddangos







Fe wnaeth *100 Things to do in Wales* ddilyn eu profiad gyda sawl stori a neges bositif ar Instagram.

- Cafodd y daflen a'r dolenni i Ticket Source eu rhoi ar 23 o grwpiau Facebook;
- Defnyddiwyd tudalen Facebook Epic Road Trip Wales, sy'n cael ei rheoli gan Eryri Bywiol, i hybu'r digwyddiad. Cafodd y negeseuon eu hybu drwy dalu am hysbysebu;
- Rhoddodd timau twristiaeth Bro Morgannwg negeseuon rheolaidd a rhestr o ddigwyddiadau ar eu tudalen Facebook, Ymweld â'r Fro. Hefyd aethant ati i ddosbarthu'r daflen ddigidol i'w rhestr o gysylltiadau, sy'n cynnwys busnesau lleol;
- Rhoddodd y darparwyr gweithgarwch sy'n ymwneud â darparu gweithgareddau y manylion ar eu llwyfannau cyfryngau cymdeithasol;
- Anfonwyd y daflen ddigidol a'r datganiad i'r wasg at yr holl randdeiliaid oedd yn rhan o'r prosiect;
- Anfonwyd y daflen ddigidol a'r datganiad i'r wasg at 12 ysgol yn y Fro.

## 4.8 Mesur llwyddiant y digwyddiad

Byddai llwyddiant y digwyddiad yn dibynnu ar nifer o ffactorau:

1. Oedd digon o gynllunio wedi bod cyn y digwyddiad?
2. A fyddai'r tywydd a chyflwr y môr o'n plaid ni ar y diwrnod?
3. A fyddai'r holl ddarparwyr gweithgarwch yn dod i'r digwyddiad, fel y cytunwyd?
4. A fyddai'r gweithgareddau oddi ar y safle'n cael eu harchebu ymlaen llaw?

5. A fyddai'r gweithgareddau ar y safle'n apelio at y gynulleidfa?
6. A fyddai'r arddangoswyr i gyd yn dod?

Er bod y ffactorau hyn i gyd, ac eithrio sicrhau digon o gynllunio, allan o'n dwylo ni, byddent yn cael effaith sylweddol ar lwyddiant y diwrnod.

**4.8.1 Cynllunio**

Fel y dynodwyd yn flaenorol yn yr adroddiad hwn, cynhaliwyd sawl cyfarfod cynllunio gyda'r tîm a rhanddeiliaid/partneriaid allweddol; sawl sgwrs gyda darparwyr gweithgarwch ac arddangoswyr posib; cyfarfod a sgyrsiau dilynol gyda'r perchennog tir perthnasol a'r CRhC. Canlyniad hyn oedd y rhaglen a gynlluniwyd.

**4.8.2 Amodau Amgylcheddol – Y tywydd**

Byddai'r gweithgareddau oddi ar y safle'n cael eu cynnal beth bynnag fyddai'r tywydd disgwyliedig yn ystod mis Mehefin, ond gallai gwyntoedd cryf yn arwain at y dyddiad arfaethedig effeithio ar gyflwr y môr (gweler isod). Roedd cynllun wrth gefn wedi'i ystyried ar gyfer y gweithgareddau ar y safle a byddai'n cael ei weithredu pe bai hynny'n gwbl angenrheidiol. Roedd y rhagolygon yn arwain at y dyddiad arfaethedig yn dynod diwrnod gwlyb a gwyntog ond wrth i'r dyddiad ddod yn nes, newidiodd y rhagolygon, a arweiniodd at ddiwrnod heulog/cymylog gyda'r posibilrwydd o gawodydd ganol y dydd, amodau cymharol ddelfrydol ar gyfer y digwyddiad. Dyna'n union a gafwyd.

**4.8.3 Amodau Amgylcheddol – Y môr**

Chwaraeodd y ffactorau canlynol ran mewn cynllunio ar gyfer y diwrnod, yn ogystal â dull deinamig y darparwyr o weithredu drwy gydol y sesiwn ar y diwrnod.

- ➢ Mae gweithgareddau arforgampau a syrffio'n dibynnu ar yr amodau ar y môr, yn ogystal ag amseroedd y llanw;
- ➢ Gallai gormod o ymchwydd (tonnau) ddarparu amodau sy'n mynd yn groes i'r gweithdrefnau gweithredol safonol a'r 'arfer da' ar gyfer y ddau weithgaredd;
- ➢ Gallai dim digon o ymchwydd arwain at amodau gwael ar gyfer gweithgareddau syrffio;
- ➢ Byddai llanwau uchel yn gweithio i arforgampau yn y lleoliad oedd wedi'i ddewis;
- ➢ Llanw'n gostwng (2 awr ar ôl y llanw uchel) fyddai'n gweithio orau i weithgareddau syrffio ar Draeth Southerndown.

Wrth lwc, talodd ein cynllunio ar ei ganfed ac er gwaethaf problem fach gyda'r llanwau yn ystod 30 munud cyntaf y sesiwn syrffio, aeth popeth fel y cynlluniwyd.

**4.8.4. Y Darparwyr Gweithgarwch**

Cafodd y rhain eu dewis yn dilyn eu parodrwydd i weithio gydag Antur Untro, ond ni chawsant eu cadarnhau nes bod diwydrwydd dyladwy wedi'i gwblhau gan WATO. Roedd WATO yn adnabod pob un ond un o'r darparwyr gweithgarwch, gan roi llawer o sicrwydd o ran eu dibynadwyedd. Daeth pob un ond un i'r digwyddiad ar y diwrnod a darparu'r cynnyrch y cytunwyd arno. Dyma'r darparwyr gweithgarwch:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Awyr Agored Iwerydd | Ysgol Syrffio Porthcawl | Geo Deithiau De Cymru | Brawd / Ms. Fit |
| Anturio | Sgowtiaid Tir a Môr | Gwasanaeth Cefn Gwlad Bro Morgannwg | |

**4.8.5 Gweithgareddau Oddi ar y Safle**

Cytunwyd y gellid archebu'r holl weithgareddau oddi ar y safle ymlaen llaw cyn dyddiad y digwyddiad. Cafodd y gweithgareddau hyn eu hybu ar Ticket Source a darparwyd yr holl wybodaeth berthnasol am bob un o'r gweithgareddau. Roedd yr archebion cychwynnol yn araf ond cyson, ac wrth i gynllun marchnata'r digwyddiad gynyddu, felly hefyd yr archebion. Roedd y rhwyf-fyrddio yn sefyll (CUP) wedi gwerthu pob tocyn. Er bod y digwyddiadau'n fyw, nodwyd nad oedd y rhestr ar Ticket Source yn cyfeirio cyfranogwyr posib yn glir at yr holl wybodaeth berthnasol, felly newidiwyd y rhestr i gywiro hyn. Canlyniad hyn yw mai syrffio werthodd yn llwyr nesaf, ac wedyn arforgampau yn agos iawn ac wedyn canŵio agored. Mae cyfanswm y cyfranogwyr a gymerodd ran yn y gweithgareddau oddi ar y safle fel a ganlyn:

- SUP – **24** (mewn dau sesiwn 2 awr);
- Syrffio – **20** (mewn un sesiwn 2 awr);
- Arforgampau – **10** (mewn un sesiwn 3 awr);
- Canŵio Agored – **32** (mewn dau sesiwn 2 awr).



Syrffio yn Southerndown



Canŵio yn Cosmeston

**4.8.6 Gweithgareddau Ar y Safle**

Elwodd y gweithgareddau ar y safle cytunedig ar y cyfleusterau oedd ar gael i ni ar safle Coleg Iwerydd: tŵr dringo a rhaffau uchel; pwll nofio awyr agored; glan y môr; cae ymryson; gardd dawel o'r neilltu; a neuadd chwaraeon dan do yn galluogi cynnal y rhan fwyaf o'r gweithgareddau pe bai'r tywydd yn anffafriol. Cynhaliwyd pob un ond un o'r gweithgareddau a drefnwyd, gyda chryn dipyn o lwyddiant o ran niferoedd:



Wal ddringo ar safle Coleg Iwerydd

| |
|---|
| Dringo a rhaffau uchel – **70** (mewn dau sesiwn – 11:00-12:30 a 13:30-16:00) |
| Hela ffosilau – **50** (mewn dau sesiwn 1 awr) |
| Llwybr Natur – **1** (mewn un sesiwn 1 awr) |
| Sesiwn ffitrwydd awyr agored i deuluoedd – **10** (mewn un sesiwn 1 awr) |
| Sesiwn ioga awyr agored i deuluoedd – **15** (mewn un sesiwn 1 awr) |
| Taflu bwyell – **150** (drwy gydol y dydd rhwng 11:00 a 16:00) |
| Crwydro pyllau creigiog – Heb gynnal y gweithgaredd, diffyg cyfathrebu gan ddarparwr y gweithgaredd |
| Cyfanswm y cyfranogwyr a gymerodd ran mewn gweithgareddau ar ac oddi ar y safle yw: **382** |






Gyda'r cloc: Taflu bwyell, ioga teulu, arddangosfa cwrwgl, hela ffosilau

**4.8.7. Yr Arddangoswyr**

Gwnaeth yr arddangoswyr i gyd ddefnydd o gwrt tennis mawr a oedd wedi cael ei roi i Antur Untro a'r Parth Antur am y diwrnod. Am yn ail â Café 83 a nifer o bebyll mawr oedd wedi cael eu codi ar gyfer ymwelwyr i eistedd ac yfed eu coffi, roedd presenoldeb yr arddangoswyr yn edrych yn dda yn weledol i bawb ac yn bleser ymweld â hwy. Y rhain oedd:

- AdventureSmart.uk
- Anturio
- Awyr Agored Iwerydd
- Atlantic Pacific
- Brawd / Ms Fit

- Dylans Tours
- Ramblers Cymru, gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru a Llwybr Arfordir Cymru
- RNLI
- Geo Deithiau De Cymru
- Sgowtiaid Tir a Môr
- Up & Under Outdoor Gear
- Gwasanaeth Cefn Gwlad Bro Morgannwg a Chanolfan Dreftadaeth yr Arfordir
- Gwasanaethau Twristiaeth Bro Morgannwg a Chymunedau Gwledig Creadigol
- Valeways

## 4.9 Gwirfoddoli a chyllid cyfatebol

Cafwyd y cyfraniadau heb fod yn arian canlynol:

| | |
|---|---|
| Gofod ar gyfer y digwyddiad gan Goleg Iwerydd | £600.00 |
| Amser staff Coleg Iwerydd: Cyfarfodydd, gweinyddol, cefnogaeth weithredol - 4 diwrnod @ £250/y dydd | £1000.00 |
| Amser staff Coleg Iwerydd: Darpariaeth dechnegol - 1 diwrnod @ £500/y dydd | £500.00 |
| Amser staff Coleg Iwerydd: Paratoi a chyflwyno - 5 diwrnod @ £150/y dydd | £750.00 |
| Llety £40 pppp | £80.00 |
| 12 swyddog 8.5 awr yr un @ £10.65/yr awr | £1086.30 |
| Cyfateb gan randdeiliaid (darparwyd tystiolaeth gan BM) | £609.27 |
| Cyfanswm (ac eithrio TAW) | £4625.57 |

Mae'r datganiad o dystiolaeth o gyfraniadau heb fod yn arian i'w weld yn atodiad B.

## 4.10 Dadfriffio a gwerthuso'r digwyddiad

Anfonwyd gwahoddiad gan WATO at bawb a oedd yn ymwneud â darparu'r gweithgareddau a'r arddangosfeydd yn yr Antur Untro i naill ai fynychu digwyddiad dadfriffio os oeddent yn dymuno, i gael sgyrsiau am y cwestiynau sydd wedi'u nodi uchod, neu ddarparu gwerthusiad o'r digwyddiad, yn seiliedig ar y cwestiynau sy'n cael eu trafod.

Er mwyn gallu casglu gwybodaeth berthnasol, mae'n bwysig gosod y digwyddiad a'i resymeg yn eu cyd-destun: *Y sbardun gwreiddiol ar gyfer y digwyddiad arddangos oedd arddangos lleoliadau*

*niferus a'r potensial ar gyfer gwella'r ddarpariaeth antur yn y Fro wledig, gan gynnwys yr Arfordir Treftadaeth.*

Dyma'r cwestiynau a ofynnwyd:

1. *Beth wnaeth cymryd rhan yn yr Antur Untro yn brofiad positif i chi?*
2. *Beth fyddech chi'n ei newid/ychwanegu i wella unrhyw ddigwyddiad o'r natur yma yn y dyfodol?*
3. *Yn y cyd-destun ehangach, beth fyddai'n cefnogi datblygu/amlygrwydd y gweithgareddau antur yn y fro wledig ac ar yr arfordir?*

Mae'r canlynol yn sylwadau gan y rhai wnaeth gymryd rhan, ynghyd ag ymatebion gan dîm WATO:

| Sylwadau | Ymatebion a chamau gweithredu (os oes angen) |
|---|---|
| Adwaith da gan ymwelwyr Cosmeston a Southerndown. Fe wnaeth cynnig y gweithgareddau hyn greu awyrgylch da ac roedd pobl eisiau cymryd rhan, ac yn gofyn am fwy o sesiynau 'blasu'. | **Ymateb:** Man cychwyn postif, gwych!<br>**Cam gweithredu:** *mwy o gyfleoedd am sesiynau 'blasu'.* |
| Byddai wedi bod yn dda gallu talu gyda cherdyn neu arian parod ar y diwrnod yn y dyfodol. Roedd y sylw hwn o ganlyniad i rywun yn ceisio archebu sesiwn llawn ond ddim yn sylweddoli ei fod yn llawn. | **Ymateb:** Roedd taliadau gyda cherdyn ar gael ar y safle yn Cosmeston, drwy Ticket Source, ar yr amod bod llefydd ar ôl i'w harchebu. Roedd Wifi ar gael yn y caffi yn Cosmeston i alluogi mynediad i Ticket Source.<br>Cytunodd tîm WATO cyn y digwyddiad ei bod yn well peidio â chymryd arian parod ar y diwrnod, dim ond i osgoi cymhlethdodau y tro hwn.<br>Gan fod y Syrffio wedi'i archebu'n llawn, nid oedd angen cynnig unrhyw daliadau yn y lleoliad hwn.<br>**Cam gweithredu:** *Bydd cymryd taliadau (arian parod neu gerdyn) ar ddiwrnod y digwyddiad yn rhywbeth y bydd angen ei ystyried ar gyfer digwyddiadau yn y dyfodol.* |
| Mae Llynnoedd a Pharc Gwledig Cosmeston yn awyddus i weld hyn yn digwydd eto, a gwneud eu trefniadau eu hunain efallai ar gyfer gweithgarwch yn y dyfodol. | **Ymateb:** Dyma'r math o beth rydym eisiau ei weld yn digwydd o ganlyniad i'r astudiaeth ddichonoldeb hon.<br>**Cam gweithredu:** *Mynd ar ôl sut gellir cyflawni hyn.* |
| Roedd Rheolwr Hamdden Fontegary yn Cosmeston a dywedodd eu bod yn awyddus i ddod yn hwb awyr agored. | **Ymateb:** Eto, canlyniad positif.<br>**Cam gweithredu:** *Dilyniant.* |
| **Parth Antur Untro (Cyrtiau Tennis):** Ai dyma'r lleoliad iawn? Efallai y byddai un o'r lawntiau'n nes at y castell ar y llwybr i lawr at y traeth wedi denu mwy o ymwelwyr. Hefyd yn teimlo y gallai mwy o weithgarwch yn ardal y cwrt tennis fod wedi creu gwell awyrgylch a chadw pobl yno am gyfnod hirach. | **Ymateb:** Roedd arwyddion da i'r lleoliad untro felly ddim yn sicr a fyddai lleoliad gwahanol wedi gweithio'n well a denu mwy o ymwelwyr. Mae ardal y cwrt tennis yn fawr a byddai wedi cael llawer mwy o effaith bositif pe bai mwy o weithgarwch yn cael ei gynnig.<br>**Cam gweithredu: Mwy o weithgarwch yn y Parth Antur y tro nesaf.** |
| Dywedodd Coleg Iwerydd ei fod yn ystyried dod yn fusnes awyr agored ar wahân a hwb awyr agored. | **Ymateb:** Canlyniad positif arall eto.<br>**Cam gweithredu:** Dilyniant gyda Choleg Iwerydd. |
| Daeth darparwr gweithgarwch sy'n cynnig beicio ffordd tywys yn y Fro i deuluoedd a merched at aelod o dîm WATO i gyflwyno ei hun. | **Ymateb:** A wnaethom gasglu ei manylion?<br>**Cam gweithredu:** Dilyniant. |

| Sylwadau | Ymatebion a chamau gweithredu (os oes angen) |
|---|---|
| Dyhead yn gyffredinol am leoliad canolog i roi cyhoeddusrwydd i'r holl bethau cysylltiedig ag antur yn y Fro. | **Ymateb/Cam gweithredu:** *Gwerth nodi Pyrth y Fro i edrych ar sut gellir manteisio i'r eithaf arnynt i arddangos y ddarpariaeth – gwefan Ymweld â'r Fro gyda thudalen benodol ar gyfer y ddarpariaeth antur.* |
| Yn gyffredinol, roedd pobl yn awyddus i weld mwy, eisiau llawer o gyhoeddusrwydd a dewis, ac i hyn fod yn rheolaidd, fforddiadwy ac ar lefel mynediad. | **Ymateb:** Sylwadau positif. O ran bod yn ymarferol i fusnesau awyr agored, mae lefel mynediad yn gweithio i sesiynau blasu fel sesiynau clwb. Fodd bynnag, mae mwy o gyfle 'masnachol' hefyd, gyda'r farchnad dwristiaeth, a Phen-y-bont ar Ogwr a Chaerdydd, yn ogystal â'r holl botensial am ddyddiau corfforaethol. Yn enwedig ar gyfer safleoedd fel Coleg Iwerydd.<br>**Camau gweithredu:** *Ystyried nodi'r ddarpariaeth o weithgareddau a'r lefel – mynediad, canolraddol, uwch; Ystyried sut gellir rhoi cyhoeddusrwydd eang iddynt – ar-lein, cyhoeddiadau ac ati; Ystyried cynnig sesiynau rheolaidd drwy gydol y tymor.* |
| Cyllideb gyfyngedig – cyfyngu ar beth ellir ei gyflawni Amrywiaeth wych o weithgareddau oddi ar y safle wedi'u harchebu'n llawn – yn dangos gwaith partneriaeth a diddordeb y sector. | **Ymateb:** Sylwadau positif. Cyllidebau cyfyngedig hefyd yn helpu i flaenoriaethu. |
| Wedi cadw at amser | **Ymateb:** Cynllunio da! |
| Amrywiaeth eang o gyfranogwyr – lleol yn bennaf | **Ymateb:** 382 o gyfranogwyr yn yr holl weithgareddau; tua 2,000 o bobl wedi'u cofnodi ar y safle. |
| Cost isel y digwyddiadau'n eu gwneud yn boblogaidd – gyda phobl na fyddai'n eu hystyried fel arall (h.y. syrffio) – dangos yr angen/cyfleoedd am chwaraeon clwb. | **Ymateb:** A fyddai cleientiaid yn talu'r gyfradd arferol?<br>**Cam gweithredu:** *Sicrhau y tynnir sylw at gyfleoedd clwb wrth farchnata darpariaeth y Fro o weithgareddau antur.* |
| Cawsom geisiadau ar gyfer h.y. gweithgarwch clwb canŵio yn lleol (nodwyd ar ffurflen yr arolwg). | **Ymateb:** Nid oes unrhyw glybiau canŵio yn y Fro.<br>**Cam gweithredu:** *Anfon ymlaen at glybiau canŵio y tu allan i'r Fro.* |
| Roedd yr arolwg o help – i gasglu meddyliau pobl, braf cynnig cymhelliant. | **Ymateb:** Sylw positif. |
| Gweithgareddau ar y safle – amrywiaeth eang, wedi'u gwasgaru ar y safle (mae hyn yn bositif ac yn negatif), niferoedd da, yn enwedig y wal ddringo. Mynediad isel, gweithgareddau hygyrch (llai yn y fersiwn hygyrchedd/ anabl er hynny). Synnu at y diddordeb mawr mewn daeareg/taith gerdded ffosilau – yn enwedig fel PGU BM a chyfle gwirioneddol ar gyfer marchnata yma. | **Ymateb:** Sylwadau positif.<br>**Cam gweithredu:** *Ystyried PGU Antur - 'clogwyni Morgannwg'!* |
| Gwych gallu cynnig y gweithgareddau ar y safle yma am ddim. | **Ymateb:** Sylw positif. |
| Wedi cyrraedd y niferoedd targed | **Ymateb:** Tua 382 ar gyfer y gweithgareddau i gyd; tua 2,000 o ymwelwyr ar y safle. |
| Gwaith tîm da – WATO a Chyngor BM, CGC a Choleg Iwerydd | **Ymateb:** Sylw positif. |
| Coleg Iwerydd yn bositif iawn yn cefnogi'r Parth Antur Untro a'r gweithgareddau oddi ar y safle. | **Ymateb:** Ni fyddai wedi bod yn bosib cyflawni hyn heb gyfraniad Coleg Iwerydd. |

| Sylwadau | Ymatebion a chamau gweithredu (os oes angen) |
|---|---|
| Awyrgylch hynod bositif. | **Ymateb:** Oherwydd pawb cysylltiedig a'u hymrwymiad. |
| Y sefydliadau'n teimo eu bod yn rhan/wedi'u cynnwys. | **Ymateb:** Oherwydd cyswllt WATO â'r sefydliadau. |
| Defnydd llwyddiannus o'r ganolfan dreftadaeth fel man cyfarfod ar gyfer y gweithgareddau syrffio. | **Ymateb:** Wedi gwneud defnydd da o gyfleusterau ac adnoddau presennol y Fro. |
| Heriau o ran llanwau – gwybodaeth leol, benodol i safle, yn hanfodol ar gyfer syrffio/ gweithgareddau ar y traeth. | **Ymateb:** Problem fechan gydag amseroedd y llanw ond cafodd ei goresgyn heb unrhyw drafferthion mawr.<br>**Cam gweithredu:** Sicrhau mwy o ymwybyddiaeth i osgoi unrhyw broblemau y tro nesaf. |
| Heriau'r tywydd – roeddem yn lwcus. | **Ymateb:** Er na fyddai'r tywydd wedi atal y gweithgarwch, efallai y byddai diwygiadau wedi bod yn angenrheidiol. |

Pe bai'r cyfle'n codi ar gyfer digwyddiad arddangos dilynol yn 2020, yn ychwanegol at roi'r camau gweithredu a nodwyd uchod ar waith, byddai hefyd yn werth ystyried y canlynol:

- Sefydlu gweithgarwch trawiadol i ddal y llygaid yn y parth untro, yn amodol ar gyllideb;
- Cynnig amrywiaeth eang o weithgareddau;
- Cynnwys darparwyr yn gynharach yn y gwaith cynllunio;
- Cynyddu gallu gweithgareddau oddi ar y safle fel bod pobl yn gallu ymuno ar y diwrnod;
- Cynnwys mwy o 'weithgarwch' yn y lleoliad hwb untro;
- Dechrau cydweithredu yn llawer cynt;
- Ystyried defnyddio'r holl erddi teras, a fyddai'n darparu rhywbeth gweledol tuag at ardal y pwll a'r traeth;
- Defnyddio mwy ar ardal y pwll – derbyn cynnig Up & Under i ddefnyddio eu rhwydwaith;
- Gwell marchnata a chyfleoedd marchnata ar y cyd, yn enwedig os yn cael ei gynnal ochr yn ochr â'r Ffair Haf;
- Talu am ymgysylltu ar gyfryngau cymdeithasol;
- Creu mwy o ymdeimlad gŵyl ac ymestyn dros rai dyddiau/wythnos;
- Creu canolbwynt/man canolog;
- Gweithgareddau ychwanegol - beicio, digwyddiad wltra, caiacio eistedd-ar-y-top, dringo, yn ogystal â SUP, syrffio, arforgampau;
- Creu Brand Antur y Fro.

# 5. Arolwg Ymwelwyr Antur Untro

Yn y digwyddiad Antur Untro (9fed Mehefin 2019) rhoddwyd cyfres o gwestiynau i'r cyfranogwyr a'r rhai â diddordeb yn y Parth Antur i gofnodi gwybodaeth am farn yr ymwelwyr a'r trigolion am y gweithgareddau antur ar hyd yr arfordir treftadaeth. Roedd hwn yn gyfle defnyddiol hefyd i gael adborth ar y digwyddiad Antur Untro. Parhawyd i gasglu gwybodaeth drwy'r arolygon hyn ar ôl y digwyddiad, gan eu bod wedi'u dosbarthu i gysylltiadau perthnasol ac ar gyfryngau cymdeithasol. Cawsom 63 ymateb i'r arolwg.

Isod rydym yn crynhoi ymatebion rhanddeiliaid ac yn rhoi rhywfaint o naratif i esbonio perthnasedd y canfyddiadau a sut maent wedi dylanwadu ar argymhellion yr astudiaeth. Mae cyfres lawn o ymatebion ar gael yn atodiad C.

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn drigolion lleol o'r Fro ac felly rydym yn gwybod bod yr adborth a dderbyniwyd drwy gyfrwng yr arolwg hwn yn safbwyntiau'r trigolion yn bennaf. Drwy'r ymchwil rhanddeiliaid gwreiddiol, roedd yn ymddangos bod teimlad ymhlith busnesau nad yw trigolion Caerdydd yn manteisio'n llawn ar ddarpariaeth twristiaeth y Fro. Er mai yng Nghaerdydd oedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn byw, ychydig mae'r canfyddiadau hyn yn ei ddweud am ddarpar ymwelwyr o'r brifddinas. Yr hyn mae'n ei olygu yw bod rhyw elfen o farchnata'r prosiect wedi cyrraedd Caerdydd. Mae angen ymchwil pellach i sefydlu pam nad oes mwy o bobl yn ymweld â'r Fro ar gyfer gweithgareddau antur (argymhelliad 7.1 n)

Mae gwybodaeth am oedran yr ymatebwyr yn arwydd i ni o ba grŵp oedran sydd â'r diddordeb mwyaf mewn gweithgareddau a digwyddiadau antur. Gallwn ddefnyddio'r wybodaeth hon i lywio ymdrechion marchnata yn y dyfodol.

Roedd cyfran sylweddol o'r ymatebwyr yn perthyn i'r categori 26 – 49. Wrth farchnata digwyddiadau neu weithgareddau yn y dyfodol, dylid hybu'r gweithgarwch ar gyfryngau cymdeithasol yn benodol ar gyfer y grŵp oedran hwn (argymhelliad 7.1 f). Mae rhieni teuluoedd yn debygol o berthyn i'r grŵp oedran hwn hefyd felly gallai ddynodi angen am weithgareddau cyfeillgar i deuluoedd.

Yn ddiddorol, er mai dim ond nifer bach oedd y grŵp hwn, y categori dros 60 oed oedd yr ail grŵp mwyaf cyffredin. Gallai hyn ddynodi marchnad yn y Fro ar gyfer gweithgareddau'n targedu pobl sydd wedi ymddeol.

Nid oedd mwy na hanner yr ymatebwyr wedi clywed am y digwyddiad Antur Untro. Y ffordd fwyaf cyffredin o glywed amdano oedd ar gyfryngau cymdeithasol.

Ar gyfartaledd, rhoddwyd cyfradd o 9.2/10 i'r digwyddiad, sy'n dynodi bod y digwyddiad yn ymddangos fel llwyddiant o ran cyflwyno diwrnod pleserus i'r rhai gymerodd ran. Pe bai'r digwyddiad yn cael ei ailadrodd, mae llawer o agweddau positif y dylid eu hailadrodd er mwyn

cyflawni'r un boddhad gyda'r rhai sy'n bresnneol. Datgelodd ein trafodaethau dilynol gyda threfnwyr y digwyddiad feysydd gwella (gweler adran 4.10)

Dyma *Wordle* i gynrychioli'r ymwybyddiaeth o'r gweithgareddau sydd ar gael yn y Fro, fel y rhestrir gan ymatebwyr. Mae *Wordle* yn adnodd ar gyfer creu "cymylau geiriau" o destun. Mae'r cwmwl yn rhoi mwy o amlygrwydd i'r geiriau sy'n ymddangos yn amlach yn ein ffynhonnell ni.




Mae'n glir oddi wrth y *Wordle* bod cerdded, gweithgareddau traeth, syrffio a gwersylla wedi'u rhestru fel y gweithgareddau a gysylltir fwyaf cyffredin â'r Fro. Fel y nodir mewn adrannau eraill yn yr adroddiad hwn, mae'n glir bod amrywiaeth helaeth o weithgareddau antur ar gael yn y Fro ac mae'r ymchwil hwn yn datgelu bod corff o waith i'w gwblhau i hybu'r rhain yn fwy effeithiol ymhlith y trigolion.

Mae'n ymddangos mai cerdded yw'r gweithgaredd y mae pobl yn gwybod mwyaf amdano, gyda llai o ymwybyddiaeth o arforgampau, dringo a beicio mynydd. Mae'n ymddangos bod y diddordeb mwyaf ymhlith pobl sydd eisiau rhoi cynnig ar rwyf-fyrddio yn sefyll, chwaraeon rhwyfo ac arforgampau.

Mae hoffter clir o weithgareddau blasu yn hytrach na thrigolion yn dymuno bod yn arbenigwyr ar un gweithgaredd penodol. Felly rydym yn argymell bod Cyngor Bro Morgannwg yn canolbwyntio eu hymdrechion ar hybu amrywiaeth o weithgareddau yn hytrach na buddsoddi mewn datblygu un yn benodol. Gallai hyn fod drwy fwy o ddigwyddiadau blasu Untro neu rannu gwybodaeth am weithgareddau os oes gwybodaeth ar gael.

Mae dyhead clir am fwy o ddigwyddiadau antur blasu/gostyngiad yn y Fro. Gall fforddiadwyedd fod yn broblem i rai pobl gyda gweithgareddau awyr agored, fodd bynnag mae sesiynau blasu'n ffordd

wych i bobl weld a ydynt yn hoffi gweithgaredd a gallai arwain at bobl â mwy o ddiddordeb mewn clybiau wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau, am nad yw mor ddrud yn aml.

Mae galw clir am fwy o wybodaeth am y gweithgareddau sydd ar gael. Gallai hyn gael ei gyflawni mewn sawl ffordd - map o weithgareddau ar draws y Fro, cyfeirlyfr o ddarparwyr gweithgarwch ar draws y Fro, mwy o bresenoldeb gweithgarwch awyr agored ar wefan Ymweld â’r Fro a llwyfan cyfryngau cymdeithasol neu ailfrandio’r Fro o bosib, i gynnwys antur yn ei negeseuon. Mae mwy o wybodaeth ar gael yn y

## 5.1 Crynodeb o arolwg yr Antur Untro

Mae canlyniadau arolwg ymwelwyr yr Antur Untro yn datgelu gwybodaeth ddefnyddiol fel sail bellach i’r argymhellion. Yn fwyaf nodedig:

i. Mae angen ymchwil pellach i sefydlu pam nad oes mwy o bobl yn ymweld â’r Fro ar gyfer gweithgareddau antur,

ii. Wrth farchnata digwyddiadau neu weithgareddau yn y dyfodol, dylid hybu’r gweithgarwch ar gyfryngau cymdeithasol yn benodol ar gyfer y categori 26 i 49. Mae rhieni teuluoedd yn debygol o berthyn i’r grŵp oedran hwn hefyd felly gallai hyn ddynodi angen am weithgareddau cyfeillgar i deuluoedd – byddai angen ymchwil pellach i edrych ymhellach ar hyn.

iii. Mwynhaodd y rhai a ddaeth i’r arddangosfa Antur Untro y digwyddiad, gan roi cyfiawnhad dros ei ailadrodd. Mae angen marchnata pellach i gyrraedd mwy o aelodau’r cyhoedd.

iv. Er bod amrywiaeth helaeth o weithgareddau antur ar gael yn y Fro, mae corff o waith i’w gwblhau i hybu’r rhain yn fwy effeithiol ymhlith y trigolion. Mae’n ymddangos bod dyhead clir am yr wybodaeth hon ymhlith trigolion.

v. Mae dyhead clir am fwy o ddigwyddiadau antur blasu/gostyngiad yn y Fro.

# 6. Dadansoddiad SWOT ac asesiad lleoliad ôl effaith

## 6.1 Dadansoddiad SWOT

| Cryfderau | Gwendidau |
|---|---|
| • Amrywiaeth eang o weithgareddau ar gael mewn ardal fechan<br>• Asedau naturiol yn darparu gweithgareddau gwlyb a sych - arfordir, clogwyni'r môr, afonydd, MTP mewndirol, llynnoedd ac ati<br>• Tîm cyngor rhagweithiol gyda hanes o ddarparu prosiectau llwyddiannus gan weithio gyda'r sector twristiaeth e.e. Perfect Pitch<br>• Er yn sector bach, y rhai cysylltiedig yn llawn cymhelliant<br>• Nid yw'n ardal o orboblogi eto<br>• Gwersylla'n boblogaidd yn y Fro – Gwersyllwyr yn farchnad ddelfrydol ar gyfer cwsmeriaid awyr agored<br>• Nodweddion daearegol unigryw<br>• Paradwys i feicwyr ffordd | • Nid yw'n cael ei gydnabod fel cyrchfan gweithgarwch awyr agored ar hyn o bryd<br>• Diffyg busnesau'n gweithredu i gynnig gweithgareddau a diffyg hyfforddwyr cymwys<br>• Marchnata gwael ar ddarpariaeth gweithgarwch awyr agored yr ardal – yn bennaf oherwydd diffyg ymwybyddiaeth<br>• Ar hyn o bryd nid yw'n denu'r niferoedd a ddymunir, yn enwedig o ardaloedd cyfagos<br>• Cyfleusterau gwael ar gyfer twristiaid fel llety, parcio a thoiledau<br>• Anhawster gweithio gydag ardaloedd cyfagos i gyflwyno dull unedig o farchnata<br>• Llwybr gwael i'r Fro o'r seilwaith o briffyrdd. Trac sengl yw'r mynediad i draethau yn aml |

| Cyfleoedd | Bygythiadau |
|---|---|
| • Ailfrandio'r ardal gan gynnwys antur yn y brand<br>• Agos at ardaloedd poblogaeth dwysedd uchel fel Caerdydd a Bryste<br>• Dylid edrych ar ddatblygu Porthcawl fel cyfle oherwydd bydd yn denu ymwelwyr ychwanegol i'r ardal yn gyffredinol<br>• Twf mewn twristiaeth profiad a thwristiaeth awyr agored<br>• Brand Cymru newydd sy'n dathlu Cymru am ei hantur, ei thirwedd a'i diwylliant<br>• Blwyddyn Awyr Agored yng Nghymru yn 2020 a bydd yn para am 2 flynedd<br>• Cyfle i ragor o fusnesau sefydlu yn yr ardal i gynnig gweithgareddau<br>• Newidiadau posib yn y gyfraith ar gyfer mynediad i ganiatáu mwy o gyfleoedd ar gyfer MTB a marchogaeth ceffylau<br>• Dyhead am rwydweithio ar draws y sector<br>• Cyfle i dimau twristiaeth a datblygiad gwledig y Cyngor weithio ochr yn ochr â thimau datblygu chwaraeon<br>• Cyfleoedd busnes i annog beicwyr i stopio yn y Fro, fel caffis cyfeillgar i feicio<br>• Dyhead ymhlith ymwelwyr/pobl leol am weithgareddau blasu lefel mynediad | • Ardaloedd cystadleuol: Bannau Brycheiniog, Sir Benfro, Penrhyn Gŵyr a Gogledd Cymru<br>• Cyfyngiadau o ran adnoddau, llai o gyllid o hyd<br>• Mynediad da i Borthcawl o ran ffyrdd – nid yw hynny cystal i'r Fro<br>• Angen gofal i sicrhau nad yw safleoedd sensitif yn cael eu gorddefnyddio<br>• Heriau perchnogion tir – rhwystrau'n atal datblygu cyfleoedd arfordirol<br>• Amrediad llanw uchel yn golygu ei bod yn anodd archebu rhai gweithgareddau penodol ymlaen llaw, fel arforgampau |

## 6.2 Asesiad Lleoliad Ôl Effaith

Mae'r asesiad lleoliad ôl effaith yn ganlyniad ymgynghoriad, ymchwil desg ac adolygiad ac rydym wedi llunio'r tabl isod i helpu fel sail i beth a ble o ran y gweithgareddau sydd ar gael ledled Bro Morgannwg, y nodweddion allweddol ym mhob lleoliad, perchnogaeth y tir a'r trefniadau rheoli a'r cyfleusterau mynediad. Hefyd rydym wedi cyflwyno rhai argymhellion ar gyfer gwella'r ddarpariaeth o weithgarwch awyr agored ym mhob un o'r lleoliadau hyn:

| Safle | Afon Ewenni ac Afon Ogwr |
|---|---|
| **Trosolwg o'r safle, gan gynnwys nodweddion allweddol y dirwedd naturiol** | Mae Afon Ewenni yn llifo drwy Ogwr ac yn ymuno ag Afon Ogwr tua 400m i'r de-orllewin o Gastell Ogwr a thua 500m i'r gogledd-ddwyrain o'r Gwaith Carthffosiaeth, gan lifo yn y diwedd i'r môr yn Aberogwr tua 2.5km i lawr yr afon. Dylanwedir ar yr afonydd gan lanwau y tu hwnt i Gastell Ogwr, sy'n darparu cyfle a her. |
| **Ystyriaethau llanwol** | Mae Afonydd Ewenni ac Ogwr yn cael eu heffeithio gan lanwau dyddiol. Gellir cael gwybodaeth am lanwau yn www.bbc.co.uk/weather/coast-and-sea/tide-tables |
| **Mynediad a chyfleusterau ar y safle** | Mae Mynedfa/Allanfa i ac o Afon Ewenni ar gael ym maes parcio Castell Ogwr (yn amodol ar lifogydd) lle mae cerrig camu'n galluogi i gerddwyr groesi'r afon (yn amodol ar yr amrediad llanw dyddiol). Hefyd mae'r castell yn cynnig elfen hanesyddol fel rhan o'r gweithgareddau chwaraeon rhwyfo.<br>Mae Mynedfa/Allanfa i ac o Afon Ogwr yn bosib hefyd ym maes parcio Tŷ Portobello, sydd tua 1km o faes parcio Castell Ogwr. Byddai hwn yn darparu lleoliad addas ar gyfer gweithgareddau chwaraeon rhwyfo i ac o'r môr a'r traeth yn Aberogwr. |
| **Ystyriaethau daearegol, ecolegol a bioamrywiaeth** | Gall gorddefnydd o'r safleoedd mynedfa/allanfa gael effaith ar erydiad y glannau. Mae Afon Ogwr, sy'n ymuno â'r môr yn Aberogwr, yn denu cyfoeth o fywyd gwyllt drwy gydol y flwyddyn. Mae eogiaid a brithyll môr i'w gweld i fyny'r afon, a hefyd hyrddiaid, lledod a draenogod y môr yn y llanw is. Mae amrywiaeth eang o adar i'w gweld yma hefyd, gan gynnwys ymwelwyr y gaeaf fel yr hwyaid llygad aur a chornchwiglod.<br>Mae Arfordir Southerndown wedi'i ddynodi yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) ac efallai y bydd yn amodol ar ganiatadau gan Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ar gyfer rhai gweithgareddau. Gellir cael rhagor o wybodaeth drwy gysylltu â Swyddog Cadwraeth Arfordir Treftadaeth CNC ar 03000654602.<br>Mae SoDdGA twyni tywod Merthyr Mawr, ar draws Afon Ogwr, ymhlith y twyni tywod mwyaf yn Ewrop ac yn gartref i nifer o rywogaethau pwysig o blanhigion a phryfed – mae mwy na thraean o'r holl blanhigion a phryfed sy'n bodoli yng Nghymru i'w gweld yn y twyni! I'w cyrraedd ar droed o Aberogwr bydd rhaid i chi gerdded i fyny i Gastell Ogwr, croesi'r cerrig camu a dychwelyd gan gerdded ar hyd glan yr afon. |
| **Trosolwg o gyfansoddiad y perchennog tir** | Mae'r safle'n eiddo i Stad Dunraven. Rheolwyr y Stad yw Cook and Arkwright. Mae'r safle'n cael ei reoli hefyd gan Gyngor Bro Morgannwg. |
| **Gweithgareddau presennol y cymerir rhan ynddynt fel rheol yma fel gweithgaredd hamdden / hunan-arwain** | Mae gweithgareddau chwaraeon rhwyfo (caiacio [gan gynnwys caiacio eistedd-ar-y-top], Rhwyf-fyrddio yn sefyll [SUP], canŵio) yn cael eu cynnal yma. |
| **Gweithgareddau presennol y cymerir rhan ynddynt yma gan grwpiau trefnus** | Cymerir rhan mewn gweithgareddau chwaraeon rhwyfo yma gan grwpiau trefnus, sef clybiau canŵio lleol (cysylltwch â sefydliad Canŵio Cymru am ragor o fanylion - https://www.canoewales.com/find-a-club ).<br>Grwpiau Trefnus:<br>Clwb Canŵio Pen-y-bont ar Ogwr - https://www.bridgendcanoeclub.org |

| | |
|---|---|
| **Gweithgareddau presennol y cymerir rhan ynddynt yma gan weithredwyr masnachol** | Cymerir rhan mewn gweithgareddau chwaraeon rhwyfo yma gan grwpiau masnachol, sef darparwyr gweithgarwch antur lleol. Mae'r rhain yn ymddangos yn anaml ar hyn o bryd.<br>Gellir cael manylion am weithredwyr masnachol yn https://www.visitwales.com/wato<br>Grwpiau Masnachol:<br>Antur-Adventure - https://www.anturio-antur.com<br>Awyr Agored Iwerydd - https://www.atlanticcollege.org/atlantic-outdoors/<br>Canolfan Dŵr Gwyn Ryngwladol Caerdydd - https://www.ciww.com |
| **Gweithgareddau arfaethedig i'w cynnal fel gweithgaredd hamdden / hunan-arwain** | Mae'r safle'n addas ar gyfer gweithgareddau chwaraeon rhwyfo, ond oherwydd dylanwadau llanwol, mae angen gwybodaeth am effeithiau'r llanwau, a hefyd gallu i ymdopi â'r effeithiau hyn h.y. llif llanwol, cerrynt ac ati.<br>Gan fod y safle'n eiddo i Stad Dunraven ac yn cael ei reoli gan Cook and Arkwright, efallai y bydd angen caniatadau i ddefnyddio'r safle. |
| **Gweithgarwch arfaethedig i'w ddatblygu gan glybiau** | Mae'r safle'n addas ar gyfer gweithgareddau chwaraeon rhwyfo ffurfiol, ond oherwydd dylanwadau llanwol, mae angen gwybodaeth am effeithiau'r llanwau, a hefyd gallu i ymdopi â'r effeithiau hyn h.y. llif llanwol, cerrynt ac ati.<br>Gan fod y safle'n eiddo i Stad Dunraves ac yn cael ei reoli gan Cook and Arkwright, efallai y bydd angen caniatadau i ddefnyddio'r safle. |
| **Gweithgarwch arfaethedig i'w gynnal gan weithredwr masnachol** | Mae'r safle'n addas ar gyfer gweithgareddau chwaraeon rhwyfo ffurfiol, ond oherwydd dylanwadau llanwol, mae angen gwybodaeth am effeithiau'r llanwau, a hefyd gallu i ymdopi â'r effeithiau hyn h.y. llif llanwol, cerrynt ac ati.<br>Gan fod y safle'n eiddo i Stad Dunraves ac yn cael ei reoli gan Cook and Arkwright, efallai y bydd angen caniatadau i ddefnyddio'r safle. |
| **Gweithgareddau na ddylai gael eu cynnal yn y lleoliad hwn a pham** | Yr holl weithgareddau, ar wahân i'r rhai sydd wedi'u nodi uchod. |
| **Argymhellion/cyfleoedd penodol i safle i wella datblygiad / nifer y rhai sy'n cymryd rhan mewn gweithgarwch** | Pe bai modd creu mwy o ddyfnder i'r darn o'r afon wrth Gastell Ogwr, byddai mwy o hyblygrwydd ar gyfer ei ddefnydd, yn enwedig ar lanw isel, gan roi cyfle am safle 'parcio a chwarae' ar gyfer datblygu sgiliau dŵr gwastad.<br>Hefyd mae'r castell yn cynnig elfen hanesyddol/ddiwylliannol i'r defnyddwyr rhwng y sesiynau gweithgarwch. |
| **Rhwystrau penodol i safle yn atal datblygu gweithgarwch** | Gofyn am ganiatadau gan berchennog / rheolwyr y tir |

| Safle | Aberogwr |
|---|---|
| **Trosolwg o'r safle, gan gynnwys nodweddion allweddol y dirwedd naturiol** | Mae Aberogwr i'r dwyrain o Afon Ogwr ac ym mhen gorllewinol Arfordir Treftadaeth Morgannwg. Mae'r traeth yn dywodlyd ar lanw isel, gyda rhai cerrig mân a chlogwyni isel o galchfaen carbonifferaidd yn gefn iddo. |
| **Ystyriaethau llanwol** | Mae traeth Aberogwr yn cael ei effeithio gan lanwau dyddiol. Gellir cael gwybodaeth am lanwau yn www.bbc.co.uk/weather/coast-and-sea/tide-tables |
| **Mynediad a chyfleusterau ar y safle** | Mae Mynedfa/Allanfa i draeth Aberogwr, gan gynnwys Bwlch y Gro a'r Creigiau Duon, ar gael ym maes parcio Aberogwr a maes parcio Bwlch y Gro a'r Creigiau Duon, ac ar ymyl y ffordd mewn sawl lle. Rhaid talu yn y meysydd parcio.<br>Mae Clwb Achub Bywyd Syrff Pen y Bont yn gweithredu o draeth Aberogwr ar hyn o bryd. Mae cyfleusterau toiled ar gael. |

| | |
|---|---|
| **Ystyriaethau daearegol, ecolegol a bioamrywiaeth** | Mae'r clogwyni a ffurfiannau'r creigiau'n dyddio'n ôl o'r cyfnod carbonifferaidd (290 i 360 miliwn o flynyddoedd yn ôl) i'r cyfnod Jwrasig (145m i 208 miliwn o flynyddoedd yn ôl), ond gyda thua 140 miliwn o flynyddoedd ar goll yn y canol!<br>Mae Arfordir Southerndown wedi'i ddynodi yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) ac efallai y bydd yn amodol ar ganiatadau gan Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ar gyfer rhai gweithgareddau. Gellir cael rhagor o wybodaeth drwy gysylltu â Swyddog Cadwraeth Arfordir Treftadaeth CNC ar 03000654602 |
| **Trosolwg o gyfansoddiad y perchennog tir** | Mae'r safle'n eiddo i Stad Dunraven. Rheolwyr y Stad yw Cook and Arkwright. Mae'r blaendraeth yn eiddo i Ddugiaeth Lancaster ac yn cael ei reoli ganddi. Mae'r safle'n cael ei reoli hefyd gan Gyngor Bro Morgannwg. |
| **Gweithgareddau presennol y cymerir rhan ynddynt fel rheol yma fel gweithgaredd hamdden / hunan-arwain** | Mae chwaraeon rhwyfo, syrffio bwrdd, byrddio corff, barcud-syrffio, arforgampau, dringo creigiau, cerdded a gweithgareddau traeth yn cael eu cynnal yma.<br>Ymhellach i'r de-ddwyrain yn West Farm mae safle dringo creigiau hamdden wedi cael ei sefydlu a cheir cofnod da ohono ym mhob un o Ganllawiau Dringo Creigiau De Cymru. |
| **Gweithgareddau presennol y cymerir rhan ynddynt yma gan grwpiau trefnus** | Cymerir rhan mewn gweithgareddau chwaraeon rhwyfo yma gan grwpiau trefnus, sef clybiau canŵio lleol (cysylltwch â sefydliad Canŵio Cymru am ragor o fanylion - https://www.canoewales.com/find-a-club ).<br>Grwpiau Trefnus:<br>Clwb Canŵio Pen-y-bont ar Ogwr - https://www.bridgendcanoeclub.org<br>Mae gweithgareddau achub bywyd yn cael eu cynnal yma, yn bennaf gan glwb achub bywyd Pen y Bont: https://www.penybontslsc.org.uk<br>Grwpiau Trefnus:<br>Clwb Canŵio Pen-y-bont ar Ogwr - https://www.bridgendcanoeclub.org |
| **Gweithgareddau presennol y cymerir rhan ynddynt yma gan weithredwyr masnachol** | Cymerir rhan mewn gweithgareddau chwaraeon rhwyfo, syrffio bwrdd, byrddio corff, arforgampau a dringo creigiau yma gan grwpiau masnachol, sef darparwyr gweithgarwch antur lleol. Gellir cael manylion am weithredwyr masnachol yn https://www.visitwales.com/wato<br>Grwpiau Masnachol:<br>Antur-Antur - https://www.anturio-antur.com<br>Awyr Agored Iwerydd - https://www.atlanticcollege.org/atlantic-outdoors/<br>Canolfan Dŵr Gwyn Ryngwladol Caerdydd - https://www.ciww.com |
| **Gweithgareddau arfaethedig i'w cynnal fel gweithgaredd hamdden / hunan-arwain** | Mae'r traeth yn lleoliad addas ar gyfer gweithgareddau syrffio bwrdd, byrddio corff a chwaraeon rhwyfo, a dyddiau antur teithio ar lefel y môr (ar lanw isel).<br>Oherwydd dylanwadau llanwol, mae angen gwybodaeth am effeithiau'r llanwau, a hefyd gallu i ymdopi â'r effeithiau hyn h.y. llif llanwol, cerrynt ac ati.<br>Gan fod y safle'n eiddo i Stad Dunraven ac yn cael ei reoli gan Cook and Arkwright, efallai y bydd angen caniatadau i ddefnyddio'r safle. |
| **Gweithgarwch arfaethedig i'w ddatblygu gan glybiau** | Mae'r traeth yn addas ar gyfer gweithgareddau chwaraeon rhwyfo ffurfiol, ond oherwydd dylanwadau llanwol, mae angen gwybodaeth am effeithiau'r llanwau, a hefyd gallu i ymdopi â'r effeithiau hyn h.y. llif llanwol, cerrynt ac ati.<br>Gweithgareddau achub bywyd – mae Clwb Achub Bywyd Pen y Bont yn awyddus i ymestyn eu darpariaeth ar y safle yma.<br>Gan fod y safle'n eiddo i Stad Dunraven ac yn cael ei reoli gan Cook and Arkwright, efallai y bydd angen caniatadau i ddefnyddio'r safle. |
| **Gweithgarwch arfaethedig i'w gynnal gan weithredwr masnachol** | Mae'r traeth yn addas ar gyfer gweithgareddau chwaraeon rhwyfo ffurfiol, ond oherwydd dylanwadau llanwol, mae angen gwybodaeth am effeithiau'r llanwau, a hefyd gallu i ymdopi â'r effeithiau hyn h.y. llif llanwol, cerrynt ac ati.<br>Ym mhen de-orllewinol y traeth ym Mwlch y Gro a'r Creigiau Duon, mae cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau Bowldro ac Arforgampau. Byddai cyfuno'r ddau weithgaredd yma'n cynnig dyddiau antur teithio ar lefel y môr 'unigol' gwych.<br>Gan fod y safle'n eiddo i Stad Dunraven ac yn cael ei reoli gan Cook and Arkwright, efallai y bydd angen caniatadau i ddefnyddio'r safle. |

| | |
|---|---|
| **Gweithgareddau na ddylai gael eu cynnal yn y lleoliad hwn a pham** | Oherwydd natur effeithiau'r llanwau h.y. llifau llanwol, deufor ac ati, ni fyddai'r traeth yn addas ar gyfer gweithgareddau gwyntsyrffio a hwylio. |
| **Argymhellion/cyfleoedd penodol i safle i wella datblygiad / nifer y rhai sy'n cymryd rhan mewn gweithgarwch** | Datblygu seilwaith safle priodol - cyfleusterau newid, cawodydd, caffi, cyfleoedd llogi offer. Gallai datblygu seilwaith o'r fath agor y safle hwn fel Hwb / Sbardun Antur. |
| **Rhwystrau penodol i safle yn atal datblygu gweithgarwch** | Seilwaith<br>Cyllid<br>Gofyn am ganiatadau gan berchennog / rheolwyr y tir a CNC |

| **Safle** | **Pant y Cwteri, Pant Norton a Phant Mari Flanders** |
|---|---|
| **Trosolwg o'r safle, gan gynnwys nodweddion allweddol y dirwedd naturiol** | I'r de-ddwyrain o Dŷ Portobello mae llwybr marchogaeth sy'n arwain i'r comin a'r tir pantiog ym Mhant y Cwteri, Pant Norton a Phant Mari Flanders, a'r tu hwnt i'r ardal yma mae Saint-y-brid. |
| **Ystyriaethau llanwol** | Dim |
| **Mynediad a chyfleusterau ar y safle** | Mae lle parcio ym Maes Parcio Tŷ Portobello, gyda mynediad i'r safle uniongyrchol gyferbyn ag ef. Gellid cael cyfleoedd eraill ar gyfer mynediad o Saint-y-brid, Aberogwr a Southerndown. Mae hawliau tramwy cyhoeddus, gan gynnwys llwybrau marchogaeth, yn bodoli ledled y safle hwn, gan alluogi sawl gweithgaredd posib. Nid oes unrhyw gyfleusterau ychwanegol. |
| **Ystyriaethau daearegol, ecolegol a bioamrywiaeth** | Mae'n ymddangos nad oes unrhyw ystyriaethau daearegol, ecolegol a bioamrywiaeth, ond gallai gorddefnydd o lwybrau / hawliau tramwy cyhoeddus arwain at erydiad. |
| **Trosolwg o gyfansoddiad y perchennog tir** | Mae'n ymddangos bod y safle'n eiddo i Ddugiaeth Lancaster ac yn cael ei reoli gan Gymdeithas Tir Comin Ogwr. |
| **Gweithgareddau presennol y cymerir rhan ynddynt fel rheol yma fel gweithgaredd hamdden / hunan-arwain** | Mae'n ymddangos bod cerdded, marchogaeth ceffylau a beicio mynydd yn cael eu cynnal yma. |
| **Gweithgareddau presennol y cymerir rhan ynddynt yma gan grwpiau trefnus** | Nid yw'n ymddangos bod unrhyw weithgarwch yn cael eu cynnal yma gan grwpiau trefnus. |
| **Gweithgareddau presennol y cymerir rhan ynddynt yma gan weithredwyr masnachol** | Mae'n ymddangos bod cerdded, marchogaeth ceffylau a beicio mynydd yn cael eu cynnal yma gan weithredwyr masnachol, sef darparwyr gweithgarwch antur lleol. Gellir cael manylion am weithredwyr masnachol yn https://www.visitwales.com/wato<br>Grwpiau Masnachol:<br>Awyr Agored Iwerydd - https://www.atlanticcollege.org/atlantic-outdoors/ |
| **Gweithgareddau arfaethedig i'w cynnal fel gweithgaredd hamdden / hunan-arwain** | Byddai'r mynediad ymddangosiadol hwylus i'r lleoliad hwn, ynghyd â'r matrics o lwybrau, yn awgrymu bod potensial i wella'r ddarpariaeth bresennol a datblygu'r llwybrau amrywiol ac ati ymhellach ('arwyddbyst' clir a 'graddio' llwybrau), gan roi gwell darpariaeth ar gyfer hyfforddiant a datblygiad beicio mynydd, yn ogystal â chyfrwng i symud rhwng safleoedd/ lleoliadau gweithgarwch antur ar hyd yr arfordir. Byddai hyn yn ei dro'n darparu mwy o gyfleoedd ar gyfer y busnesau marchogaeth ceffylau yn lleol, yn ogystal â chyfleoedd cerdded ar gyfer grwpiau lleol. |
| **Gweithgarwch arfaethedig i'w ddatblygu gan glybiau** | |

| | |
|---|---|
| **Gweithgarwch arfaethedig i'w gynnal gan weithredwr masnachol** | Gan fod y safle'n eiddo i Ddugiaeth Lancaster ac yn cael ei reoli gan Gymdeithas Tir Comin Ogwr, efallai y bydd angen caniatadau i ddefnyddio'r safle'n fasnachol. |
| **Gweithgareddau na ddylai gael eu cynnal yn y lleoliad hwn a pham** | Dim gweithgareddau modur |
| **Argymhellion/cyfleoedd penodol i safle i wella datblygiad / nifer y rhai sy'n cymryd rhan mewn gweithgarwch** | Datblygu llwybrau h.y. sefydlu 'cyfeirbyst' clir a 'graddio' llwybrau er mwyn sicrhau y cedwir at y llwybrau. |
| **Rhwystrau penodol i safle yn atal datblygu gweithgarwch** | Gofyn am ganiatadau gan berchennog / rheolwyr y tir. |

| **Safle** | **Chwarel Pont Alun a Chwarel Pant** |
|---|---|
| **Trosolwg o'r safle, gan gynnwys nodweddion allweddol y dirwedd naturiol** | Wedi'u lleoli ar hyd y B4265 rhwng Ogwr a Saint-y-brid, mae'r ddau lleoliad yma'n eiddo i berchennog preifat ar hyn o bryd. |
| **Ystyriaethau llanwol** | Dim |
| **Mynediad a chyfleusterau ar y safle** | Mae perchennog a gweithredwr y chwarel, "Tarmac", wedi datgan yn gwbl glir na allant ganiatáu dringo ar y safle oherwydd gofynion Rheoliadau Chwareli 1999. Fodd bynnag, maent yn agored i drafodaethau am gytundeb mynediad posib ar gyfer y cyfnod pan ddaw gweithrediadau'r chwarel i ben, ond maent yn amcangyfrif bod cronfa o fwynau ar ôl yma am o leiaf 10 mlynedd o chwarelu, gyda gwerth ariannol sylweddol, felly ar hyn o bryd nid oes unrhyw fynediad ar gyfer dringo ac mae'r safle'n cael ei oruchwylio'n gyson gan staff diogelwch a CCTV. Argymhellir bod dringwyr yn osgoi'r safle yma yn y dyfodol rhagweladwy. |
| **Ystyriaethau daearegol, ecolegol a bioamrywiaeth** | Slab serth o galchfaen o ansawdd da yn wynebu tua'r gogledd gyda phocedi hyfryd wedi'u treulio gan ddŵr, rhigolau a nodweddion crac, gan wneud dringo'n bosib. Mae ochr y chwarel sy'n wynebu tua'r dwyrain yn cynnwys cyfres o waliau serthach a ddylai fod yn lleoliad priodol yn ystod y gaeaf (rhaid cyrraedd yn gynnar os ydych chi eisiau haul) neu lecyn oer ar noson o haf. Mae Chwareli Ewenni a Phant wedi'u dynodi fel Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) ac yn amodol ar ganiatadau. |
| **Trosolwg o gyfansoddiad y perchennog tir** | Mae'r safle'n eiddo i Tarmac Ltd, Heol Ewenni, Saint-y-brid, Ger Pen-y-bont ar Ogwr, CF334RD Rhif Ffôn 01443 233133 |
| **Gweithgareddau presennol y cymerir rhan ynddynt fel rheol yma fel gweithgaredd hamdden / hunan-arwain** | Dim |
| **Gweithgareddau presennol y cymerir rhan ynddynt yma gan grwpiau trefnus** | |
| **Gweithgareddau presennol y cymerir rhan ynddynt yma gan weithredwyr masnachol** | |

| | |
|---|---|
| **Gweithgareddau arfaethedig i'w cynnal fel gweithgaredd hamdden / hunan-arwain** | Dringo Creigiau |
| **Gweithgarwch arfaethedig i'w ddatblygu gan glybiau** | |
| **Gweithgarwch arfaethedig i'w gynnal gan weithredwr masnachol** | Dringo Creigiau, via ferrata, gwifrau gwib, rhaffau uchel |
| **Gweithgareddau na ddylai gael eu cynnal yn y lleoliad hwn a pham** | Ni ddylai unrhyw weithgareddau gael eu cynnal ar y safleoedd hyn ar hyn o bryd. |
| **Argymhellion/cyfleoedd penodol i safle i wella datblygiad / nifer y rhai sy'n cymryd rhan mewn gweithgarwch** | Yn ôl canllaw dringo De Ddwyrain Cymru, yn Chwarel Pant mae'r *'brif wal ar yr ochr dde yn un o'r haenau fertigol mwyaf nodedig o galchfaen yn y wlad…. Mae'n graig ddanheddog ryfedd a naturiol'*. Yn ôl Clwb Mynydda De Cymru, '*mae llawer iawn o gwmpas i ddatblygu os sicrheir mynediad ryw dro yn y dyfodol'*. Yn ychwanegol at y potensial mawr sydd gan y safleoedd hyn ar gyfer gweithgarwch dringo creigiau, gallai gweithgareddau cysylltiedig fod yn bosib, ac mae gan y safle botensial i fod yn 'Hwb Gweithgarwch' neu 'Sbardun'. Os daw'r safle yma'n opsiwn ymarferol ryw dro, mae gan y cwmpas ar gyfer datblygu botensial i fod yn 'berl fechan' y Fro ar gyfer gweithgareddau dringo creigiau a 'via ferrata'. |
| **Rhwystrau penodol i safle yn atal datblygu gweithgarwch** | Perchnogaeth breifat o'r safle. |

| **Safle** | **Pant y Slade a Choed Slade** |
|---|---|
| **Trosolwg o'r safle, gan gynnwys nodweddion allweddol y dirwedd naturiol** | Y cwm sy'n rhedeg i'r gogledd ddwyrain o Ganolfan Dreftadaeth yr Arfordir ym Mae Dunraven a Choed Slade |
| **Ystyriaethau llanwol** | Dim |
| **Mynediad a chyfleusterau ar y safle** | Mae maes parcio ar gael ym Mae Dunraven (am bris) a/neu Ganolfan Dreftadaeth yr Arfordir. Mae'r cyfleusterau'n cynnwys ciosg, toiledau, cawodydd, canolfan ymwelwyr. |
| **Ystyriaethau daearegol, ecolegol a bioamrywiaeth** | Nid yw'n ymddangos bod unrhyw ystyriaethau daearegol, ecolegol a bioamrywiaeth, ond gallai gorddefnydd o'r llwybrau / hawliau tramwy cyhoeddus arwain at erydiad. |
| **Trosolwg o gyfansoddiad y perchennog tir** | Mae'r safle'n eiddo i Stad Dunraven ond mae ffermwyr tenant tymor hir yn Fferm Slade. Rheolwyr y Stad yw Cook ac Arkwright. Mae'r safle'n cael ei reoli hefyd gan Gyngor Bro Morgannwg. |
| **Gweithgareddau presennol y cymerir rhan ynddynt fel rheol yma fel gweithgaredd hamdden / hunan-arwain** | Cerdded. Mae 'cyfeirbost' yn pwyntio i fyny'r cwm felly mae'n arwydd bod llwybr yn bodoli, ond mae'n ansicr faint o ddefnydd sy'n cael ei wneud ohono. Mae sawl un o 'Lwybrau'r Fro' yn mynd heibio i Fae Dunraven a Chanolfan Dreftadaeth yr Arfordir, yn enwedig Tair Taith Dunraven sy'n cynnwys Pant y Slade a Choed Slade gyda theithiau cylch mwy. Mae gwefan Ymweld â'r Fro yn cyfeirio at Fro Morgannwg fel *'lle gwych i gerdded' ac yn cyfeirio at yr ardal hon fel rhan o Lwybrau'r Fro:* https://www.visitthevale.com/en/Be-Inspired/Walking/Vale-Trails/Walking-in-the-Vale.aspx |

| | |
|---|---|
| **Gweithgareddau presennol y cymerir rhan ynddynt yma gan grwpiau trefnus** | Cerdded. Mae 'cyfeirbost' yn pwyntio i fyny'r cwm felly mae'n arwydd bod llwybr yn bodoli, ond mae'n ansicr faint o ddefnydd sy'n cael ei wneud ohono. Mae sawl un o 'Lwybrau'r Fro' yn mynd heibio i Fae Dunraven a Chanolfan Dreftadaeth yr Arfordir, yn enwedig Tair Taith Dunraven sy'n cynnwys Pant y Slade a Choed Slade gyda theithiau cylch mwy. Mae gwefan Ymweld â'r Fro yn cyfeirio at Fro Morgannwg fel *'lle gwych i gerdded' ac yn cyfeirio at yr ardal hon fel rhan o Lwybrau'r Fro:* https://www.visitthevale.com/en/Be-Inspired/Walking/Vale-Trails/Walking-in-the-Vale.aspx<br>Grwpiau Trefnus: Wardeiniaid Cefn Gwlad Bro Morgannwg |
| **Gweithgareddau presennol y cymerir rhan ynddynt yma gan weithredwyr masnachol** | Nid yw'n ymddangos bod unrhyw weithredwyr masnachol yn defnyddio'r safle hwn. |
| **Gweithgareddau arfaethedig i'w cynnal fel gweithgaredd hamdden / hunan-arwain** | Yn agos at Ganolfan Dreftadaeth yr Arfordir, mae'r coed yn ymddangos fel llecyn da iawn ar gyfer llwybrau natur tywys a hunan-arwain a gellid cynnwys gweithgareddau crefft y gwyllt ac ysgolion y fforest. Gallai datblygu llwybr / trac cylch llai gyda gweithgareddau ychwanegol wella ymhellach ddarpariaeth Canolfan Dreftadaeth yr Arfordir i ysgolion Bro Morgannwg ac ymwelwyr fel ei gilydd. |
| **Gweithgarwch arfaethedig i'w ddatblygu gan glybiau** | |
| **Gweithgarwch arfaethedig i'w gynnal gan weithredwr masnachol** | |
| **Gweithgareddau na ddylai gael eu cynnal yn y lleoliad hwn a pham** | Dim ond y rhai sydd wedi'u nodi uchod. |
| **Argymhellion/cyfleoedd penodol i safle i wella datblygiad / nifer y rhai sy'n cymryd rhan mewn gweithgarwch** | Datblygu a llwybr / trac cylch llai.<br>Sefydlu safleoedd penodol yn y coed ar gyfer crefft y gwyllt / gweithgareddau ysgolion y goedwig. |
| **Rhwystrau penodol i safle yn atal datblygu gweithgarwch** | Gofyn am ganiatadau perchnogion y tir. |

| **Safle** | **Bae a Pharc Dunraven (Southerndown)** |
|---|---|
| **Trosolwg o'r safle, gan gynnwys nodweddion allweddol y dirwedd naturiol** | Stad breifat sy'n cael ei rheoli gan asiant ar ran perchnogion y tir. Mae Bro Morgannwg yn denantiaid yng Nghanolfan Dreftadaeth yr Arfordir ym Mharc Dunraven. Dugiaeth Lancaster sy'n rheoli'r blaendraeth ar ran y 'Goron'.<br>Trwyn y Gwrachod – Lleoliad delfrydol uwch ben traeth syrffio tywodlyd 'baner las'. |
| **Ystyriaethau llanwol** | Mae traeth Southerndown yn cael ei effeithio gan lanwau. Gellir cael gwybodaeth am lanwau yn www.bbc.co.uk/weather/coast-and-sea/tide-tables |
| **Mynediad a chyfleusterau ar y safle** | Mae lle parcio ym Mae Dunraven (am bris) a/neu Ganolfan Dreftadaeth yr Arfordir. Gyda'r cyfleusterau sydd ar gael yn y Ganolfan Dreftadaeth (toiledau a chawodydd, cyfleusterau / ystafelloedd dan do a 4 'safle dan glo' ar gyfer eu defnyddio gan fusnesau posib [ffioedd yn berthnasol]), gallai hwn fod yn hwb/sbardun gweithgarwch antur addas iawn, yn amodol ar ganiatadau perchnogion tir. |

| | |
|---|---|
| **Ystyriaethau daearegol, ecolegol a bioamrywiaeth** | Mae'r safle wedi'i ddynodi yn SoDdGA ac efallai y bydd yn amodol ar ganiatadau gan Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ar gyfer rhai gweithgareddau. Gellir cael rhagor o wybodaeth drwy gysylltu â Swyddog Cadwraeth Arfordir Treftadaeth CNC ar 03000654602, neu drwy fynd i https://libcat.naturalresources.wales/webview/?infile=details.glu&loid=98776&rs=47910&hitno=13&straig |
| **Trosolwg o gyfansoddiad y perchennog tir** | Mae'r safle'n eiddo i Stad Dunraven. Rheolwyr y Stad yw Cook and Arkwright. Mae'r blaendraeth yn eiddo i Ddugiaeth Lancaster ac yn cael ei reoli ganddi. Mae'r safle'n cael ei reoli hefyd gan Gyngor Bro Morgannwg. |
| **Gweithgareddau presennol y cymerir rhan ynddynt fel rheol yma fel gweithgaredd hamdden / hunan-arwain** | O ran hamdden, mae'n ymddangos bod gweithgareddau syrffio bwrdd, byrddio corff, chwaraeon rhwyfo, dringo creigiau, pysgota a thraeth yn cael eu cynnal yma. Mae'r traeth/clogwyni i'r gorllewin o'r Bae hefyd yn cynnig cyfleoedd i wella gwybodaeth ddaearegol ymwelwyr. |
| **Gweithgareddau presennol y cymerir rhan ynddynt yma gan grwpiau trefnus** | Mae'n ymddangos bod grwpiau trefnus yn cymryd rhan mewn gweithgareddau syrffio, dringo creigiau a chwaraeon rhwyfo yma.<br>Grwpiau Trefnus:<br>Clwb Canŵio Pen-y-bont ar Ogwr - https://www.bridgendcanoeclub.org |
| **Gweithgareddau presennol y cymerir rhan ynddynt yma gan weithredwyr masnachol** | Yn fasnachol, mae'n ymddangos bod darparwyr gweithgarwch yn defnyddio'r lleoliad ar gyfer syrffio, chwaraeon rhwyfo a dringo creigiau, ond heb weithredu eu busnes yn uniongyrchol o'r lleoliad. Gellir cael manylion am weithredwyr masnachol yn https://www.visitwales.com/wato<br>Grwpiau Masnachol:<br>Awyr Agored Iwerydd - https://www.atlanticcollege.org/atlantic-outdoors/<br>Ysgol Syrffio Southerndown |
| **Gweithgareddau arfaethedig i'w cynnal fel gweithgaredd hamdden / hunan-arwain** | O ran hamdden, dim ond cynnal y gweithgareddau presennol - gweithgareddau syrffio bwrdd, byrddio corff, chwaraeon rhwyfo, dringo creigiau, pysgota a thraeth.<br>Oherwydd dylanwadau llanwol, mae angen gwybodaeth am effeithiau'r llanwau, a hefyd gallu i ymdopi â'r effeithiau hyn h.y. llif llanwol, cerrynt ac ati.<br>Gan fod y safle'n eiddo i Stad Dunraven ac yn cael ei reoli gan Cook and Arkwright, efallai y bydd angen caniatadau i ddefnyddio'r safle. |
| **Gweithgarwch arfaethedig i'w ddatblygu gan glybiau** | O bersbectif grŵp trefnus, dim ond cynnal y ddarpariaeth bresennol o weithgarwch - gweithgareddau syrffio bwrdd, byrddio corff, chwaraeon rhwyfo, dringo creigiau, pysgota a thraeth.<br>Yn ôl Clwb Esgyn De Ddwyrain Cymru, dyma leoliad unigryw ar gyfer Paragleidio, ond nid yw'r caniatadau wedi'u dyfarnu ar hyn o bryd gan y perchnogion tir. Gallai darparu gweithgarwch o'r fath fod yn welliant deinamig i arfordir Bro Morgannwg<br>Oherwydd dylanwadau llanwol, mae angen gwybodaeth am effeithiau'r llanwau, a hefyd gallu i ymdopi â'r effeithiau hyn h.y. llif llanwol, cerrynt ac ati.<br>Gan fod y safle'n eiddo i Stad Dunraven ac yn cael ei reoli gan Cook and Arkwright, efallai y bydd angen caniatadau i ddefnyddio'r safle. |
| **Gweithgarwch arfaethedig i'w gynnal gan weithredwr masnachol** | Gallai'r 'safleoedd dan glo' yng Nghanolfan Dreftadaeth yr Arfordir alluogi busnesau (syrffio/chwaraeon rhwyfo/dringo creigiau) a darparwyr gweithgarwch a/neu fusnesau llogi) i sefydlu eu hunain yma, er bod hynny'n amodol ar ganiatadau perchennog y tir.<br>Mae'r llithrfa newydd yn cynnig gwell mynediad i'r traeth a'r môr ar gyfer cychod mwy (RIBs), yn amodol ar gyflwr ac amrediad y llanw a chaniatadau perchennog y tir.<br>Gellid datblygu cyfleoedd dringo creigiau yn Nhrwyn y Gwrachod. Mae'n llanwol ac yn amodol ar yr amrediad llanw dyddiol ac wedi'i nodi yng Nghanllaw De Ddwryain Cymru fel *'un o'r clogwyni chwaraeon mwyaf nodedig yn yr ardal'.*<br>Oherwydd dylanwadau llanwol, mae angen gwybodaeth am effeithiau'r llanwau, a hefyd gallu i ymdopi â'r effeithiau hyn h.y. llif llanwol, cerrynt ac ati.<br>Gan fod y safle'n eiddo i Stad Dunraven ac yn cael ei reoli gan Cook and Arkwright, efallai y bydd angen caniatadau i ddefnyddio'r safle. |

| | |
|---|---|
| **Gweithgareddau na ddylai gael eu cynnal yn y lleoliad hwn a pham** | Dim, ar wahân i'r rhai sydd wedi'u nodi uchod. |
| **Argymhellion/cyfleoedd penodol i safle i wella datblygiad / nifer y rhai sy'n cymryd rhan mewn gweithgarwch** | Datblygu'r lleoliad fel hwb / sbardun gweithgarwch antur.<br>Arwyddion ar lan y môr o help yn sicr i adnabod lleoliad gweithgareddau / hwb gweithgarwch antur. |
| **Rhwystrau penodol i safle yn atal datblygu gweithgarwch** | Gofyn am ganiatadau gan berchennog / rheolwyr y tir.<br>Er mai nod y cynwysyddion newydd yw annog gweithrediadau masnachol ym Mae Dunraven, rydym yn deall nad oes defnydd arwyddocaol wedi bod ohonynt. Un amod a nodwyd ar gyfer defnyddio'r cynwysyddion yw eu bod i gael eu defnyddio fel storfeydd i offer a chit a man cyfarfod ac na ddylid cyfnewid arian ar y safle. Ar hyn o bryd, nid yw busnesau'n gallu hysbysebu eu darpariaeth a derbyn taliadau gan bobl sy'n mynd heibio. Byddai'n rhaid i archebion gael eu trefnu ymlaen llaw. |

| **Safle** | **Yr As Fawr a Chwm As** |
|---|---|
| **Trosolwg o'r safle, gan gynnwys nodweddion allweddol y dirwedd naturiol** | Mae Yr As Fawr yn llecyn hamdden enwog i syrffwyr. Mae Cwm AS yn llwybr natur/ daearegol rhagorol i ac o'r llyfndiroedd tonnau. |
| **Ystyriaethau llanwol** | Mae traeth Yr As Fawr yn cael ei effeithio gan lanwau dyddiol. Gellir cael gwybodaeth am lanwau yn www.bbc.co.uk/weather/coast-and-sea/tide-tables |
| **Mynediad a chyfleusterau ar y safle** | Mae'r lle parcio ym Maes Parcio Traeth Yr As Fawr (ffioedd yn berthnasol). Hefyd mae Maes Gwersylla'r Arfordir Treftadaeth yn lleoliad gwych ar gyfer cael mynediad i Gwm As. Nid oes unrhyw gyfleusterau ychwanegol ar gael yma. |
| **Ystyriaethau daearegol, ecolegol a bioamrywiaeth** | Mae Yr As Fawr wedi'i ddynodi yn SoDdGA ac efallai y bydd yn amodol ar ganiatadau gan Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ar gyfer rhai gweithgareddau. Gellir cael rhagor o wybodaeth drwy gysylltu â Swyddog Cadwraeth Arfordir Treftadaeth CNC ar 03000654602 neu fynd i http://www.naturalresources.wales/media/674505/mca-27-glamorgan-coastal-waters-and-nash-sand_final.pdf |
| **Trosolwg o gyfansoddiad y perchennog tir** | Mae'r blaendraeth yn cael ei reoli gan Ddugiaeth Lancaster. |
| **Gweithgareddau presennol y cymerir rhan ynddynt fel rheol yma fel gweithgaredd hamdden / hunan-arwain** | Ar hyn o bryd mae gweithgareddau syrffio a physgota hamdden yn cael eu cynnal yn y lleoliad yma. Hefyd, mae llawer o ymwelwyr yn defnyddio'r teithiau natur hunan-dywys ac yn eu mwynhau ar hyd Cwm As i'r llyfndiroedd tonnau lle mae archwilio pyllau creigiog ac archwiliadau eraill yn cael eu cynnal. |
| **Gweithgareddau presennol y cymerir rhan ynddynt yma gan grwpiau trefnus** | Nid yw'n ymddangos bod unrhyw grwpiau trefnus yn defnyddio'r safle yma. |
| **Gweithgareddau presennol y cymerir rhan ynddynt yma gan weithredwyr masnachol** | Nid yw'n ymddangos bod unrhyw weithredwyr masnachol yn defnyddio'r safle yma. |

| | |
|---|---|
| **Gweithgareddau arfaethedig i'w cynnal fel gweithgaredd hamdden / hunan-arwain** | O ran hamdden, dim ond cynnal y gweithgareddau presennol. Mae Cwm As a'r As Fawr yn anghysbell fel lleoliadau gyda thraeth trawiadol o'r neilltu, yn unigryw o ran ei ddarpariaeth naturiol/ddaearegol. Gallai'r potensial twristiaeth araf yma elwa o'r adnoddau sydd ar gael sy'n cynorthwyo'r ymwelwyr i fanteisio i'r eithaf ar ba mor unigryw yw'r lleoliadau h.y. ffosilau a daeareg: https://www.valeofglamorgan.gov.uk/en/enjoying/Coast-and-Countryside/Heritage-Coast/Fossils-and-Geology.aspx . |
| **Gweithgarwch arfaethedig i'w ddatblygu gan glybiau** | Dim byd wedi'i gynnig. |
| **Gweithgarwch arfaethedig i'w gynnal gan weithredwr masnachol** | Dim byd wedi'i gynnig. |
| **Gweithgareddau na ddylai gael eu cynnal yn y lleoliad hwn a pham** | Dim ond y rhai sydd wedi'u nodi uchod. |
| **Argymhellion/cyfleoedd penodol i safle i wella datblygiad / nifer y rhai sy'n cymryd rhan mewn gweithgarwch** | Gwybodaeth i bobl am y safle. |
| **Rhwystrau penodol i safle yn atal datblygu gweithgarwch** | Dim |

| **Safle** | **Trwyn yr As a Chae'r Eglwys** |
|---|---|
| **Trosolwg o'r safle, gan gynnwys nodweddion allweddol y dirwedd naturiol** | Mae'n ymddangos bod y maes parcio a gwersylla'n cael eu rheoli gan y ffermwyr tenant. Mae'r traeth yn eiddo i Ddugiaeth Lancaster ac yn cael ei reoli ganddi. Y tu hwnt i Drwyn yr As mae Goleudy Trwyn yr As ac ochr yn ochr â hwn mae rhai unedau llety hunan-arlwyo, sy'n cael eu cynnig gan Trinity House. |
| **Ystyriaethau llanwol** | Mae Trwyn yr As yn cael ei effeithio gan lanwau. Gellir cael gwybodaeth am lanwau yn www.bbc.co.uk/weather/coast-and-sea/tide-tables |
| **Mynediad a chyfleusterau ar y safle** | Mae lonydd culion yn arwain at faes parcio mawr iawn (ffioedd yn berthnasol). Gall faniau gwersylla a chartrefi ar olwynion barcio yma dros nos (ffioedd yn berthnasol). Mae caffi (ar brydles gan berchennog y tir) a chyfleusterau toiled ar gael. I gyrraedd y traeth rhaid i chi gerdded i lawr llwybr anwastad ac wedyn mynd yn ofalus dros y cerrig ar ôl cyrraedd y traeth. Wedyn gallwch eistedd a mwynhau'r traeth hyfryd yma gyda ffurfiannau creigiau a golygfeydd trawiadol. |
| **Ystyriaethau daearegol, ecolegol a bioamrywiaeth** | Mae Trwyn yr As wedi'i ddynodi yn SoDdGA ac efallai y bydd yn amodol ar ganiatadau gan Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ar gyfer rhai gweithgareddau. Gellir cael rhagor o wybodaeth drwy gysylltu â Swyddog Cadwraeth Arfordir Treftadaeth CNC ar 03000654602 neu fynd i http://www.naturalresources.wales/media/674505/mca-27-glamorgan-coastal-waters-and-nash-sand_final.pdf |
| **Trosolwg o gyfansoddiad y perchennog tir** | Mae'r safle yn eiddo preifat ac yn cael ei reoli gan ffermwyr tenant. |
| **Gweithgareddau presennol y cymerir rhan ynddynt fel rheol yma fel** | Ar hyn o bryd mae gweithgareddau cerdded, archwilio pyllau creigiog, gwylio'r machlud a syllu ar y sêr yn cael eu cynnal yma. |

| | |
|---|---|
| **gweithgaredd hamdden / hunan-arwain** | |
| **Gweithgareddau presennol y cymerir rhan ynddynt yma gan grwpiau trefnus** | Nid yw'n ymddangos bod unrhyw grwpiau trefnus yn defnyddio'r safle yma. |
| **Gweithgareddau presennol y cymerir rhan ynddynt yma gan weithredwyr masnachol** | Nid yw'n ymddangos bod unrhyw weithredwyr masnachol yn defnyddio'r safle yma. |
| **Gweithgareddau arfaethedig i'w cynnal fel gweithgaredd hamdden / hunan-arwain** | Mae'n ymddangos bod y llwybr i fyny ac i lawr Nant Marcross yn cynnig cyfle gwych am lwybr natur (https://naturedetectives.woodlandtrust.org.uk/naturedetectives/), ac mae'r ardal o amgylch Trwyn yr As a Chae'r Eglwys yn cynnig diddordeb hanesyddol (daearwaith a chaer) - https://www.visitthevale.com/Documents/More-to-the-Vale-Guides/A-Potted-History.pdf) a daearegol (https://www.valeofglamorgan.gov.uk/en/enjoying/Coast-and-Countryside/Heritage-Coast/Fossils-and-Geology.aspx).<br>Yn ôl pob tebyg, dyma un o'r lleoliadau gorau ym Mro Morgannwg i eistedd, gwylio a thynnu llun y machlud (https://improvephotography.com/45331/sunset-photography-camera-settings-beginners/) felly cyfle gwych i arddangos yr arfordir ar ôl iddi dywyllu. Dyma hefyd, o bosib, yr ardal orau o ran y llygredd golau lleiaf ar hyd yr arfordir, felly gallai elwa o gael ei hybu fel lleoliad awyr dywyll. (https://www.nightblight.cpre.org.uk/resources). |
| **Gweithgarwch arfaethedig i'w ddatblygu gan glybiau** | Dim byd wedi'i gynnig. |
| **Gweithgarwch arfaethedig i'w gynnal gan weithredwr masnachol** | Dim byd wedi'i gynnig. |
| **Gweithgareddau na ddylai gael eu cynnal yn y lleoliad hwn a pham** | Dringo creigiau |
| **Argymhellion/cyfleoedd penodol i safle i wella datblygiad / nifer y rhai sy'n cymryd rhan mewn gweithgarwch** | Arddangos darpariaeth y safle o bersbectif defnyddiwr hamdden. |
| **Rhwystrau penodol i safle yn atal datblygu gweithgarwch** | Dim |

| **Safle** | **Sant Donat – Coleg Iwerydd** |
|---|---|
| **Trosolwg o'r safle, gan gynnwys nodweddion allweddol y dirwedd naturiol** | Mae gan bentrefan Sant Donat hawl tramwy cyhoeddus (HTC) i lwybr yr arfordir yn ei ben gorllewinol a HTC yn ei ben dwyreiniol i'r eglwys. Nid oes mynediad i'r cyhoedd o Sant Donat, y tu hwnt i'r eglwys i ac o lan y môr drwy Goleg Iwerydd. |
| **Ystyriaethau llanwol** | Mae llanwau dyddiol yn effeithio ar Sant Donat. Gellir cael gwybodaeth am lanwau yn www.bbc.co.uk/weather/coast-and-sea/tide-tables |

| | |
|---|---|
| **Mynediad a chyfleusterau ar y safle** | Ceir mynediad i'r traeth drwy Lwybr Arfordir Cymru a hawliau tramwy cyhoeddus y tu allan i diroedd Coleg Iwerydd. Nid oes unrhyw hawliau tramwy cyhoeddus drwy Goleg Iwerydd. Y lle gorau i ymuno â'r llwybr yw gyferbyn â thŷ o'r enw The Anchorage Sant Donat CF61 1ZB. Ewch drwy'r giât mochyn a dilyn y llwybr ar y dde. Efallai y bydd Coleg Iwerydd yn fodlon ystyried gweithio mewn partneriaeth â Bro Morgannwg i greu llwybr cylch hygyrch rhwng Sant Donat a Llanilltud Fawr, gyda mynediad wedi'i gytuno drwy diroedd Coleg Iwerydd (ar lwybr penodol). Byddai hyn yn sicr yn cysylltu'r coetir naturiol â'r amgylchedd arfordirol ac yn cynnwys hanes Eglwys Sant Donat. |
| **Ystyriaethau daearegol, ecolegol a bioamrywiaeth** | Mae traeth Sant Donat wedi'i ddynodi yn SoDdGA ac efallai y bydd yn amodol ar ganiatadau gan Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ar gyfer rhai gweithgareddau. Gellir cael rhagor o wybodaeth drwy gysylltu â Swyddog Cadwraeth Arfordir Treftadaeth CNC ar 03000654602 neu fynd i: http://www.naturalresources.wales/media/674505/mca-27-glamorgan-coastal-waters-and-nash-sand_final.pdf |
| **Trosolwg o gyfansoddiad y perchennog tir** | Mae'r safle'n eiddo i Goleg Iwerydd. Mae'r blaendraeth yn eiddo i Ddugiaeth Lancaster ac yn cael ei reoli ganddi.<br>Mae Coleg Iwerydd, drwy gyfrwng adran Awyr Agored Iwerydd, yn cynnig amrywiaeth lawn o weithgareddau antur, ar gyfer ei fyfyrwyr yn bennaf, ac mae llawer ohonynt yn cael eu cynnal o'r llithrfa. Hefyd, mae Coleg Iwerydd yn darparu gwersylloedd dros yr haf ar gyfer grwpiau'n ymweld. |
| **Gweithgareddau presennol y cymerir rhan ynddynt fel rheol yma fel gweithgaredd hamdden / hunan-arwain** | Nid yw'n ymddangos bod defnydd hamdden / hunan-arwain o'r safle hwn. |
| **Gweithgareddau presennol y cymerir rhan ynddynt yma gan grwpiau trefnus** | Nid yw'n ymddangos bod unrhyw grwpiau trefnus yn defnyddio'r safle hwn. |
| **Gweithgareddau presennol y cymerir rhan ynddynt yma gan weithredwyr masnachol** | Cynigir amrywiaeth lawn o weithgareddau antur ar y safle hwn gan Awyr Agored Coleg Iwerydd.<br>Grwpiau Masnachol:<br>Awyr Agored Iwerydd - https://www.atlanticcollege.org/atlantic-outdoors/ |
| **Gweithgareddau arfaethedig i'w cynnal fel gweithgaredd hamdden / hunan-arwain** | Llwybr cerdded hygyrch. |
| **Gweithgarwch arfaethedig i'w ddatblygu gan glybiau** | Llwybr cerdded hygyrch. |
| **Gweithgarwch arfaethedig i'w gynnal gan weithredwr masnachol** | Gan weithio mewn partneriaeth â Choleg Iwerydd, gall fod yn bosib ymestyn eu darpariaeth y tu hwnt i'w myfyrwyr a'r ysgolion haf. Hefyd, efallai y byddai Coleg Iwerydd yn fodlon, mewn partneriaeth â Bro Morgannwg, creu llwybr cylch hygyrch rhwng Sant Donat a Llanilltud Fawr, gyda mynediad wedi'i gytuno drwy diroedd Coleg Iwerydd (ar lwybr penodol). Byddai hyn yn sicr yn cysylltu'r coetir naturiol â'r amgylchedd arfordirol ac yn cynnwys hanes Eglwys Sant Donat. |
| **Gweithgareddau na ddylai gael eu cynnal yn y lleoliad hwn a pham** | Mae'r gweithgareddau i gyd yn amodol ar ganiatadau gan Goleg Iwerydd |
| **Argymhellion/cyfleoedd penodol i safle i wella datblygiad / nifer y rhai sy'n cymryd rhan mewn** | O ran ei leoliad a gyda'r adnoddau/cyfleusterau sydd ganddo ar gael, gallai Coleg Iwerydd fod yn lleoliad gwych hefyd ar gyfer HWB gweithgarwch antur canolog. |

| | |
|---|---|
| **gweithgarwch** | |
| **Rhwystrau penodol i safle yn atal datblygu gweithgarwch** | Tir sy'n eiddo preifat. |
| **Argymhellion/cyfleoedd penodol i safle i wella datblygiad / nifer y rhai sy'n cymryd rhan mewn gweithgarwch** | Datblygu gwell cysylltiadau rhwng y dref a'r traeth (llwybr troed/trac beicio hygyrch), heb orfod mynd ar hyd lonydd culion, a hefyd datblygu seilwaith ac ymddangosiad glan y môr h.y. maes parcio, caffi, cawodydd a thoiledau.<br>Datblygu Hwb Gweithgarwch Antur canolog, i'r holl weithgareddau darddu ohono, yn amodol ar sicrhau bod adeilad/lleoliad priodol ar gael. Gallai hyn ddarparu: gweinyddiaeth ganolog; cyfleusterau newid, toiledau a chawodydd, caffi ac ati. Gallai fod yn bosib cludo ymwelwyr ar fws gwennol i weithgarwch 'Sbardunau/Safleoedd' lle byddent yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cyn cael eu cludo'n ôl ar ddiwedd y sesiynau ac felly lleddfu unrhyw bwysau ar y lleoliadau 'Sbardun/Safle'. Gyda phellter teithio uchafswm o tua 20 milltir, gallai cludiant o'r fath fod yn ffocws cynaliadwyedd amgylcheddol hefyd. |
| **Rhwystrau penodol i safle yn atal datblygu gweithgarwch** | Cyllid ar gyfer datblygiad seilwaith<br>Adeilad ar gael ar gyfer Hwb Gweithgarwch Antur |

| **Safle** | **Tref Llanilltud Fawr, y Traeth a Chwm Colhuw** |
|---|---|
| **Trosolwg o'r safle, gan gynnwys nodweddion allweddol y dirwedd naturiol** | Mae tref Llanilltud Fawr mewn lleoliad canolog ar hyd arfordir Bro Morgannwg ac mae ganddi seilwaith ffordd a rheilffordd da. Mae traeth Llanilltud Fawr tua 2km o ganol y dref. Mae'n cynnig mynediad hwylus i'r traeth a llwybr yr arfordir o'r maes parcio ar lan y môr (dim ffioedd). Mae llithrfa ar y traeth ar gyfer mynediad hwylus i'r tywod. Gall y llithrfa gael ei gorchuddio gan gerrig mân o dro i dro. Mae caffi, toiledau a chanolfan clwb achub bywyd yma. Cwm Colhuw yw'r cwm sy'n arwain y ffordd o lan y môr yn ôl am y dref. |
| **Ystyriaethau llanwol** | Mae traeth Llanilltud Fawr yn cael ei effeithio gan lanwau dyddiol. Gellir cael gwybodaeth am lanwau yn www.bbc.co.uk/weather/coast-and-sea/tide-tables |
| **Mynediad a chyfleusterau ar y safle** | Mae posib sicrhau mynediad hwylus i dref Llanilltud Fawr ar ffyrdd ac ar y rheilffyrdd ac mae'n ymddangos bod digon o le parcio yma, sydd o help i osgoi tagfeydd ac effaith ychwanegol yn y safleoedd gweithgarwch amrywiol ledled Bro Morgannwg. Mae maes parcio ar lan y môr (dim ffioedd).<br>Ceir mynediad i lan y môr ar lwybr troed cyhoeddus ar Lwybr Arfordir Cymru o'r dwyrain neu'r gorllewin, neu ar lwybrau troed sy'n cysylltu'r traeth â'r dref, ond gall fod yn heriol dod o hyd i'r llwybr ar adegau. Ceir mynediad ar hyd ffyrdd ond lonydd culion yw'r rhain. |
| **Ystyriaethau daearegol, ecolegol a bioamrywiaeth** | Mae Cwm Colhuw yn gartref i nifer o rywogaethau prin a hardd, gan gynnwys Glöyn Byw y Glesyn Bach, glöyn byw lleiaf Prydain. Gellir gweld bywyd gwyllt yng Ngwarchodfa Natur Cwm Colhuw hefyd, sy'n rhedeg ar hyd copa'r clogwyni i'r gorllewin ac yn ôl am y dref. |
| **Trosolwg o gyfansoddiad y perchennog tir** | Mae'r safleoedd yn eiddo i Gyngor Bro Morgannwg ac yn cael eu rheoli ganddo. Mae'r blaendraeth yn eiddo i Ddugiaeth Lancaster ac yn cael ei reoli ganddi. |
| **Gweithgareddau presennol y cymerir rhan ynddynt fel rheol yma fel gweithgaredd hamdden / hunan-arwain** | Mae'r traeth yn lleoliad hamdden enwog i syrffwyr. Hefyd, mae yma gyfleoedd pysgota, gweithgareddau traeth, nofio dŵr agored a cherdded i ddefnyddwyr hamdden. Mae nifer o 'Lwybrau'r Fro' yn cynnwys traeth a thref Llanilltud Fawr. Nid yw'n ymddangos bod unrhyw weithgareddau eraill yn bodoli yn y dref. |

| | |
|---|---|
| **Gweithgareddau presennol y cymerir rhan ynddynt yma gan grwpiau trefnus** | Mae clwb achub bywyd syrff Llanilltud Fawr ar y traeth ac yn defnyddio darpariaeth bresennol y traeth ar gyfer hyfforddiant ac at ddibenion datblygu.<br>Clwb Achub Bywyd Llanilltud Fawr - https://www.llantwitmajorslsc.org.uk |
| **Gweithgareddau presennol y cymerir rhan ynddynt yma gan weithredwyr masnachol** | Grwpiau Masnachol:<br>Awyr Agored Iwerydd - https://www.atlanticcollege.org/atlantic-outdoors/ |
| **Gweithgareddau arfaethedig i'w cynnal fel gweithgaredd hamdden / hunan-arwain** | Mae ymestyn y chwaraeon dŵr yma'n ymddangos yn gyfyngedig, o ystyried y math o syrffio, er bod llithrfa i gynorthwyo gyda mynediad.<br>Ar wahân i'r ddarpariaeth hamdden, mae gan y lleoliad botensial i wella a datblygu ymhellach y llwybr natur/daearegol diolch i'r clogwyni a'r llyfndiroedd tonnau a'r cwm (Cwm Colhuw) sy'n arwain at y traeth. Gallai datblygiad posib gwell cysylltiadau rhwng y dref a'r traeth (llwybr troed/beicio hygyrch), heb orfod mynd ar hyd lonydd culion, yn ogystal â datblygu'r seilwaith glan y môr a'i ymddangosiad h.y. maes parcio, caffi, cawodydd a thoiledau, wella profiad yr ymwelwyr ymhellach. Gallai defnyddio adnoddau gan fudiadau fel Coed Cadw: https://naturedetectives.woodlandtrust.org.uk/naturedetectives/ ac Ysgolion y Fforest / Traeth: https://www.forestschools.com/products/beach-schools-leader-training?variant=17353755852851 helpu i ddod â'r lleoliad yn fyw. |
| **Gweithgarwch arfaethedig i'w ddatblygu gan glybiau** | Gallai ychwanegu seilwaith glan y môr at ddarpariaeth y clwb achub bywyd cyfredol wella'r ddarpariaeth gyffredinol ar draeth Llanilltud Fawr. |
| **Gweithgarwch arfaethedig i'w gynnal gan weithredwr masnachol** | Oherwydd ei lleoliad canolog yn y Fro a'i chysylltiadau ffordd/rheilffordd da, gallai tref Llanilltud Fawr gynnig Hwb Gweithgarwch Antur canolog ar gyfer cynnig yr holl weithgareddau, yn amodol ar sicrhau bod adeilad/lleoliad priodol ar gael. Gallai hwn ddarparu'r canlynol: gweinyddu canolog; cyfleusterau newid, toiledau a chawodydd, caffi ac ati. Hefyd gellid cludo ymwelwyr i 'Sbardunau/Safleoedd' gweithgarwch lle byddent yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cyn cael eu cludo'n ôl ar ddiwedd y sesiynau, gan liniaru unrhyw bwysau ychwanegol yn y lleoliadau 'Sbardun/Safle'. Gyda dim mwy na thua 20 milltir o waith teithio, gallai cludiant o'r fath fod yn ffocws cynaliadwyedd amgylcheddol hefyd. |
| **Gweithgareddau na ddylai gael eu cynnal yn y lleoliad hwn a pham** | Dringo creigiau |

| **Safle** | **Y Leys – Bae Limpet, Gorllewin a Dwyrain Aberddawan** |
|---|---|
| **Trosolwg o'r safle, gan gynnwys nodweddion allweddol y dirwedd naturiol** | Mae'r Leys wedi'u lleoli yng Ngorllewin Aberddawan, tua 2km i'r de o Silstwn a Sain Tathan, yn agos at Orsaf Bŵer Aberddawan. Mae yma draeth o gerrig mân ac mae'n lleoliad enwog ar gyfer syrffio gyda maes parcio ar lan y môr a mynediad uniongyrchol i'r môr a Llwybr Arfordir Cymru.<br>Mae llwybr concrid gwastad o amgylch ffin yr orsaf bŵer ac mae'n mynd â chi i hen weithfeydd calch Dwyrain Aberddawan a Thraeth Fontygary. |
| **Ystyriaethau llanwol** | Mae Bae Limpet yn cael ei effeithio gan lanwau dyddiol. Gellir cael gwybodaeth am lanwau yn www.bbc.co.uk/weather/coast-and-sea/tide-tables |
| **Mynediad a chyfleusterau ar y safle** | Mae lle parcio ym Mae Limpet gyda pharcio cyfyngedig ar ochr y ffordd ar gyfer y Warchodfa Natur yn agos at bentref Dwyrain Aberddawan. Mae mynediad ar hyd llwybr troed i Afon Ddawan ar hyd Llwybr Arfordir Cymru o'r dwyrain neu'r gorllewin. Nid oes unrhyw gyfleusterau eraill ar gael yma. |

| | |
|---|---|
| **Ystyriaethau daearegol, ecolegol a bioamrywiaeth** | Mae Dwyrain Aberddawan wedi'i ddynodi fel SoDdGA ac efallai y bydd yn amodol ar ganiatadau gan Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ar gyfer rhai gweithgareddau. Gellir cael rhagor o wybodaeth drwy gysylltu â Swyddog Cadwraeth Arfordir Treftadaeth CNC ar 03000654602. |
| **Trosolwg o gyfansoddiad y perchennog tir** | Mae'r safle'n eiddo preifat ac yn cael ei reoli'n breifat. Mae'r blaendraeth yn eiddo i Ddugiaeth Lancaster ac yn cael ei reoli ganddi. |
| **Gweithgareddau presennol y cymerir rhan ynddynt fel rheol yma fel gweithgaredd hamdden / hunan-arwain** | Ar hyn o bryd, mae syrffio a physgota hamdden yn cael eu cynnal yn y lleoliad yma, a hefyd gweithgareddau traeth a cherdded ar y llwybrau arfordirol / natur. |
| **Gweithgareddau presennol y cymerir rhan ynddynt yma gan grwpiau trefnus** | Nid yw'n ymddangos bod unrhyw grwpiau trefnus yn defnyddio'r safle yma. |
| **Gweithgareddau presennol y cymerir rhan ynddynt yma gan weithredwyr masnachol** | Nid yw'n ymddangos bod unrhyw weithredwyr masnachol yn defnyddio'r safle yma. |
| **Gweithgareddau arfaethedig i'w cynnal fel gweithgaredd hamdden / hunan-arwain** | O ran hamdden, dim ond cynnal y ddarpariaeth bresennol o weithgarwch. |
| **Gweithgarwch arfaethedig i'w ddatblygu gan glybiau** | Dim byd wedi'i gynnig. |
| **Gweithgarwch arfaethedig i'w gynnal gan weithredwr masnachol** | Gallai datblygu llithrfa yn y fan yma gynnig cyfle o bosib am fynediad RIB i Fôr Hafren ar gyfer profiadau Reidiau RIB, ond byddai'n rhaid rhoi ystyriaeth i amrediad llanw Môr Hafren.<br>Mae'r Leys, ac agorfa Afon Ddawan i'r môr yn benodol, yn darparu potensial ar gyfer mynediad cysgodol i'r môr mewn RIB gyda'r fornant ddofn, ond mae'n ymddangos bod y fornant hon yn fasach ar Lanw'r Gwanwyn.<br>Gallai'r Warchodfa Natur a'r pyllau yn Nwyrain Aberddawan gynnig safle dŵr gwastad ar gyfer gweithgareddau chwaraeon rhwyfo, ond nid oes seilwaith yn y lleoliad hwn a byddai mynediad yn amodol ar ganiatadau perchnogion tir. Er bod adeilad ffwrnais mawr a gwag ar y safle, byddai ei ddatblygu'n rhy gostus yn ôl pob tebyg, ond mae'n lleoliad gwych ac yn adeilad gyda photensial mawr iawn. |
| **Gweithgareddau na ddylai gael eu cynnal yn y lleoliad hwn a pham** | Dim ond y rhai sydd wedi'u dynodi uchod. |
| **Argymhellion/cyfleoedd penodol i safle i wella datblygiad / nifer y rhai sy'n cymryd rhan mewn gweithgarwch** | Datblygiad llithrfa ym Mae Limpet<br>Ehangu agorfa Afon Ddawan ar gyfer mynediad RIB<br>Datblygu seilwaith i alluogi i chwaraeon rhwyfo gael eu cynnal ar byllau Dwyrain Aberddawan |
| **Rhwystrau penodol i safle yn atal datblygu gweithgarwch** | Amrediad llanwol Môr Hafren<br>Perchnogaeth breifat ar y tir – Gorsaf Bŵer Aberddawan |

| Safle | Trwyn y Rhws |
|---|---|
| **Trosolwg o'r safle, gan gynnwys nodweddion allweddol y dirwedd naturiol** | Safle chwarel segur yw'r anheddiad mwyaf deheuol hwn ar dir mawr Cymru, gyda thri llyn bach. Mae'r clogwyni calchfaen wedi'u hagru gan chwarelu. Mae'r hen chwareli'n gartref bellach i stad o dai a gwarchodfa natur, gyda'r olaf yn cynnig mynediad hwylus i'r blaendraeth ym Môr Hafren drwy'r bwlch yn y clogwyn. Creigiau yw'r traeth yn y fan yma, heb unrhyw dywod. |
| **Ystyriaethau llanwol** | Mae Trwyn y Rhws yn cael ei effeithio gan lanwau dyddiol. Gellir cael gwybodaeth am lanwau yn www.bbc.co.uk/weather/coast-and-sea/tide-tables |
| **Mynediad a chyfleusterau ar y safle** | Ar hyn o bryd mae'r lle parcio'n brin ar ochr y ffordd. Mae'n hawdd iawn cael mynediad i'r lleoliad a dim ond 5 munud o'r briffordd, Gorsaf Drenau'r Rhws a Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd ydyw. Nid oes unrhyw gyfleusterau ychwanegol. |
| **Ystyriaethau daearegol, ecolegol a bioamrywiaeth** | Gwarchodfa natur restredig sy'n ymddangos fel pe bai'n cynnwys nifer o gyfyngiadau. |
| **Trosolwg o gyfansoddiad y perchennog tir** | Mae'r safle'n eiddo i Gyngor Bro Morgannwg ac yn cael ei reoli ganddo. Mae'r blaendraeth yn eiddo i Ddugiaeth Lancaster ac yn cael ei reoli ganddi. |
| **Gweithgareddau presennol y cymerir rhan ynddynt fel rheol yma fel gweithgaredd hamdden / hunan-arwain** | Dim |
| **Gweithgareddau presennol y cymerir rhan ynddynt yma gan grwpiau trefnus** | Dim |
| **Gweithgareddau presennol y cymerir rhan ynddynt yma gan weithredwyr masnachol** | Dim |
| **Gweithgareddau arfaethedig i'w cynnal fel gweithgaredd hamdden / hunan-arwain** | Dim byd wedi'i gynnig |
| **Gweithgarwch arfaethedig i'w ddatblygu gan glybiau** | Dim byd wedi'i gynnig |
| **Gweithgarwch arfaethedig i'w gynnal gan weithredwr masnachol** | Byddai'r safle'n addas iawn ar gyfer y gweithgareddau canlynol, gan eu cynnig yn fasnachol: chwaraeon rhwyfo, hyfforddiant sgiliau beicio mynydd, pysgota, dringo creigiau, abseilu, rhaffau uchel a gwifrau gwib. |
| **Gweithgareddau na ddylai gael eu cynnal yn y lleoliad hwn a pham** | Dim ond gweithgareddau a reolir, fel y nodir. |

| | |
|---|---|
| **Argymhellion/cyfleoedd penodol i safle i wella datblygiad / nifer y rhai sy'n cymryd rhan mewn gweithgarwch** | Mae tri llyn bach yma, a byddai un yn ddelfrydol ar gyfer gweithgareddau chwaraeon rhwyfo (gan adael y ddau arall ar gyfer defnyddiau eraill); tir eang y gellid ei ddatblygu fel cylched datblygu sgiliau beicio mynydd, yn ogystal â maes parcio; wynebau clogwyni y gellid eu sefydlogi ar gyfer gweithgarwch dringo creigiau ac abseilu; mynediad i'r môr pan fod'r amodau'n briodol ar gyfer cynyddu mewn sgiliau chwaraeon rhwyfo. Hefyd, gall fod yn ymarferol datblygu cyfleuster rhaffau uchel a gwifren wib a darpariaeth llety.<br>Er bod gan y lleoliad botensial i fod yn Hwb gweithgarwch gwych, wedi'i gysgodi rhag y tywydd gwaethaf sy'n taro arfordir Bro Morgannwg, nid yw'r cyfyngiadau presennol yn caniatáu ar gyfer ystyried unrhyw ddatblygiadau yma. |
| **Rhwystrau penodol i safle yn atal datblygu gweithgarwch** | Gwarchodfa natur gyda nifer o gyfyngiadau.<br>Perchnogaeth breifat ar y tir. |

| **Safle** | **Y Barri, Ynys y Barri a Dociau'r Barri** |
|---|---|
| **Trosolwg o'r safle, gan gynnwys nodweddion allweddol y dirwedd naturiol** | Mae tref y Barri (y fwyaf yng Nghymru) a'r ardal o amgylch wedi'u heithrio o'r astudiaeth ddichonoldeb hon am eu bod yn ardal drefol, ond maent yn werth eu nodi gan eu bod yn agos at yr holl leoliadau eraill a ystyrir a'r gweithgareddau sy'n cael eu cynnal yma ar hyn o bryd. Mae dociau'r Barri yn gartref i fad achub yr RNLI a Chlwb Iotio'r Barri. |
| **Ystyriaethau llanwol** | Mae'r Barri, Ynys y Barri a Dociau'r Barri'n cael eu heffeithio gan lanwau dyddiol. Gellir cael gwybodaeth am lanwau yn www.bbc.co.uk/weather/coast-and-sea/tide-tables |
| **Mynediad a chyfleusterau ar y safle** | Mae Dociau'r Barri yn eiddo i Associated British Ports ac mae'n rhaid wrth ganiatadau ar gyfer mynediad. Mae lle parcio da yn y baeau ar Ynys y Barri (ffioedd yn berthnasol) ac mae amrywiaeth o gyfleusterau / mwynderau ar gael yma. |
| **Ystyriaethau daearegol, ecolegol a bioamrywiaeth** | Mae Ynys y Barri wedi'i dynodi yn SoDdGA ac efallai y bydd yn amodol ar ganiatadau gan Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ar gyfer rhai gweithgareddau. Gellir cael rhagor o wybodaeth drwy gysylltu â Swyddog Cadwraeth Arfordir Treftadaeth CNC ar 03000654602. |
| **Trosolwg o gyfansoddiad y perchennog tir** | Mae'r Barri ac Ynys y Barri yn eiddo i Gyngor Bro Morgannwg ac yn cael eu rheoli ganddo. Mae'r blaendraeth yn eiddo i Ddugiaeth Lancaster ac yn cael ei reoli ganddi. |
| **Gweithgareddau presennol y cymerir rhan ynddynt fel rheol yma fel gweithgaredd hamdden / hunan-arwain** | Mae ambell fae yn y Barri (Bae Whitmore a Bae Jacksons) a'r Hen Harbwr lle mae darpariaeth nofio dŵr agored, hyfforddiant a digwyddiadau triathlon a chwaraeon rhwyfo yn bodoli. Mae'n lleoliad rheolaidd ar gyfer nofwyr, triathletwyr a rhwyf-fyrddwyr lleol a chynhaliodd ei Driathlon cyntaf yn 2018. Mae hwylio a chwaraeon rhwyfo'n cael eu cynnal hefyd yn Nociau'r Barri.<br>Grwpiau Trefnus:<br>Triathlon Prydain - www.britishtriathlon.org<br>Triathlon Cymru - welshtriathlon.org<br>Island SUP - https://www.islandsup.org<br>Grwpiau Masnachol:<br>Awyr Agored Iwerydd - https://www.atlanticcollege.org/atlantic-outdoors/<br>Antur-Adventure - https://www.anturio-adventure.com<br>Mae rhagor o fanylion am weithredwyr masnachol ar gael yn https://www.visitwales.com/wato |
| **Gweithgareddau presennol y cymerir rhan ynddynt yma gan grwpiau trefnus** | |
| **Gweithgareddau presennol y cymerir rhan ynddynt yma gan weithredwyr masnachol** | |
| **Gweithgareddau arfaethedig i'w cynnal fel gweithgaredd hamdden / hunan-arwain** | O ran hamdden, dim ond cynnal y ddarpariaeth bresennol. |

| | |
|---|---|
| **Gweithgarwch arfaethedig i'w ddatblygu gan glybiau** | O bersbectif clwb / grŵp trefnus, dim ond cynnal y ddarpariaeth bresennol. |
| **Gweithgarwch arfaethedig i'w gynnal gan weithredwr masnachol** | Profiadau Reidiau RIB |
| **Gweithgareddau na ddylai gael eu cynnal yn y lleoliad hwn a pham** | Mae gan y safle botensial i ehangu'r amrywiaeth o weithgareddau posib felly mae'n werth peidio ag eithrio unrhyw rai ar hyn o bryd ac ystyried fesul achos. |
| **Argymhellion/cyfleoedd penodol i safle i wella datblygiad / nifer y rhai sy'n cymryd rhan mewn gweithgarwch** | Mae Dociau'r Barri yn ymddangos fel yr unig leoliad ar hyd arfordir Bro Morgannwg ar gyfer cychod môr mwy (RIBs) i gael mynediad i arfordir y Fro. Mae sgyrsiau gyda Harbwrfeistr y Barri wedi dynodi y gallai fod yn bosib (yn amodol ar amodau, caniatadau a ffioedd) i fusnesau fel Reidiau RIB weithredu yma. |
| **Rhwystrau penodol i safle yn atal datblygu gweithgarwch** | Perchnogaeth breifat ar y tir. |

| **Safle** | **Trwyn Larnog i Drwyn Hayes – Bae Sili, Ynys Sili a Bae Ffynnon y Santes Fair** |
|---|---|
| **Trosolwg o'r safle, gan gynnwys nodweddion allweddol y dirwedd naturiol** | Mae gan Sili ei Glwb Hwylio ei hun gyda llithrfa. Ceir goferydd llanwol yn Nhrwyn Larnog a rasys llanwol cryf rhwng yr arfordir ac Ynys Sili ar lanw uchel. |
| **Ystyriaethau llanwol** | Effeithir ar y safle gan lanwau dyddiol. Gellir cael gwybodaeth am lanwau yn www.bbc.co.uk/weather/coast-and-sea/tide-tables |
| **Mynediad a chyfleusterau ar y safle** | Mae lle parcio ym maes parcio Ynys Sili (gall ffioedd/amodau fod yn berthnasol). Mae'r cyfleusterau / mwynderau'n cynnwys tafarn, bwyty a pharciau carafanau. |
| **Ystyriaethau daearegol, ecolegol a bioamrywiaeth** | https://www.welshwildlife.org/wp-content/uploads/2014/01/Lavernock-Point.pdf<br>Mae Ynys Sili a Thrwyn Larnog wedi'u dynodi yn SoDdGA ac efallai y bydd yn amodol ar ganiatadau gan Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ar gyfer rhai gweithgareddau. Gellir cael rhagor o wybodaeth drwy gysylltu â Swyddog Cadwraeth Arfordir Treftadaeth CNC ar 03000654602.<br>https://www.welshwildlife.org/nature-reserve/lavernock-point-penarth/ |
| **Trosolwg o gyfansoddiad y perchennog tir** | Mae'n ymddangos bod y mynediad i'r maes parcio yn eiddo preifat ac yn cael ei reoli'n breifat. Mae'r blaendraeth yn eiddo i Ddugiaeth Lancaster ac yn cael ei reoli ganddi. Mae'n ymddangos hefyd bod daliadaeth yn bodoli, o dan reolaeth trwydded ers mis Ionawr 1966, ac yn weithredol ar hyn o bryd o dan brydles 25 mlynedd o fis Mehefin 1999. |
| **Gweithgareddau presennol y cymerir rhan ynddynt fel rheol yma fel gweithgaredd hamdden / hunan-arwain** | O ran hamdden, mae pysgota a gweithgareddau traeth fel pe baent yn cael eu cynnal yn y lleoliadau hyn. |
| **Gweithgareddau presennol y cymerir rhan ynddynt yma gan grwpiau** | O bersbectif grŵp trefnus, mae gweithgareddau hwylio'n cael eu cynnal o Glwb Hwylio Sili |

| | |
|---|---|
| **trefnus** | |
| **Gweithgareddau presennol y cymerir rhan ynddynt yma gan weithredwyr masnachol** | Dim |
| **Gweithgareddau arfaethedig i'w cynnal fel gweithgaredd hamdden / hunan-arwain** | O ran hamdden, dim ond cynnal y ddarpariaeth bresennol o weithgarwch. |
| **Gweithgarwch arfaethedig i'w ddatblygu gan glybiau** | O bersbectif grŵp trefnus, dim ond cynnal y ddarpariaeth bresennol o weithgarwch. |
| **Gweithgarwch arfaethedig i'w gynnal gan weithredwr masnachol** | Profiadau Reidiau RIB<br>Anturiaethau Arfordirol – cyfuniad o weithgareddau sgramblo/bowldro ac arforgampau |
| **Gweithgareddau na ddylai gael eu cynnal yn y lleoliad hwn a pham** | Nofio dŵr agored |
| **Argymhellion/cyfleoedd penodol i safle i wella datblygiad / nifer y rhai sy'n cymryd rhan mewn gweithgarwch** | Gallai'r lleoliadau hyn fod yn rhan yn sicr o ddarpariaeth bosib o brofiad Reidiau RIB. O ychwanegu profiad arfordir cyflawn at hyn, ac ymweld efallai ag ynysoedd Steep Holm (a reolir gan Gyngor Dinas Bryste) ac Echni (a reolir gan Gyngor Sir Caerdydd), byddai hwn yn brofiad bythgofiadwy yn sicr ac yn ffordd unigryw o archwilio'r arfordir yma. Mae profiadau o'r fath yn cael eu cynnig eisoes o Fae Caerdydd.<br>Ar lanw isel, byddai'n bosib cynnig 'antur arfordirol' o amgylch Ynys Sili (a reolir gan Gyngor BM) gan fod sarn y gellir ei cherdded, i gyrraedd yr ynys (bydd cyfyngiadau llanwol yn berthnasol). Mae rhai pwyntiau hanesyddol o ddiddordeb ar yr ynys (gweddillion hen gaer) a rhai cyfleoedd sgramblo/bowldro ar ochr ddeheuol yr ynys. |
| **Rhwystrau penodol i safle yn atal datblygu gweithgarwch** | Mynediad<br>Amrediad llanwol |

| **Safle** | **Llynnoedd a Pharc Gwledig Cosmeston** |
|---|---|
| **Trosolwg o'r safle, gan gynnwys nodweddion allweddol y dirwedd naturiol** | Er nad yw Llynnoedd Cosmeston yn rhan o gwmpas yr astudiaeth ddichonoldeb hon, mae eu maes parcio, y ganolfan ymwelwyr a'r pentref canoloesol yn rhan o'r Fro wledig, felly maent yn werth eu crybwyll yn sicr. Pyllau graean segur yw'r llynnoedd sydd wedi cael eu hawlio'n ôl ac maent yn cael eu rheoli gan Fro Morgannwg. Mae un o'r llynnoedd yn warchodfa natur felly nid oes unrhyw weithgarwch yn digwydd yn y warchodfa natur. |
| **Ystyriaethau llanwol** | Dim |
| **Mynediad a chyfleusterau ar y safle** | Mae'r maes parcio am ddim ac mae cyfleusterau toiled yn ogystal â chaffi a chanolfan ymwelwyr yma. |
| **Ystyriaethau daearegol, ecolegol a bioamrywiaeth** | Mae gan y parc gwledig amrywiaeth o gynefinoedd sy'n gorchuddio mwy na 100 o hectarau o dir a dŵr, gyda rhai ardaloedd wedi'u dynodi fel SoDdGA i warchod y rhywogaethau prin ac amrywiol o blanhigion ac anifeiliaid. |

| | |
|---|---|
| **Trosolwg o gyfansoddiad y perchennog tir** | Mae'r safle'n eiddo i Gyngor Bro Morgannwg ac yn cael ei reoli ganddo. |
| **Gweithgareddau presennol y cymerir rhan ynddynt fel rheol yma fel gweithgaredd hamdden / hunan-arwain** | Cerdded, beicio a physgota. |
| **Gweithgareddau presennol y cymerir rhan ynddynt yma gan grwpiau trefnus** | Chwaraeon rhwyfo, hwylio, gwyntsyrffio, nofio dŵr agored, triathlon. Ffioedd yn berthnasol.<br>Grwpiau Trefnus:<br>Clwb Caniŵio Caerdydd - https://www.cardiffcanoeclub.co.uk |
| **Gweithgareddau presennol y cymerir rhan ynddynt yma gan weithredwyr masnachol** | Chwaraeon rhwyfo. Ffioedd yn berthnasol.<br>Grwpiau Masnachol:<br>Awyr Agored Iwerydd - https://www.atlanticcollege.org/atlantic-outdoors/<br>Antur-Adventure - https://www.anturio-adventure.com<br>Gellir cael rhagor o fanylion am weithredwyr masnachol yn https://www.visitwales.com/wato |
| **Gweithgareddau arfaethedig i'w cynnal fel gweithgaredd hamdden / hunan-arwain** | O ran hamdden, gwella'r ddarpariaeth bresennol o weithgarwch / gwella'r profiad i ymwelwyr. |
| **Gweithgarwch arfaethedig i'w ddatblygu gan glybiau** | O bersbectif clwb / sefydliad, gwella'r gweithgarwch presennol / profiad i ymwelwyr. |
| **Gweithgarwch arfaethedig i'w gynnal gan weithredwr masnachol** | O bersbectif gweithredwyr masnachol, gwella'r gweithgarwch presennol / profiad i ymwelwyr.<br>Galluogi busnesau i weithredu o'r safle, gan gynnwys busnesau llogi. |
| **Gweithgareddau na ddylai gael eu cynnal yn y lleoliad hwn a pham** | Gweithgareddau nad ydynt yn cael eu rheoli |
| **Argymhellion/cyfleoedd penodol i safle i wella datblygiad / nifer y rhai sy'n cymryd rhan mewn gweithgarwch** | Er bod y lleoliad yn denu llawer o ymwelwyr ar hyn o bryd, yn ystod misoedd yr haf yn bennaf, am resymau amrywiol, mae'r ddarpariaeth o weithgarwch antur yn gyfyngedig i grwpiau a reolir/trefnus. Byddai presenoldeb darparwr gweithgarwch a/neu fusnes llogi yn gwella'r ddarpariaeth yn sicr i'r ymwelwyr niferus â'r parc. Byddai datblygu cawodydd ac ystafelloedd newid yn ategu darpariaeth weithgarwch Llynnoedd Cosmeston ac yn ei gwneud yn ddarpariaeth fwy atyniadol a'i galluogi i ddod yn hwb gweithgarwch antur. |
| **Rhwystrau penodol i safle yn atal datblygu gweithgarwch** | Cyllid ar gyfer datblygu seilwaith. |

# 7. Argymhellion

Mae canlyniadau ac argymhellion yr astudiaeth ddichonoldeb hon yn seiliedig ar ymgysylltu â'r canlynol:

- Cyngor Bro Morgannwg a nifer o'i gyflogeion allweddol, yn bennaf â Chymunedau Gwledig Creadigol, Rheoli Twristiaeth a Thir Hamdden;
- Y Fasnach Twristiaeth;
- Yr Ymwelwyr/Twristiaid
- Darparwyr Gweithgarwch Antur o fewn radiws o 50 milltir i Fro Morgannwg, ond yng Nghymru;
- Trigolion Lleol;
- Busnesau Lleol gydag ymwneud uniongyrchol ac anuniongyrchol â'r awyr agored;
- Perchnogion Tir;
- Rheolwyr Tir.

Mae wedi dod yn amlwg bod Bro Morgannwg yn:

**"Un o'r Cyfrinachau Gorau Ymhlith Cyrchfannau Antur Cymru"**

Gallai datganiad o'r fath 'werthu' ei hun dim ond bod seilwaith yn ei le a darpariaeth briodol i'w gefnogi.

Mae'r argymhellion wedi cael eu datgan fel naill ai:

- ➢ **Nodau tymor byr** – o fewn y 12 mis nesaf;
- ➢ **Nodau tymor canolig** – o fewn 12 i 24 mis;
- ➢ **Nodau tymor hir** – rhwng 2 a 5 mlynedd.

## 7.1 Nodau tymor byr

<u>Marchnata</u>

a. Nodi 'pwynt gwerthu unigryw' (PGU) Bro Morgannwg yng nghyd-destun y ddarpariaeth antur h.y. ai dyma'r 'gyfrinach orau ymhlith cyrchfannau antur Cymru'?; Ai 'clogwyni Morgannwg'?; Ai'r 'Arfordir Treftadaeth' sy'n tanwerthu ei hun ar hyn o bryd?; Angen am ei 'Brand Bro Antur' ei hun - 'Arfordir a Chefn Gwlad Morgannwg - "perl" ar gyfer antur';
b. Creu Map Gweithgarwch Bro Morgannwg, yn tynnu sylw at lefydd lle gellir cynnal rhai gweithgareddau antur fel hamdden, llefydd lle cynigir gweithgareddau antur yn fasnachol; clybiau sy'n cynnig gweithgareddau antur – canŵio/caiacio/SUP/cerdded/dringo, syrffio ac ati. Cyfeirio at gysylltiadau â nodau Iechyd a Lles i elwa ar yr agendâu cysylltiedig ag iechyd;

c. Datblygu gwefan gweithgareddau yn unig i ymwelwyr, neu adran ar wefan Bro Morgannwg (Ymweld â'r Fro) sy'n arddangos y ddarpariaeth o weithgarwch antur a'r darparwyr achrededig perthnasol. Gallai'r porthol i ymwelwyr fod yn debyg i'r porthol ymweld ag ysgolion, gyda 'rhestr siopa' o ofynion i ddewis o'u plith;
d. Comisiynu fideo'n arddangos y ddarpariaeth antur ar hyd yr Arfordir Treftadaeth ac yn y Fro wledig;
e. Comisiynu llyfrgell o ddelweddau antur (diogel) sydd ar gael yn rhydd i'w defnyddio gan y cyngor a busnesau/sefydliadau lleol i gynorthwyo gyda hybu'r ddarpariaeth antur leol;
f. Yn seiliedig ar ganfyddiadau arolwg yr ymwelwyr, dylai'r marchnata a dargedir fod ar gyfer pobl 26 i 49 oed a'u teuluoedd.

Datblygu busnes

g. Sefydlu Llysgennad Antur ar gyfer Bro Morgannwg a allai ymuno â Rhaglen Llysgenhadon ehangach y Fro. Gallai'r penodiad hwn gynnig cyswllt positif rhwng dymunoldeb i ymwelwyr a chyfleoedd hamdden i drigolion lleol;
h. Peilot Rhwydwaith Gweithgarwch yn y Fro - rhwydwaith o ddarparwyr gweithgarwch antur ar gyfer sicrhau a rhannu gwybodaeth berthnasol rhwng pawb sydd â diddordeb;
i. Datblygu porthol ar-lein ehangach/rhwydwaith rhithiol o ddarparwyr gweithgarwch a busnesau twristiaeth i sicrhau a rhannu gwybodaeth berthnasol rhwng yr holl bartïon sydd â diddordeb h.y. darparwyr awyr agored, masnach twristiaeth, perchnogion tir, rheolwyr tir, grwpiau cadwraeth ac ati. Gallai rhwydweithio o'r fath fod yn gatalydd i sefydlu cyfleoedd marchnata ar y cyd â phecynnau pwrpasol i ymwelwyr;

Digwyddiadau

j. Cynnal digwyddiad arddangos 'dilynol' yn 2020, yn seiliedig ar y digwyddiad arddangos cychwynnol yn 2019 – gyda'r ffocws ar ganfyddiadau ac argymhellion yr astudiaeth gyntaf;
k. Cyfres o weithgareddau Antur Untro ledled y Fro yn ymateb i'r neges glir gan ymwelwyr a thrigolion lleol bod dyhead am fwy o weithgareddau blasu.

Gweithredol

l. Cydnabod y model 'diwydrwydd dyladwy' presennol ar gyfer penderfynu ar addasrwydd (achrediad) darparwyr gweithgarwch antur, gan leihau'r 'baich' a chodi'r 'rhwystr' sy'n atal darparwyr gweithgarwch antur rhag ymwneud â darparu gweithgarwch antur ym Mro Morgannwg.
m. Mae angen ymchwil pellach i sefydlu pam nad oes mwy o bobl yn ymweld â'r Fro ar gyfer gweithgareddau antur.

<u>Seilwaith</u>

n. Sefydlu safleoedd wifi cyhoeddus – gallai gwasanaeth rhwydwaith 4G y Fro fod yn well a gallai gael ei wella hefyd drwy lecynnau wifi cyhoeddus mewn pyrth allweddol i leoliadau penodol ledled y Fro. Mae angen cael gwybodaeth wrth fynd wrth gynnal gweithgareddau antur h.y. map antur/gweithgarwch, mapiau mordwyo, gwybodaeth am ddiogelwch ac ati. Wrth fewngofnodi i wifi cyhoeddus gellid cael tudalen sblash sy'n cyfeirio'r defnyddiwr i'r adran antur ar dudalen Ymweld â'r Fro ar gyfer gwybodaeth berthnasol.
o. Creu cymhelliant (seilwaith a chyfleoedd marchnata) i ddenu busnesau llogi h.y. llogi beiciau, llogi caiacs eistedd-ar-y-top, llogi byrddau syrffio ac ati yn y safleoedd a nodir ym Mro Morgannwg.

## 7.2 Nodau tymor canolig:

<u>Marchnata</u>

a. Sefydlu brand cadarn ar gyfer Bro Morgannwg (yng nghyd-destun y ddarpariaeth antur) fel Cyrchfan Antur sy'n Gyfrinach Orau Cymru i gynnwys strategaeth brand, PGU a geiriau allweddol yn gysylltiedig â'r Fro, hunaniaeth weledol ddwyieithog, themâu allweddol, strategaeth farchnata, cynllun datblygu cynulleidfa ac ati;

<u>Datblygu busnes</u>

b. 'Swyddog Cyswllt Gweithgarwch Awyr Agored' Bro Morgannwg – swydd ar gontract a allai wneud y canlynol:
    i. sefydlu proses syml i unrhyw ddarparwr gweithgarwch antur ddefnyddio adnoddau/cyfleusterau Bro Morgannwg a/neu dir o eiddo preifat (yn amodol ar y trefniadau angenrheidiol sydd yn eu lle). Y broses i gynnwys: Ffurflenni hawdd eu llenwi; gyda phwy ddylid cysylltu; am faint fyddwch yn aros am ymateb; drafftio CLGau/Partneriaeth ac ati,
    ii. darparu rôl datblygu chwaraeon fel bod y swydd yn cael pobl leol i'r awyr agored drwy weithio gydag ysgolion a grwpiau eraill, gan gefnogi busnes mewn ffyrdd sydd wedi'u crybwyll eisoes,
    iii. gweithredu fel ymgynghorydd twristiaeth gweithgarwch awyr agored, gan helpu i ganfod rhagor o gyllid ar gyfer prosiectau ac i gefnogi busnesau;
c. Datblygu rhwydwaith hunangynhaliol o ddarparwyr gweithgarwch antur i sicrhau a rhannu gwybodaeth berthnasol rhwng yr holl bartïon sydd â diddordeb, yn seiliedig ar yr argymhelliad yn 1.e uchod;

d. Canolfan Awyr Agored, yn elwa ar ddigwyddiadau arddangos Antur Untro ac yn cysylltu â phartneriaid Ewropeaidd – Swydd Kerry (De Iwerddon) – cyfle posib i gydweithredu;
e. Cynnal dadansoddiad bwlch sgiliau a nodi ble mae prinder sgiliau hyfforddwyr gweithgarwch antur mewn perthynas â'r ddarpariaeth antur benodol yn y Fro;

Digwyddiadau

f. Sefydlu Sioe Awyr Agored y Fro gan weithio o bosib gyda Sant Donat a/neu ddarparu gwerth ychwanegol o bosib i Sioe y Fro yng Nghastell Fonmon;

Addysg

g. Mae cenedlaethau'r dyfodol Bro Morgannwg yn ysgolion y Fro. Byddai ymestyn darpariaeth addysgol y Fro drwy raglen tripiau ysgol y Fro, i atgoffa'r ysgolion o'r asedau sydd gan y Fro a sut gallai eu harchwilio gael ei gyflawni gyda'r darparwyr gweithgarwch antur achrededig sydd wedi'u rhestru, yn sicr yn cyflawni gofynion y cwricwlwm cenedlaethol newydd ar gyfer Cymru;

Seilwaith

h. Mae'r matrics gweithgarwch/lleoliadau yn adran 6.2 yn awgrymu sawl newid seilwaith y gellid eu gweithredu mewn lleoliadau penodol er mwyn gwella'r potensial ar gyfer datblygu gweithgarwch antur. Gellid gweithredu llawer o'r newidiadau hyn yn y tymor byr, ond byddai eraill yn gynigion tymor hwy.

## 7.3 Nodau tymor hir:


Seilwaith

a. Datblygu Hwb Gweithgarwch Antur – man cyfarfod a bwyta yn ogystal â lle ar gyfer antur, mewn lleoliad cytunedig ac addas - Trwyn y Rhws, Chwarel Pont Alun, Chwarel Pant, Castell Sant Donat (Coleg Iwerydd), Tref Llanilltud Fawr. Byddai datblygiad o'r fath yn galluogi gwell disgwyliadau ar gyfer yr ymwelwyr gyda gwasanaethau o ansawdd uchel yn cysylltu â'r ddarpariaeth allanol o weithgarwch antur ledled Bro Morgannwg. Byddai hefyd yn cynnig gwell cyfleoedd cyflogaeth ar draws darpariaeth y sector twristiaeth;
b. Sefydlu Hybiau lloeren ledled y Fro gyda chysylltiadau â'r prif Hwb Antur, gan gynnwys datblygu'r safleoedd hyn (seilwaith ac adnoddau) yn y Fro. Y safleoedd gwerth eu hystyried fyddai: Trwyn y Rhws, Chwarel Pont Alun, Chwarel Pant; Traeth ac Afon Ogwr, Trwyn y Gwrachod, Castell Sant Donat (Coleg Iwerydd), Llanilltud Fawr, Cosmeston, Porthceri. Efallai bod lleoliadau eraill/adeiladau gwledig gwag y gellid eu hystyried – safle Clwb Bechgyn yn Sain Tathan, Adeilad Addysg yr Orsaf Bŵer, Canolfan Hyfforddi Aston Martin.

## 7.4 Esiamplau o ble a sut gallai datblygu Hwb Gweithgarwch Antur a Sbardun weithio

### 7.4.1 Cyfleoedd masnachol yn adeilad clwb achub bywyd syrff Pen-y-Bont yn Aberogwr.

Mae Adroddiad Cam 2 Astudiaeth Ddichonoldeb Cyfleoedd Masnachol Bro Morgannwg (Mawrth 2016) yn awgrymu bod llawer iawn o ymdrech a chynllunio prosiect wedi cael eu buddsoddi eisoes mewn datblygu cynllun newydd i ddymchwel a chymryd lle'r strwythur presennol gyda chyfleuster modern ac atyniadol sy'n gallu gwasanaethu anghenion y gwasanaethau brys yn well, yn ogystal â gwella'n sylweddol ymddangosiad gweledol y pentir amlwg ond sensitif hwn. Ar ôl cael caniatâd cynllunio eisoes a sefydlu angen, yn gysylltiedig â chanfyddiadau'r astudiaeth hon, byddai datblygiad o'r fath nid yn unig yn gwasanaethu anghenion y gwasanaethau brys ond hefyd yn galluogi i Hwb gweithgarwch antur dyfu, gan elwa ar ei leoliad gwych lle gallai llawer o weithgareddau gael eu cynnig yn fasnachol e.e. syrffio, chwaraeon rhwyfo, arforgampau.




*Ffynhonnell : Partneriaeth PJ Lee Architect a Jenkins Gould*

Byddai nodau'r prosiect yn gofyn am ailwerthuso er mwyn sicrhau eu bod yn diwallu'r anghenion yn astudiaeth ddichonoldeb 2016 ynghyd â'r anghenion sydd wedi'u datgan yn yr astudiaeth hon. Gallai'r canlyniadau sefydlu 'bwrlwm' o weithgarwch a chanolbwynt cymunedol ar gyfer gweithgareddau antur.

### 7.4.2 Cyfleoedd masnachol yn Chwarel a Llynnoedd Trwyn y Rhws

Mae gan Drwyn y Rhws chwarel segur yn wynebu Môr Hafren a thri llyn bach. Nododd yr asesiad effaith cychwynnol mai pysgota yw'r unig weithgaredd sy'n cael ei gynnal yma yn ôl pob tebyg, ond

yn ôl Cyngor Bro Morgannwg, nid oes unrhyw weithgareddau (gan gynnwys pysgota) yn cael eu caniatáu ar y safle hwn ar hyn o bryd. Gyda datblygiadau sylweddol, gallai hwn fod yn lleoliad da ar gyfer HWB gweithgarwch ym mhen dwyreiniol y Fro wledig, wedi'i gysgodi rhag y tywydd gwaethaf sy'n taro arfordir Bro Morgannwg o dro i dro, gan wasanaethu anghenion pobl leol ac ymwelwyr fel ei gilydd.





Mae'r safle'n darparu potensial rhagorol ar gyfer datblygiadau cyffrous. Mae tri llyn bach, a byddai un yn ddelfrydol ar gyfer gweithgareddau chwaraeon rhwyfo (gan adael y ddau arall ar gyfer defnyddiau eraill, fel pysgota); tir eang y gellid ei ddatblygu fel cylched datblygu sgiliau beicio mynydd, yn ogystal â maes parcio; wynebau clogwyni y gellid eu sefydlogi ar gyfer gweithgarwch dringo creigiau ac abseilu; mynediad i'r môr pan fo'r amodau'n briodol ar gyfer cynnydd mewn sgiliau chwaraeon rhwyfo. Hefyd, gall fod yn ymarferol datblygu cyfleuster rhaffau uchel a gwifren wib a chyfleuster sy'n cynnig: caffi/bwyty, llety, cawodydd, toiledau a chyfleusterau newid, mynedfeydd ac allanfeydd hwylus ar gyfer gweithgarwch chwaraeon rhwyfo, a llwyfannau ar gyfer pysgota oddi arnynt.

Ar hyn o bryd mae'r lle parcio ar ochr y ffordd yn brin ond mae lle i ddatblygu digon o le parcio oddi ar y ffordd. Mae'n hawdd iawn cael mynediad i'r lleoliad a dim ond 5 munud oddi ar y brifffordd ydyw ac o Orsaf Drenau'r Rhws a Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd – maes awyr Bro Morgannwg ei hun.

### 7.4.3 Chwareli Pont Alun / Pant

Wedi'u lleoli ar hyd y B4265 rhwng Ogwr a Saint-y-brid, mae'r ddau leoliad yma'n eiddo preifat ar hyn o bryd ac wedi'u rhestru fel safleoedd chwarelu gweithredol, gyda thrwyddedau, oherwydd bydd y chwarelu'n parhau am y 5 mlynedd nesaf yn ôl yr hyn rydym yn ei ddeall. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw weithgareddau'n cael eu cynnal yn yr un o'r ddau leoliad yma. Yn ôl canllaw dringo De Ddwyrain Cymru, yn Chwarel Pant *'mae'r brif wal ar y dde yn un o'r haenau fertigol mwyaf trawiadol o galchfaen yn y wlad … Mae'n graig ddanheddog naturiol yn bennaf.* Yn ôl Clwb Mynydda De Cymru, '*mae llawer o gwmpas ar gyfer datblygu os sicrheir mynediad ryw dro yn y dyfodol'.* Hefyd, mae gan y safleoedd hyn botensial mawr ar gyfer gweithgarwch dringo creigiau, gallai

gweithgareddau cysylltiedig fod yn bosib, a hefyd mae gan y safle botensial i ddod yn ‘Hwb gweithgarwch’ neu ‘Sbardun’.









Er bod y ddau safle wedi’u rhestru fel safleoedd chwarelu gweithredol, rydym yn deall nad oes yr un o’r ddau’n cael eu chwarelu erbyn hyn. Hefyd, rydym wedi cael ar ddeall bod Cyngor Mynydda Prydain  (BMC) wedi mynegi diddordeb yn y chwareli hyn yn y gorffennol i berchnogion y chwarel, gyda’r bwriad o’u prynu o bosib. Mae’r mynediad i’r safleoedd hyn oddi ar ffordd y B4265 ac er y bydd angen datblygiadau seilwaith sylweddol i sefydlu’r safleoedd hyn fel HWB gweithgarwch antur, byddai’r ddarpariaeth yn unigryw. Mae ciwed ddringo’r DU yn gwybod am ansawdd y graig eisoes ac os daw’r safleoedd hyn yn opsiwn fyth, mae gan y cwmpas ar gyfer eu datblygu botensial i fod yn ‘berl gudd’ y Fro ar gyfer gweithgareddau dringo creigiau a ‘via ferrata’.

# 8. Persbectif

Wrth ystyried argymhellion yr astudiaeth ddichonoldeb hon, mae’n werth gosod mewn cyd-destun bersbectif llawer o ‘unigolion’ a gaiff eu heffeithio efallai (yn bositif neu fel arall). Mae’r persbectif ym mhob achos yn seiliedig ar y sgyrsiau niferus rydym wedi’u cael drwy gydol cyfnod yr astudiaeth. Gadewch i ni ystyried rhai ohonynt:

## 8.1 Un o’r Trigolion Lleol

Dewch i gyfarfod Nicola, mae hi’n byw yn lleol yn Llanilltud Fawr a byddai’n hoffi dechrau cymryd rhan mewn camp antur. Clwb lleol fyddai’r opsiwn gorau iddi efallai ond ble mae cael hyd i’r wybodaeth yma, fel ei bod yn gallu cysylltu â hwy i gael gwybod mwy. Fel dewis arall, efallai ei bod eisiau cael gwybod ble (lleoliad) y gall ac na all fynd i gymryd rhan yn y gweithgareddau yma ar ei liwt ei hun.

**Beth yw gofynion/anghenion Nicola i alluogi i hyn ddigwydd?**

8.1.1 Cyfeirlyfr o glybiau sy'n adlewyrchu'r gweithgareddau antur yn yr ardal *(Argymhelliad 7.1c);*

8.1.2 Map gweithgarwch sy'n tynnu sylw at y lleoliadau ble gellir cymryd rhan mewn gweithgareddau antur *(Argymhelliad 7.1b).*

## 8.2 Yr Ymwelydd Dydd

Dewch i gyfarfod Nia, mae'n bwriadu ymweld â Bro Morgannwg gyda'i theulu. Byddai'n hoffi archebu gweithgaredd i gymryd rhan ynddo tra mae yma. Ble mae'n mynd i chwilio am hyn? Efallai y bydd Nia eisiau edrych ar wefan, ap neu fap i edrych ar ei hopsiynau ac archebu ymlaen llaw cyn ei hymweliad.

**Beth yw gofynion/anghenion Nia i alluogi i hyn ddigwydd?**

8.2.1 Map gweithgarwch sy'n tynnu sylw at leoliadau ble gellir cynnal gweithgareddau antur *(Argymhelliad 7.1b);*

8.2.2 Porthol i ymwelwyr sy'n tynnu sylw at yr holl ddarparwyr gweithgarwch antur achrededig yn yr ardal *(Argymhellion 7.1c;);*

8.2.3 Ap i arddangos y ddarpariaeth hon *(Argymhelliad 7.1n).*

## 8.3 Yr Ymwelydd Penwythnos

Dewch i gyfarfod Nia eto, mae'n cynllunio penwythnos 'ieir' ym Mro Morgannwg ac mae nid yn unig eisiau rhywle i aros ar ei chyfer hi a'r criw o 8 o 'ieir', ond hefyd mae eisiau trefnu rhywfaint o weithgareddau antur i'w cadw'n brysur drwy gydol y penwythnos. Ble all fynd i gael gwybod hyn? Efallai y bydd yn dechrau drwy chwilio am ddarparwyr gweithgarwch antur yn y gobaith y byddant yn helpu nid yn unig i drefnu gweithgareddau ar ei chyfer, ond hefyd yn ei chyfeirio at lety priodol ar gyfer y grŵp.

**Beth yw gofynion/anghenion Nia i alluogi i hyn ddigwydd?**

8.3.1 Porthol i ymwelwyr sy'n tynnu sylw at yr holl ddarparwyr gweithgarwch antur achrededig yn yr ardal *(Argymhellion 7.1c;);*

8.3.2 Mynediad at yr holl fusnesau twristiaeth drwy gyfrwng rhwydwaith fel ei bod yn gallu pecynnu ei gweithgareddau gyda'i gilydd – h.y. llety, gweithgareddau, bwyd ac ati (Argymhellion 7.1h; 7.1i; 7.2c).

## 8.4 Y Darparwr Llety

Dewch i gyfarfod Philippa, mae'n berchen ar faes gwersylla lleol a newydd gadarnhau archeb gan Nia a'i grŵp o 'ieir'. Ydi hi'n gwybod ble i fynd, i allu anfon dolen ar gyfer darparwr gweithgarwch antur achrededig? Ydi hynny'n bodoli hyd yn oed? Mae Nia'n chwilio am 'siop un stop'. Fedr Philippa ddarparu hyn?

**Beth yw gofynion/anghenion Philippa i alluogi i hyn ddigwydd?**

8.4.1 Rhwydwaith sector twristiaeth sy'n cynnwys yr holl fusnesau twristiaeth yn yr ardal ac yn nodi a yw darparwyr gweithgarwch yn achrededig *(Argymhellion 7.1b; 7.1c; 7.1h; 7.1i; 7.1l; 7.2b; 7.2c);*

8.4.2 Darpariaeth masnach twristiaeth o hyfforddiant/gweithdai ac ati i sefydlu a datblygu'r rhwydwaith *(Argymhelliad 7.2e).*

## 8.5 Y Darparwr Gweithgarwch (Presennol)

Dewch i gyfarfod Paul, mae'n ddarparwr gweithgarwch. I sicrhau bod ymwelwyr a thrigolion lleol yr ardal yn ymwybodol o'i wasanaethau, mae ganddo ei wefan ei hun gyda system archebu hwylus ar-lein, mae wedi'i restru ar wefan Ymweld â'r Fro Bro Morgannwg, mae'n dosbarthu taflenni drwy gyfrwng adran Twristiaeth Bro Morgannwg, ac mae'n ymweld yn rheolaidd â meysydd gwersylla a darparwyr llety i rwydweithio. Mae gan Paul ddiddordeb mewn cynnig ei weithgareddau mewn lleoliadau newydd. Byddai Paul yn hoffi gweithio gyda thîm twristiaeth Bro Morgannwg i sicrhau bod yr ardal yn cael y cyhoeddusrwydd mae'n ei haeddu ac yn dod yn adnabyddus am ei darpariaeth o weithgareddau.

**Beth yw gofynion/anghenion Paul i alluogi i hyn ddigwydd?**

8.5.1 Proses gyfeirio ym Mro Morgannwg i helpu Paul i gael mynediad at ei fap/ap gweithgarwch *(Argymhellion 7.1b; 7.1h; 7.1i);*

8.5.2 Swyddog Cyswllt Gweithgarwch Antur Bro Morgannwg a allai helpu/cyfeirio Paul i gael ei ganiatadau i weithredu nifer o safleoedd gweithgarwch *(Argymhelliad 7.2b);*

8.5.3 Cyngor Bro Morgannwg i weithio ar ymarfer ailfrandio sy'n cydnabod y ddarpariaeth amrywiol o weithgarwch antur sydd ar gael yn ei ardal *(Argymhellion 7.2a; 7.3a; 7.3b).*

## 8.6 Y Darparwr Gweithgarwch (Darpar)

Dewch i gyfarfod Ali, byddai'n hoffi sefydlu busnes teithiau caiac yn gweithredu ym Mro Morgannwg. O ble fedr Ali weithredu? Mae rhai llefydd allweddol y byddai'n eu hystyried o ran eu

cyfleusterau/darpariaeth ond nid yw'n sicr a yw'r caniatadau priodol yn eu lle. Byddai'n rhaid i Ali gysylltu â pherchennog (perchnogion)/rheolw(y)r y tir i gael caniatâd neu drwydded i weithredu.

**Beth yw gofynion/anghenion Ali i alluogi i hyn ddigwydd?**

8.6.1 Proses gyfeirio ym Mro Morgannwg i helpu Ali i gael mynediad at ei fap/ap gweithgarwch *(Argymhellion 7.1b; 7.1h; 7.1i);*

8.6.2 Swyddog Cyswllt Gweithgarwch Antur Bro Morgannwg a allai helpu/cyfeirio Ali i gael ei ganiatadau i weithredu nifer o safleoedd gweithgarwch *(Argymhellion 7.2b; 7.3a; 7.3b).*

## 8.7 Y Perchennog Tir Preifat

Dewch i gyfarfod Julian, mae'n asiant ar gyfer perchennog tir mawr ym Mro Morgannwg gyda phŵer (drwy gyfrwng y perchennog tir) i ddyfarnu caniatadau i ddarparwyr gweithgarwch antur, i weithredu ar y tir prefiat. Beth yw ei ddealltwriaeth ef o'r gweithgarwch a'i ddarpariaeth? Sut mae'n gwybod bod yr hyn sy'n cael ei gynnig yn 'arfer da' a bod y darparwr gweithgarwch antur wedi'i achredu'n addas?

**Beth yw gofynion/anghenion Julian i alluogi i hyn ddigwydd?**

8.7.1 Bas data o weithgareddau antur achrededig sy'n debygol o fod eisiau defnydd Bro Morgannwg ar gyfer darparu gweithgarwch *(Argymhelliad 7.1h; 7.1l);*

8.7.2 Porthol ar gyfer y sector i'w ddefnyddio gan bawb sy'n ymwneud â'r sector twristiaeth, sy'n cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol am ddarparu gweithgarwch, sut i gael caniatadau ar gyfer defnyddio safleoedd ar gyfer gweithgareddau antur, darparwyr gweithgarwch antur, perchnogion tir, rheolwyr ac ati *(Argymhellion 7.1i; 7.2b; 7.2c)*.

**DS. Mae Swyddog Cyswllt Bro Morgannwg yn allweddol i gefnogi'r broses hon.**

## 8.8 Yr Awdurdod Lleol a'r Rheolwr Tir

Dewch i gyfarfod Steve, mae'n gyflogedig gan yr awdurdod lleol ac yn goruchwylio'r rheolaeth ar nifer o safleoedd ym Mro Morgannwg. Mae'n derbyn cais gan nifer o ddarparwyr gweithgarwch antur am ddefnyddio'r safleoedd mae'n eu rheoli. Beth sydd arno angen ei wybod i gyflymu'r broses ar gyfer y darparwyr gweithgarwch antur a lleihau'r rhwystrau ymddangosiadol sy'n bodoli ym marn y darparwyr gweithgarwch antur?

**Beth yw gofynion/anghenion Steve i alluogi i hyn ddigwydd?**

8.8.1 Swyddog Cyswllt Gweithgarwch Antur Bro Morgannwg a fydd yn gallu helpu/cyfeirio partïon sydd â diddordeb i gael ei ganiatadau i weithredu ar nifer o safleoedd gweithgarwch *(Argymhellion 7.1b; 7.1c; 7.2b):*

8.8.2 Porthol ar gyfer y sector i'w ddefnyddio gan bawb sy'n ymwneud â'r sector twristiaeth, sy'n cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol am ddarparu gweithgarwch, sut i gael caniatadau ar gyfer defnyddio safleoedd ar gyfer gweithgareddau antur, darparwyr gweithgarwch antur, perchnogion tir, rheolwyr ac ati *(Argymhellion 7.1h; 7.1i; 7.2c).*

## 8.9 Rheolwr Adnoddau Naturiol y Sector Cyhoeddus

Dewch i gyfarfod Liz, hi yw'r swyddog lleol sy'n gyfrifol am ddyfarnu caniatadau i ddefnyddio safleoedd sydd wedi'u dynodi e.e. SoDdGA'oedd. Mae wedi derbyn cais gan ddarparwr gweithgarwch antur am ddarparu gweithgareddau arforgampau mewn SoDdGA ar hyd arfordir Bro Morgannwg. Mae angen gwybod pa leoliad yn union mae'r darparwr yn dymuno gweithredu ynddo a beth mae'r gweithgarwch yn ei gynnwys. Hefyd mae angen gwybod a yw'r darparwr wedi'i achredu'n briodol ac yn cadw at ganllawiau a gydnabyddir yn genedlaethol h.y. canllawiau'r Siarter Arforgampau Cenedlaethol (NCC).

**Beth yw gofynion/anghenion Liz i alluogi i hyn ddigwydd?**

8.9.1 Map gweithgarwch sy'n tynnu sylw at y lleoliadau ble gellir cymryd rhan mewn gweithgareddau antur *(Argymhelliad 7.1b);*

8.9.2 Rhwydwaith sector twristiaeth sy'n cynnwys yr holl fusnesau twristiaeth yn yr ardal ac yn nodi a yw darparwyr gweithgarwch yn achredig *(Argymhellion 7.1h; 7.1i; 7.2c);*

8.9.3 Swyddog Cyswllt Gweithgarwch Antur Bro Morgannwg a fydd yn gallu helpu/cyfeirio partïon sydd â diddordeb i gael ei ganiatadau i weithredu ar nifer o safleoedd gweithgarwch *(Argymhellion 7.1b; 7.1c; 7.2b);*

**DS. Mae Swyddog Cyswllt Bro Morgannwg yn allweddol i gefnogi'r broses hon;**

8.9.4 Bas data o weithgareddau antur achrededig sy'n debygol o fod eisiau defnydd Bro Morgannwg ar gyfer darparu gweithgarwch *(Argymhellion 7.1h; 7.1i; 7.1l; 7.2c);*

8.9.5 Porthol ar gyfer y sector i'w ddefnyddio gan bawb sy'n ymwneud â'r sector twristiaeth, sy'n cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol am ddarparu gweithgarwch, sut i gael caniatadau ar gyfer defnyddio safleoedd ar gyfer gweithgareddau antur, darparwyr gweithgarwch antur, perchnogion tir, rheolwyr ac ati *(Argymhelliad 7.1i).*

## 8.10 Yr Adwerthwr Offer/Busnes Rhentu

Dewch i gyfarfod James, mae'n gweithredu canolfan adwerthu offer awyr agored lle mae'n cyfarfod llawer o bobl sy'n dod i'w siop i brynu offer awyr agored a gofyn am ei gyngor o ran ble i fynd ar gyfer gweithgareddau fel caiacio, syrffio ac ati. Mae angen gwybod ble ddylid anfon y rhai sy'n holi am leoliadau; mae angen gwybod am ddarparwyr gweithgarwch lleol a beth maent yn ei gynnig. Mae James yn ystyried ymestyn ei ddarpariaeth i gynnwys rhentu offer awyr agored fel Caiacs, Rhwyf-fyrddau, Byrddau Syrffio, Beiciau Mynydd. Mae offer i'w rentu'n fuddsoddiad mawr. Mae angen gwybod bod cyfleoedd ar gael iddo i gael elw ar ei fuddsoddiad.

**Beth yw gofynion/anghenion James er mwyn galluogi i hyn ddigwydd?**

8.10.1 Map gweithgarwch sy'n tynnu sylw at leoliadau ble gellir cynnal gweithgareddau antur *(Argymhellion 7.1b, 7.1h);*

8.10.2 Mynediad i fas data o gweithgareddau antur achrededig sy'n lleol i Fro Morgannwg ar gyfer darparu gweithgarwch *(Argymhellion 7.1c; 7.1h; 7.1i; 7.1l; 7.2c);*

8.10.3 Cymhelliant (seilwaith a chyfleoedd marchnata) i sefydlu ei fusnes(au) llogi h.y. llogi beiciau, llogi cychod eistedd-ar-y-top, llogi byrddau syrffio ac ati mewn safleoedd penodol ym Mro Morgannwg *(Argymhellion 7.1.o).*

# 9. Costau Dynodol

| Argymhellion | Cost | Nodiadau |
|---|---|---|
| 7.1a. PGU a chyfeiriad marchnata | £5,000-£10,000 | |
| b. Map gweithgarwch | £5,000-£10,000 | |
| c. Adran gweithgarwch antur ar y we | £3,000 | |
| d. Ffilm antur | Hyd at £5,000 | |
| e. Llyfrgell lluniau | £10,000 | |
| f. Marchnata wedi'i dargedu | Amh. | Cyngor i ymgorffori yn y rôl bresennol |
| g. Llysgennad Antur | Amh. | Cyngor i ymgorffori yn y rôl bresennol |
| h. Peilot rhwydwaith darparwyr gweithgarwch yn y Fro | £2,000 | |
| i. Porthol digidol/rhwydwaith darparwyr gweithgarwch rhithiol | £2,000 - £5,000 | |

| | | |
|---|---|---|
| j. Digwyddiad arddangos 2020 | £10,000 | |
| k. Digwyddiadau untro | £500- £1,000 y digwyddiad | |
| l. Cydnabod model diwydrwydd dyladwy | Amh. | Cyngor i ymgorffori yn y rôl bresennol |
| m. Ymchwil ymwelwyr | | |
| n. Safleoedd wifi cyhoeddus | Amh. | Cyngor i ymgorffori yn y rôl bresennol |
| o. Cynlluniau cymhelliant | £5,000-£10,000 | |
| 7.2a - Strategaeth brand, strategaeth farchnata ac ati | £40,000 | |
| b. Swyddog cyswllt antur | £20,000 - £25,000 y flwyddyn ac argostau, T&S, lleoliadau | |
| c. Tyfu'r rhwydwaith | Isafswm o £2,000 y flwyddyn | Dylai dyfu'n organig ar ôl sefydlu rhwydwaith ond rhaid i rywun arwain. |
| d. Cynhadledd awyr agored | £10,000 | |
| e. Dadansoddiad bwlch sgiliau | £3,000 | |
| f. Sioe awyr agored y Fro | £10,000 | |
| g. Addysg gydag ysgolion | Amh. | Cyngor i ymgorffori yn y rôl bresennol neu rôl swyddog antur.<br>Gallai ddod yn rhan o rôl swyddog 5x60 lleol Chwaraeon Cymru. |
| h. Datblygiadau seilwaith yn seiliedig ar fatrics gweithgarwch/lleoliad | Amrywiol | |
| 7.3a Hwb gweithgarwch antur | £25,000 i gynnal astudiaeth ddichonoldeb | Pwysig i gael arweiniad diwydiant gyda hyn. |
| b. Hybiau lloeren gyda chyswllt â'r prif hwb antur | | |

# 10. Canlyniadau hyd yma

Mae canlyniadau amrywiol wedi'u sicrhau yn ystod yr astudiaeth ddichonoldeb:

1. Mae proses wedi cael ei sefydlu i drwyddedu arforgampau gyda CNC ar safleoedd dan warchodaeth
2. Mae darparwr gweithgarwch wedi cael trwydded arforgampau i weithredu yn y safle dan warchodaeth

3. Mae darparwr gweithgarwch yn dechrau darparu gweithgareddau yn Cosmeston yn 2020
4. Mae trafodaethau ar droed i gynnal digwyddiad arddangos yn 2020
5. Mae peilot rhwydwaith gweithgarwch awyr agored wedi cael cadarnhad o gyllid gan y Grŵp Gweithredu Lleol
6. Mae matrics gweithgarwch/lleoliadau awyr agored wedi cael ei greu fel rhan o'r astudiaeth ddichonoldeb hon. Gellir defnyddio'r wybodaeth yn y matrics i helpu gyda rhoi gwybod i'r holl bartneriaid am y gweithgareddau sydd ar gael yn ardal y prosiect a'r darpar ddatblygiadau i wella'r ddarpariaeth o weithgarwch
7. Mae'r astudiaeth ddichonoldeb wedi llwyddo i ddenu partneriaid o sectorau amrywiol sy'n mynegi dyhead i gydweithio i hybu'r ddarpariaeth o weithgareddau yn yr ardal yn well
8. Mae darparwr gweithgarwch awyr agored wedi dechrau gofalu am uned cynhwysydd yn Southerndown

# 11. Cyfleoedd Cyllido

## 11.1 Y Dirwedd

Mae gan weithredu'r nodau Tymor Byr, Canolig a Hir botensial i gyflawni newid mawr o ran newid y farn am y Fro wledig fel cyrchfan twristiaeth antur. Yn ogystal â chydlynu cyflawni'r nodau hyn, y flaenoriaeth fydd denu cyllid allanol yn gefnogaeth, gan gynnwys ymwneud y sector preifat, ar gyfer cyflawni'r nodau.

O ran cyllid, un mater allweddol yw gwerthfawrogi bod y sector preifat yn osgoi risg yn aml, ac yn aml bydd eisiau i'r sector cyhoeddus gael gwared ar y risg neu warchod rhagddi cyn y daw'r sector preifat i mewn. Mae buddsoddiadau mewnol gwirioneddol gan y sector preifat yn tueddu i fod yn brin yn aml, ac fel rheol bydd y sector preifat yn ymateb yn well i gyfleoedd a gyflwynir gan y sector cyhoeddus. Bydd y nodau sydd wedi'u datgan yn gofyn am lefel o fuddsoddiad gan y sector cyhoeddus i wireddu'r potensial. Nid yw sicrhau cyllid ar gyfer prosiectau adfywio ac adnewyddu yng Nghymru yn hawdd, mae'n cymryd amser ac mae angen buddsoddi adnoddau sylweddol mewn prosiectau a datblygu achos busnes. Mae hyn wedi mynd yn fwy heriol gyda'r toriadau mewn gwariant cyhoeddus yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

## 11.2 Adnoddau presennol

Bydd rhaid i'r CGC ystyried sut orau i ddefnyddio ei adnoddau ei hun.

## 11.3 Ffynonellau cyllid allanol

Ceir nifer o gyfleoedd cyllid posib o hyd, a fydd yn amodol ar amserlen unrhyw brosiect datblygu wrth symud ymlaen ac amodau'r corff dyfarnu adeg y cais. Mae'n amgylchedd cystadleuol ond

gallai elfennau'r cynllun fod yn atyniadol i sefydliadau cyllido yn amodol ar eu rheolau a'r trefniadau a'r endid rheoli cyfreithiol a sefydlir rhwng partneriaid. Amlinellir ffynonellau cyllido posib isod.

### 11.3.1 Cynllun Datblygu Gwledig (CDG) CGC

Mae'r llwybr cyllido allanol allweddol yn debygol o ddod o'r Cynllun Datblygu Gwledig ym Mro Morgannwg. Mae'r nodau'n ymddangos fel pe baent yn bodloni blaenoriaeth graidd y Strategaeth Ddatblygu Leol ar gyfer 2014-2020, yn benodol "Ychwanegu gwerth at hunaniaeth leol ac adnoddau naturiol a diwylliannol". Mae dyraniad y CDG yn helpu i gyllido a datblygu prosiectau a syniadau arloesol i sicrhau economi gadarnach, cynnal yr amgylchedd naturiol a chefnogi cymunedau cadarn.

### 11.3.2 Cronfa'r Cymunedau Arfordiol (CCA)

Lansiwyd Cronfa'r Cymunedau Arfordirol (CCA) gan y Llywodraeth yn 2012 a'r nod yw annog datblygiad economaidd cymunedau arfordirol y DU, a chyllido prosiectau a fydd yn darparu twf economaidd a swyddi. Mae'r Gronfa'n defnyddio incwm o asedau morol Stad y Goron (tua 50 y cant o'r incwm a gynhyrchir yn flynyddol) ac fe'i gweinyddir gan y Gronfa Loteri Fawr ledled y DU. Hyd yma, mae grantiau wedi cael eu dyfarnu i 218 o sefydliadau ledled y DU i ychwanegu gwerth o £119 miliwn.

Cyhoeddodd Llywodraeth y DU ar 8fed Gorffennaf 2015 y bydd CCA yn cael ei hymestyn tan 2020/21. Bydd o leiaf £90m o gyllid newydd ar gael o 2017/18 ymlaen yn dilyn diwedd y rhaglen gyfredol.

Anogir ymgeiswyr i sicrhau cyllid cyfatebol ar gyfer eu ceisiadau, er nid yw hyn yn angenrheidiol ar gyfer y dyfarniad. Er eu bod wedi mynd heibio bellach, dyma esiamplau o brosiectau a fyddai'n cyd-fynd â meini prawf CCA am gyllid yng nghyfarwyddyd Rownd 3:

- Prosiectau'n ceisio creu swyddi uniongyrchol ac anuniongyrchol gydag elfennau datblygu/cefnogi busnes ar gyfer busnesau bach a chanolig, gan gynnwys cefnogaeth ddeori wedi'i thargedu;
- Prosiectau'n ceisio gwella'r economi leol, gan roi hwb i dwristiaeth a hybu'r ardal fel cyrchfan hamdden hyfyw;
- Rhaglenni'n ceisio cynyddu incwm ymwelwyr o raglen yn seiliedig ar glystyrau thematig fel teithiau cerdded arfordirol, mentrau cynnyrch lleol, twristiaeth antur i ddatblygu darpariaeth nodedig, ond amrywiol, ar gyfer yr ardal;
- Datblygu darpariaeth twristiaeth a hamdden o safleoedd arfordirol i integreiddio'r cyfleusterau hyn yng nghanol y dref a'r cynllun datblygu adwerthu newydd;
- Prosiectau'n ceisio rhoi sylw i dymoroldeb gan greu patrymau newydd o alw am dwristiaeth drwy sefydlu marchnadoedd arbenigol ar draws y flwyddyn.

Mae CGC wedi derbyn cyllid CCA i 'sicrhau'r potensial cyflogaeth gorau posib i Arfordir Treftadaeth Morgannwg', yn benodol gwelliannau i lithrfa Bae Dunraven a darparu unedau storio masnachol gerllaw Canolfan Dreftadaeth yr Arfordir.

### 11.3.3 Digwyddiadau Cymru

Mae'r Uned Digwyddiadau Mawr yn Digwyddiadau Cymru yn darparu cymorth ariannol i ddigwyddiadau ond mae'r ffocws mawr ar gefnogi cynllunio a darparu digwyddiadau mawr, a fydd yn denu ac yn dylanwadu ar gynulleidfaoedd rhyngwladol ar raddfa fawr, a sylw helaeth gan y cyfryngau. Fodd bynnag, mae'n werth cysylltu â'r Uned gan eu bod yn awyddus i ddatblygu digwyddiadau twf, sy'n darparu profiad unigryw.

### 11.3.4 Cynllun Cefnogi Buddsoddiad Twristiaeth (CCBT)

Mae'r CCBT yn gynllun grantiau ar gyfer busnesau twristiaeth newydd a phresennol Cymru sydd eisiau gwella ansawdd eu cyfleusterau a chynyddu capasiti lle mae bwlch yn y farchnad. Mae'r cynllun, sy'n cael ei weithredu gan Lywodraeth Cymru, yn darparu hyd at 25% o gyllid ar gyfer prosiectau rhwng £5,000 a £500,000. Y prosiectau cyfalaf sy'n gymwys am gefnogaeth yw:

- Profiadau ymwelwyr newydd dychmygus/gwybodaeth mewn atyniadau twristiaeth;
- Uwchraddio yn y sector gweithgareddau i wella profiad yr ymwelwyr a gallu cystadleuol;
- Uwchraddio i ddarparu Ymdeimlad o Le (SOP) mewn llety a bwytai, sy'n gysylltiedig ag ymwelwyr.

### 11.3.5 Rheoli Cyrchfannau Croeso Cymru : Cronfa Arloesi Cynnyrch Twristiaeth (CACT) a Chronfa Ymgysylltu Twristiaeth Ranbarthol (CYTR)

Yn ychwanegol at CCBT, mae cefnogaeth ariannol amrywiol ar gael gan sefydliad Croeso Cymru i gefnogi datblygiad a thwf twristiaeth yng Nghymru. Mae'r ffrydiau cyllido'n cynnwys Cronfa Arloesi Cynnyrch Twristiaeth a Chronfa Ymgysylltu Twristiaeth Ranbarthol a'u pwrpas yw gweithio gyda phartneriaid y sector twristiaeth ledled Cymru i gyrraedd y targed o 10% o dwf sydd wedi'i ddatgan yn y strategaeth twristiaeth. Nod y cronfeydd yw annog gweithio ar y cyd agosach rhwng consortia twristiaeth, grwpiau partneriaeth a masnach a datblygu a gwella'r ddarpariaeth o gynhyrchion i ymwelwyr a fydd o fudd i'r sector twristiaeth, cymunedau lleol ac, yn allweddol, helpu i dyfu'r economi dwristiaeth mewn ffordd gynaliadwy.

Mae terfyn uchaf o **£150,000** o gyllid CACT yn ystod y 2 flynedd nesaf. Mae hyd at 100% o gyllid ar gael ar gyfer gweithgareddau prosiect cymwys. Fodd bynnag, bydd prosiectau gyda chyllid cyfatebol yn cael eu sgorio fel rhan o feini prawf asesu mwy ffafriol.

### 11.3.6 Cronfa Micro Fusnesau a Busnesau Bach (CMFBB) Llywodraeth Cymru

Mae'r CMFBB yn gronfa gyfalaf sy'n cael ei chefnogi drwy Raglen Datblygu Gwledig – Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru 2014-2020, sy'n cael ei chyllido gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygiad Gwledig a Llywodraeth Cymru. Mae'n galluogi busnesau llai i ddatblygu cynhyrchion twristiaeth cynaliadwy a safonol sy'n creu swyddi ac yn hybu twf mewn marchnadoedd newydd a phresennol. Mae blaenoriaethau'r gronfa'n cynnwys y canlynol (nid yw'r rhestr yn hollgynhwysfawr):

- Cynhyrchion twristiaeth arloesol o ansawdd uchel sy'n newid enw da.
- Gwestai moethus (ehangu presennol, uwchraddio a gwestai newydd).
- Atyniadau pob tywydd, drwy gydol y flwyddyn.
- Prif atyniadau.
- Profiadau gweithgarwch arloesol.
- Profiadau bwyd Cymreig nodedig gyda ffocws ar ymwelwyr.
- Profiadau Glampio a Gwersylla arloesol o'r safon uchaf.
- Cyfleusterau sba a hamdden o ansawdd uchel.
- Prosiectau Diwylliannol neu Dreftadol arloesol.
- Cynhyrchion tafarndai nodedig a safonol, Gwely a Brecwast, Llety Gwesteion.
- Llefydd anarferol i aros.

### 11.3.7 Cronfa Dreftadaeth y Loteri / Y Gronfa Loteri Fawr

Yn cael ei gweinyddu gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri (CDL) a'i chyllido ar y cyd â'r Gronfa Loteri Fawr, mae CDL yn dynodi bod parciau (a mynwentydd) y wlad wedi bod yn flaenoriaeth erioed ers i CDL ddechrau buddsoddi i ddechrau ynddynt yn 1996. Mae'r rhaglen Parciau i Bobl yn sicrhau bod cyllid sydd rhwng £100,000 a £5 miliwn ar gael iddynt ac mae wedi talu hyd at 90 y cant o gostau'r prosiect (ond, yn nodweddiadol, 60% yw'r cyfartaledd), ac maent ar gyfer parciau trefol a gwledig, os oes modd dangos bod y cymunedau lleol yn gwerthfawrogi'r parc fel rhan o'r dreftadaeth leol.

Ers ei lansio yn 2006, mae Parciau i Bobl wedi dyrannu £254 miliwn i 135 o brosiectau ledled y DU (cyfartaledd o £1.88m) gyda 50% o'i gyllid hyd yma wedi'i dargedu at yr 20% o'r wardiau mwyaf difreintiedig yn y DU. Nodir pum canlyniad y rhaglen fel a ganlyn:-

- Cynyddu'r amrywiaeth o gynulleidfaoedd;
- Gwarchod a gwella gwerth treftadaeth;
- Cynyddu'r amrywiaeth o wirfoddolwyr;
- Gwella sgiliau a gwybodaeth drwy hyfforddiant; a
- Gwella rheolaeth a phrif ffrwd.

Mae’r Fro wledig yn cynrychioli cyrchfan hamdden tawel. O edrych ymlaen, mae cyfle i gynyddu uchelgais ac ymchwilio i ddatblygu potensial nifer o safleoedd.

# 12. Casgliad

Mae tîm WATO, drwy ymgysylltu â’r holl bartïon sydd â diddordeb, wedi cwblhau ymchwiliad trwyadl i’r hyn sy’n ymarferol mewn perthynas â’r ddarpariaeth antur (yr ystod o weithgareddau a chyfleoedd busnes) sy’n gallu cael eu cynnal yn y Fro wledig, gan gynnwys ar hyd arfordir Bro Morgannwg. Mae’r astudiaeth yn datgan yn glir amrywiaeth o argymhellion fesul cam (tymor byr, canolig a hir) ar gyfer tîm Cymunedau Gwledig Creadigol (CGC) Bro Morgannwg, i ystyried sut a phryd i weithredu yn unol â’u Strategaeth Ddatblygu Leol gyfredol. Mae’r argymhellion wedi’u strwythuro mewn ffordd a fydd yn galluogi i CGC flaenoriaethu ei raglen waith yn ystod y 5 mlynedd nesaf.